

Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd

Adroddiad terfynol

Cadeiriwyd gan yr Athro Professor Charlotte Williams OBE

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	3
Rhagair y Cadeirydd	4
Cydnabyddiaethau	6
Ein datganiad o weledigaeth	7
Canfyddiadau allweddol	8
Profiad bywyd a'r angen am newid	8
Y cwricwlwm ac adnoddau	8
Dysgu proffesiynol	9
Polisiâu ysgolion	9
Ymgysylltu a chynaliadwyedd	10
Crynodeb o'r argymhellion	11
Argymhellion ar adnoddau	11
Argymhellion ar hyfforddi'r gweithlu a datblygiad proffesiynol	12
Argymhellion ar ddysgu proffesiynol	12
Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA)	12
Argymhellion ar addysgu ar ddechrau gyrfa	13
Argymhellion ar athrawon ac arweinwyr sefydledig	13
Argymhellion ar gamau gweithredu ar lefel ysgolion	14
Argymhellion ar gamau gweithredu ar gyfer cynaliadwyedd	15
Rhan 1: Cyflwyniad	17
Ein cylch gwaith	17
Y cwricwlwm	17
Y cyd-destun: pam bod y ffocws hwn yn bwysig i'r cwricwlwm newydd?	20
Sut yr aethom ati i gyflawni'r dasg	24
Rhan 2: Adnoddau	26
Adolygiad o adnoddau	26
Argymhellion ar adnoddau	29
Rhan 3: Hyfforddi'r gweithlu a datblygiad proffesiynol	31
Cyflwyniad	31
Rhwystrau rhag newid	33
Llais disgyblion	39
Amrywiaeth yn y gweithlu addysg	40
Y fframwaith dysgu proffesiynol – seilwaith y system a'r cwricwlwm newydd	43
Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA)	44
Dysgu proffesiynol yn y gweithlu sefydledig	46
Argymhellion ar hyfforddi'r gweithlu a datblygiad proffesiynol	48
Argymhellion ar ddysgu proffesiynol	48

Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA)	48
Argymhellion ar addysgu ar ddechrau gyrfa	49
Argymhellion ar athrawon ac arweinwyr sefydledig	49
Rhan 4: Camau gweithredu ar lefel ysgolion	51
Argymhellion ar gamau gweithredu ar lefel ysgolion	57
Rhan 5: Camau gweithredu ar gyfer cynaliadwyedd: arweinwyr, ysgogwyr, dysgwyr	59
Arweinyddiaeth	60
Ysgogwyr	61
Cyllid	61
Rôl Estyn	61
Trefniadau adolygu parhaus ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru	62
Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol	62
Dysgwyr: Y diwylliant galluogol	63
Gwerthuso	64
Mentrau ehangach	65
Anghenion ymchwil	66
Argymhellion ar gamau gweithredu ar gyfer cynaliadwyedd	67
Rhan 6: Sylwadau i gloi	69
Atodiad A: Enghreifftiau o adnoddau	71
Atodiad B: Y rhanddeiliaid yr ymynghorwyd â nhw	73

Rhagair y Gweinidog

Mae'n bleser gennyf dderbyn yr adroddiad terfynol hwn gan yr Athro Charlotte Williams a'i gweithgor. Fel y rhagwelais, mae'n drylwyr ac yn ddiddorol, gan gynnig gwirioneddau caled ac argymhellion clir.

Mae ein cwricwlwm newydd yn uchelgeisiol o ran ei ddisgwyliadau ar gyfer pob dysgwr ac ar gyfer ein system addysg. Dim ond drwy helpu pob dysgwr a phob athro gan sicrhau y gallant fanteisio'n llawn ar wybodaeth, sgiliau a phrofiad ym mhob rhan o'r cwricwlwm y gallwn ddatblygu dinasyddion egwyddorol a gwybodus.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig ffordd ymlaen o ran sut y gallwn sicrhau – ar draws pob maes dysgu a phrofiad – fod profiadau a chyfraniadau amrywiol pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn rhan annatod o'r broses.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod argymhellion yr adolygiad yn ymdrin â phob agwedd ar addysg yng Nghymru – gan gynnwys dysgu proffesiynol i athrawon, adnoddau'r cwricwlwm a sut rydym yn casglu ac yn defnyddio data.

Mae rhai rhanddeiliaid wedi canolbwyntio ar y materion hyn fel materion sydd ond yn berthnasol wrth addysgu hanes. Mae hynny, wrth reswm, yn bwysig. Ond mae'r materion hyn yn mynd ymhell y tu hwnt i un pwnc neu un wers unigol.

Mae'r argymhellion yma yn cynnig her ddifrifol mewn perthynas â materion a datblygiadau cysylltiedig ac rwy'n awyddus iddynt gael eu hystyried yn y cyd-destun hwnnw, ac mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol y Llywodraeth.

At hynny, nid materion i'r Llywodraeth yn unig yw'r materion a godir yn yr adroddiad hwn, er mai'r Llywodraeth fydd yn gyfrifol am osod y tôn a blaenoriaethu'r materion hyn. Byddem yn disgwyl i'r Llywodraeth nesaf fod yn glir o ran ei disgwyliadau ac i gydweithredu â phartneriaid a'r system gyfan wrth iddi ddatblygu'r materion hyn.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Charlotte ac i'r grŵp am adroddiad clir o ran ei ddiben a'r elfennau ymarferol ac am eu gwaith caled, eu huchelgais a'u hymrwymiad.

Kirsty Williams AS, Y Gweinidog Addsyg

Rhagair y Cadeirydd

Ym mis Gorffennaf 2020, gofynnodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, i mi arwain adolygiad annibynnol i gynghori ar y ffordd yr addysgir themâu a phrofiadau sy'n ymwneud â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ym mhob rhan o gwricwlwm yr ysgol, ac i wella'r broses honno. Ym mis Tachwedd 2020, cyflwynodd y Gweithgor Gweinidogol ganfyddiadau cychwynnol yr adolygiad o adnoddau i gefnogi'r broses o addysgu a dysgu yn y maes blaenoriaeth hwn. Mae'n bleser gennyf yma gyflwyno'r adroddiad terfynol sy'n deillio o'r adolygiad llawn o adnoddau, dysgu proffesiynol a materion sy'n gysylltiedig â'r datblygiad hwn yn y cwricwlwm newydd.

Mae'r Adolygiad hwn yn arwydd o lwybr arloesol o ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru. Ni wnaed gwaith o'r fath erioed o'r blaen, ac roedd ei angen yn ddifrifus, a hoffwn longyfarch y Gweinidog a'r bobl hynny o bob cefndir yng Nghymru am eu blaengaredd wrth ymgyrchu a sicrhau y rhoddir sylw i'r dimensiwn hwn yn y cwricwlwm newydd ac y gweithredir ar hynny. Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yr hawl i gael cyfle i ehangu ei sail wybodaeth a'i brofiadau drwy ymgysylltu â safbwyntiau, themâu a chyfraniadau ethnig lleiafrifol a hynny ym mhob disgyblaeth o fewn y cwricwlwm newydd. Dim ond drwy ddatgelu'r amrywiaeth o safbwyntiau a chyfraniadau a wnaed gan y cymunedau ethnig lleiafrifol at ddatblygiad Cymru drwy gydol ei hanes ac yn yr oes sydd ohoni y gellir cyfoethogi'r cwricwlwm.

Mae ffeithiau anghydraddoldeb rhwng hiliau yn y system addysg yng Nghymru bellach yn amlwg ac wedi'u dogfennu'n effeithiol. Caiff cyrhaeddiad plant a phobl ifanc o rai cymunedau lleiafrifol ei llesteirio gan gwricwlwm sydd wedi methu â chynrychioli eu hanes, a chyfraniadau eu cymunedau, ddoe a heddiw. Cânt eu llesteirio gan ddiffyg modelau rôl cadarnhaol mewn gweithlu addysg nad yw'n adlewyrchu proffil ethnig amrywiol Cymru yn ddigonol; a chânt eu llesteirio gan brofiadau o hiliaeth yn eu bywydau beunyddiol yn yr ysgol. Mae'n rhaid i hyn newid.

Bu'n fraint sylweddol i mi arwain y fenter bwysig hon. Hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad am yr ymateb agored, cadarnhaol ac adeiladol a gafwyd i'r Adolygiad ledled Cymru. Mae'r Gweithgor wedi clywed gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys disgyblion, staff addysgu, arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr, yr undebau athrawon, darparwyr addysg i athrawon mewn prifysgolion a chan aelodau o staff o amrywiaeth o sefydliadau anllywodraethol a sefydliadau a ariennir gan y llywodraeth ledled Cymru. Rwyf wedi cael adroddiadau a dogfennau ymchwil, enghreifftiau o brosiectau ac adnoddau arloesol, ac wedi cael gwybod am sawl enghraifft o waith da sy'n mynd rhagddo mewn ysgolion ledled y wlad. At ei gilydd, mae'r corff cadarn iawn hwn o dystiolaeth yn sail i gasgliadau ac argymhellion yr adroddiad terfynol. Mae'r cynigion yn eang eu cwmpas ac yn gofyn am ymdrech bendant ar ran amrywiaeth o randdeiliaid. Maent yn rhyng-gysylltiedig a dylid eu hystyried fel cyfres o argymhellion, wedi'u hategu gan amrywiaeth ehangach o gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig yn eu cymryd ar hyn o bryd i ymdrin ag anghydraddoldebau rhwng hiliau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei datganiad o weledigaeth, sef 'Cymru sy'n wrth-hiliaeth erbyn 2030', a bydd yn rhoi ei Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar waith ym mis Mawrth eleni. Disgwylir i waith y grŵp hwn lywio'r strategaeth honno.

Ni all y sector addysg ymdrin â'r ffactorau cymdeithasol, diwylliannol a strwythurol sy'n cynnal anghydraddoldeb rhwng hiliau ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, gall y sector addysg chwarae rhan flaenllaw drwy greu dinasyddion egwyddorol a gwybodus y dyfodol. Mae'r hyn sy'n digwydd mewn ysgolion ledled Cymru, sut y byddant yn ymgysylltu â phryderon yr adroddiad hwn, yn gweithredu ac yn ymateb iddynt, yn hollbwysig o ran sicrhau llesiant *pob* plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, llesiant y rheini o gefndiroedd lleiafrifol a llesiant cymdeithas yn gyffredinol. Rwy'n hyderus y bydd y cynigion yn yr adroddiad hwn yn galluogi'r gymuned addysg i fwrw ati i ymgysylltu â'r maes blaenoriaeth hwn mewn ffordd fwy systematig a chydlynol.

Yr Athro Charlotte Williams OBE

Cydnabyddiaethau

Bydd gan ddiwyddiadau 2020 le amlwg yn llyfrau hanes y genedl fel blwyddyn pandemig COVID-19, a gafodd effaith sylweddol ar bob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Yn y flwyddyn honno, dechreuodd cyfnod o darfu difrifol ac eang ar y system addysg ar yr union adeg yr oedd paratodau yn mynd rhagddynt i roi diwygiadau pellgyrhaeddol i'r cwricwlwm cenedlaethol ar waith. Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr adolygiad hwn o dan amgylchiadau mor eithriadol.

Wrth ymgymryd â'r adolygiad hwn, roedd yn ffrainc gennyf weithio gyda grŵp o bobl a roddodd o'u hamser a'u hymdrech ochr yn ochr â'u hymrwymiaadau sylweddol eraill, gan gynnwys dau arsylwr o Arolygiaeth EM, Estyn. Rwy'n ddiolchgar i bob aelod o'r Gweithgor Gweinidogol am eu sylwadau, eu diwydrwydd a'u harbenigedd wrth ddatblygu'r adolygiad hwn a'u hymrwymiad wrth symud ymlaen i gyfrannu at roi'r cynigion ar waith. Mae'r Adolygiad hwn yn awgrymu bod newid pellgyrhaeddol ar droed ac rwy'n hyderus y bydd y grŵp hwn o bobl yn chwarae rhan bwysig wrth roi agweddau penodol ar yr argymhellion ar waith.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr Adolygiad ac a rannodd eu syniadau a'u profiadau gyda mi ac aelodau eraill y grŵp, yn ysgrifenedig neu mewn cyfarfodydd, gan ddarparu tystiolaeth a chynnig eu syniadau ynghylch sut y gellid cyfoethogi a gwella'r cwricwlwm a'r trefniadau ar gyfer ei gyflwyno drwy ymgysylltu â themâu a safbwyntiau ethnig lleiafrifol. Mae'n amlwg bod cryn dipyn o waith da yn mynd rhagddo ac y gellir bwrw ati i ddatblygu'r gwaith hwnnw mewn ffordd fwy systematig.

Yn olaf, hoffwn gydnabod y cymorth hanfodol a gafodd yr Adolygiad gan aelodau tîm Cwricwlwm ac Asesu Llywodraeth Cymru, o dan arweiniad John Pugsley. Mae'r tîm, sef John Pugsley, Peter Ray Kennedy, Helen May a Sarah Hough wedi gweithio'n agos gyda mi yn ystod yr wyth mis diwethaf, gan gynnig cymorth, arweiniad a chynghor cadarn drwy gydol y broses a'm rhoi mewn cysylltiad â swyddogion eraill o fewn Llywodraeth Cymru wrth i'r gwaith ehangu a dyfnhau. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Sarah Hough am ei chefnogaeth gyson i'r gwaith hwn ac am ddangos cymaint o ymrwymiad, brwdfrydedd a chreadigrwydd. Bu ei gwaith mewn perthynas â'r prosiect hwn yn eithriadol, a rhoddodd gymorth personol i mi ac aelodau'r Gweithgor o dan amodau heriol iawn cyfyngiadau symud COVID-19. Nid yw unrhyw un o swyddogion y llywodraeth a grybwyllir yn gyfrifol mewn unrhyw ffordd am gynnwys yr adroddiad hwn, ond roeddent yn rhan annatod o'r broses o'i ddatblygu.



Yr Athro Charlotte Williams OBE

Mawrth 2021

Ein datganiad o weledigaeth

Ein gweledigaeth yw y dylai pob dysgwr, fel 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd'¹, ystyried profiadau a chyfraniadau amrywiol pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru, ddoe a heddiw.

Yn unol â hyn, bod pob athro yng Nghymru, ym mhob maes dysgu a phrofiad, yn meddu ar y sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol i fodloni'r disgwyliadau hyn wrth gynllunio ei gwricwlwm ac yn ei ymarfer addysgegol.

Bydd hyn yn golygu bod pob athro:

- yn teimlo ei fod yn cael ei alluogi a'i gefnogi i greu cwricwla sy'n rhoi sylw i gyfraniadau lluosog ac amrywiol grwpiau ac unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol at wybodaeth ddisgyblaethol a thrawsddisgyblaethol benodol
- yn teimlo ei fod yn cael ei alluogi a'i gefnogi i osod y cyfraniadau hyn yng nghyd-destun hanes a datblygiad Cymru fel cymdeithas amlddiwylliannol
- yn deall tarddiadau hiliaeth ac arwyddion o hiliaeth

¹ <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau>

Canfyddiadau allweddol

Profiad bywyd a'r angen am newid

Ceir cryn dystiolaeth i gadarnhau bod anghydraddoldeb rhwng hiliau yn nodwedd ar addysg yng Nghymru, a hynny mewn perthynas â chyrhaeddiad, polisïau ac arferion ysgolion, y cwricwlwm a'r gweithlu.

Mae athrawon o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol â phrofiad bywyd yn nodi'n gwbl glir bod y ffyrdd presennol o weithio yn parhau i atgyfnerthu achosion o wahaniaethu ac nad ydynt yn gydnaws ag egwyddorion cynhwysiant, cydraddoldeb na safonau proffesiynol.

Ceir tystiolaeth amlwg o ddiffyg amrywiaeth ethnig yn y gweithlu addysg mewn ysgolion.

Mae disgyblion o bob cefndir yn nodi bod angen cynnwys mwy amrywiol a bod angen i themâu a chyfraniadau ethnig lleiafrifol gael eu cynrychioli'n well yn eu cwricwla.

Mae myfyrwyr o gefndiroedd lleiafrifol am weld hanes sy'n berthnasol iddyn nhw a'u bywydau ac maent am i'w hanes gael ei addysgu fel rhan o hanes Cymru / Prydain yn hytrach nag ar wahân.

Y cwricwlwm ac adnoddau

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnig cyfleoedd i gynnwys y safbwyntiau hyn ym mhob rhan o'r cwricwlwm ac ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad, gan gynnwys Amrywiaeth fel thema drawsbynciol.

Codwyd rhywfaint o bryder mewn amrywiaeth o ffora na fydd natur lai rhagnodol y Cwricwlwm i Gymru yn arwain at y newidiadau cyson sydd eu hangen ym mhob ysgol a lleoliad.

Mae diffyg adnoddau dwyieithog o ansawdd da i gefnogi'r broses o addysgu'r themâu hyn ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) yn enwedig ym meysydd pwnc Llesiant, Mathemateg a Rhifedd a Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Mae'r adnoddau sydd ar gael yn gyfyngedig ac maent yn canolbwyntio'n anghymesur ar gaethwasiaeth, trefedigaethedd a'r Ymerodraeth. Mae'r materion hyn yn hollbwysig a dylid eu cynnwys fel rhan o'r Cwricwlwm, ond mae'r diffyg sylw i gynnwys themâu a chyfraniadau arwyddocaol eraill mewn perthynas â phrofiadau cymunedau ethnig lleiafrifol yn awgrymu anghydbwysedd yn y cwricwlwm.

Mae'r broses o goladu adnoddau yn ad hoc, ac nid oes dull gweithredu cydlynol na systematig o ran trefnu adnoddau, er mwyn monitro beth sydd ar gael a chyfeirio ymarferwyr at ddeunyddiau gwerthfawr o ansawdd uchel sy'n bodoli eisoes. Mae hyn yn arwain at broblemau mynediad i ymarferwyr cyffredin.

Mae angen canllawiau ac enghreifftiau ar athrawon (a rhanddeiliaid eraill) ac maent yn gofyn am adnoddau o'r fath.

Dysgu proffesiynol

Nid oes gan Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) ddull gweithredu systematig mewn perthynas â datblygu cymhwysedd yn y maes hwn. Roedd adborth i'r grŵp yn awgrymu y byddai angen canllawiau a hyfforddiant ar diwtoriaid o Sefydliadau Addysg Uwch a'r rheini sy'n rhan o bartneriaethau hyfforddiant er mwyn rhoi'r agenda hon ar waith.

Gellir crynhoi'r rhwystrau allweddol sy'n wynebu ymarferwyr addysgu wrth ymgysylltu â'r maes blaenoriaeth hwn fel **Amser, Adnoddau, Cymhwysedd, Gwybodaeth a Hyder**.

Caiff y gweithlu addysgu ei lesteirio gan ddiffyg gwybodaeth a chyfleoedd i ymgysylltu â modelau arferion gwrth-hiliol.

Nid oes digon o ddysgu proffesiynol parhaus o ansawdd uchel wedi'i deilwra'n arbennig ar gael ar bob lefel o'r gweithlu.

Nid oes digon o amser na chefnogaeth yn cael eu rhoi i athrawon ystyried canllawiau pwnc-benodol wrth amrywio eu cwricwlwm.

Mae tuedd i gredu nad yw ffocws ar themâu Du, Asiaidd ac Ething Leiafrifol yn flaenoriaeth mewn ardaloedd lle ceir poblogaethau ethnig lleiafrifol dwysedd isel.

Nid ystyrir bod y lefel gyllido bresennol ar gyfer dysgu proffesiynol yn ddigonol i ymateb i gefnogi sylw cadarn i'r maes blaenoriaeth hwn.

Polisiau ysgolion

Mae 'dull ysgol gyfan' yn hanfodol er mwyn cynnwys y flaenoriaeth hon fel rhan o'r broses addysgu a dysgu ac ym mhob agwedd ar amgylchedd a phrofiad yr ysgol, yn hytrach nag fel elfen ad hoc neu ychwanegol.

Hyd yn hyn, nid oes unrhyw dystiolaeth bod adolygiad neu archwiliad systematig wedi'i gynnal o'r ffordd y mae ysgolion yn ymdrin â'r thema hon.

Nid oes gan ysgolion Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol (CCS) sy'n gydamserol â'u cynlluniau datblygu ysgol a'u blaenoriaethau ac yn eu hadlewyrchu, ac sy'n destun prosesau adolygu a gwerthuso rheolaidd, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau polisiau ac arferion sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhwng hiliau.

Mae arweinyddiaeth ac ymrwymiad cryf yn allweddol er mwyn rhoi Amrywiaeth ar waith fel thema drawsbynciol.

Nid yw ysgolion yn gwneud digon i alluogi gwaith cynllunio'r cwricwlwm, gwaith datblygu'r cwricwlwm a gwaith rhyngddisgyblaeth mewn perthynas â'r thema hon.

Ymgysylltu a chynaliadwyedd

Mewn sawl achos, nid yw ysgolion wedi datblygu trefniadau sylweddol ar gyfer ymgysylltu â sefydliadau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn lleol, yn genedlaethol nac yn rhyngwladol drwy gysylltiadau gwirioneddol neu rithwir. Bydd angen trefniadau cadarnach ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Gall y dehongliad o '*cynefin*' fel un o gysyniadau craidd y cwricwlwm newydd fod yn gyfyngol ac yn waharddol os bydd yn ymwneud ag ardaloedd lleol a demograffi lleol yn unig.

Mae cyfleoedd helaeth i ddatblygu trefniadau ar gyfer rhoi sylw i wrth-hiliaeth a'r broses o ddatblygu themâu a chyfraniadau ethnig lleiafrifol yn y cwricwlwm newydd. Nid oes trefniadau ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth/arbenigedd rhwng cyfoedion na rhwng ysgolion a fyddai'n hyrwyddo arloesedd yn y maes hwn.

Gallai mentrau allweddol sydd ar waith gan sefydliadau blaenllaw yng Nghymru ffurfio sail ddefnyddiol ar gyfer partneriaethau ysgogi newid yn y cwricwlwm newydd, gan adlewyrchu'r maes blaenoriaeth hwn.

Dylai strategaeth eang ac integredig Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb rhwng hiliau fel y'i nodir yng Nghynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol 2021 chwarae rhan bwysig wrth ysgogi newidiadau sylweddol o ran polisïau ac arferion ysgolion.

Crynodeb o'r argymhellion

Argymhellion ar adnoddau²

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr adnoddau addysgu a dysgu Saesneg ynghylch pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sydd ar gael ar hyn o bryd a **sicrhau bod adnoddau addas ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

Argymhelliad 2: Datblygu **canllaw adnoddau cychwynol ar-lein** sy'n rhestru ac yn gwerthuso'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer cyfraniadau a phrofiadau pobl ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ddoe a heddiw ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad. Dylai hyn gynnwys deunyddiau ar Hwb a thu hwnt. Bydd yn cyfeirio at adnoddau gan sefydliadau cenedlaethol, grwpiau addysg a ffynonellau eraill yng Nghymru a thu hwnt. Dylai'r canllaw gael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Argymhelliad 3: Cynnwys **Canllawiau i athrawon ar ddatblygu adnoddau priodol a heriol ar themâu amrywiaeth a lleiafrifoedd** ar Hwb, gydag enghreifftiau a phrosesau, ac adnoddau rhyngddisgyblaethol a fydd yn arwain at ymestyn a datblygu deunyddiau cwricwlaidd yn barhaus.

Argymhelliad 4: Datblygu **cyfres newydd o adnoddau dysgu a datblygu proffesiynol dwyieithog** sy'n edrych yn fanwl ar amrywiaeth yng Nghymru ddoe a heddiw. Dylai'r **papurau cefndir** hyn, a fyddai'n cefnogi ac yn ymestyn sail wybodaeth athrawon ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad, gynnwys: canllaw naratif ar hanes amrywiaeth yng Nghymru; canllaw naratif ar rôl Cymru yn hanes trefedigaethedd Prydain; bywgraffiadau unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol o amrywiol gefndiroedd sy'n edrych ar eu cyfraniadau i fywyd Cymru, Prydain a'r byd; ysgrifau llenyddol gan unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol; canllaw naratif ar hanes hiliaeth a gwrth-hiliaeth yng Nghymru.

Argymhelliad 5: **Dosbarthu a chategoreiddio adnoddau yn well** ar Hwb er mwyn sicrhau ei bod yn haws i ymarferwyr addysgu ac eraill chwilio a dod o hyd i adnoddau yn ymwneud â themâu pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Argymhelliad 6: Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i edrych ar greu adnoddau dwyieithog newydd ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh), gan roi sylw dyledus i Feysydd Dysgu a Phrofiad lle y nodwyd bod diffyg adnoddau sylweddol ar hyn o bryd, sef Gwyddoniaeth a Thechnoleg; Iechyd a Lles; a Mathemateg a Rhifedd. Dylai pob un o'r adnoddau newydd gynnwys **deunyddiau addysgu a dysgu hyblyg o ansawdd uchel** y gellid eu defnyddio gan athrawon fel rhan o'u cwricwlwm ar sawl cam drwy'r continwwm dysgu 3-16. Gellid cynhyrchu'r cyfres hon o adnoddau drwy broses o gyd-gynhyrchu gydag ymarferwyr.

² Dylid nodi y cyflwynwyd argymhellion 1 i 6 yn yr adroddiad interim. Dylid nodi bod geiriad argymhelliad 2 (argymhelliad 4 yr adroddiad interim) wedi'i addasu er mwyn sicrhau eglurder ers cyhoeddi'r adroddiad interim.

Argymhellion ar hyfforddi'r gweithlu a datblygiad proffesiynol

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ar y 42 o argymhellion a nodir yn yr adroddiad *Ethnic Minority Representation within the School Workforce in Wales Phase 2 report*³.

Argymhelliad 8: Fel rhan o gam gweithredu'r adroddiad hwn, dylid gwahodd aelodau'r Gweithgor i gymryd rhan yn ymgynghoriad trydydd cam Cyngor y Gweithlu Addysg.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ysgoloriaethau penodol er mwyn cefnogi myfyrwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn nodi rhesymeg a strategaeth ar gyfer recriwtio a chadw staff addysgu Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a chynnig dilyniant gyrfu iddynt, a'u bod yn cyhoeddi eu data bob blwyddyn.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno system orfodol o gyhoeddi data cydraddoldeb ysgolion ym maes recriwtio i weithluoedd ysgolion, bylchau cyflog, cyfraddau cadw a dilyniant.

Argymhelliad 12: Dylid cynnig cymorth mentora a chymorth cymdeithasol i bob athro o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fel norm. Gallai'r Undebau a'r Rhwydwaith Cenedlaethol chwarae rhan bwysig wrth alluogi'r datblygiad hwn.

Argymhelliad 13: Dylid rhoi cymorth ariannol i'r Rhwydwaith Cenedlaethol newydd i'w alluogi i ddarparu mentoriaeth ac anogaeth gadarn ym maes addysg ar gyfer amrywiaeth a gwrth-hiliaeth i athrawon unigol.

Argymhellion ar ddysgu proffesiynol

Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA)

Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ar y 42 o argymhellion a nodir yn yr adroddiad *Ethnic Minority Representation within the School Workforce in Wales Phase 2 report*⁴ fel y maent yn berthnasol i rôl Prifysgolion mewn AGA, hyfforddiant a Safonau Proffesiynol.

Argymhelliad 15: Dylai Partneriaethau AGA lunio a chyhoeddi eu strategaeth ar gyfer ymdrin â threfniadau recriwtio Lleiafrifoedd Ethnig.

Argymhelliad 16: Dylai pob Partneriaeth AGA yng Nghymru gynnal gwerthusiad ac archwiliad creadigol o'r hyfforddiant presennol ac effeithiolrwydd addysg ar gyfer

³ Disgwylir i adroddiad Cyngor y Gweithlu Addysg *Ethnic Minority Representation within the School Workforce in Wales Phase 2 report* gael ei gyhoeddi yn ystod 2021

⁴ Disgwylir i adroddiad Cyngor y Gweithlu Addysg *Ethnic Minority Representation within the School Workforce in Wales Phase 2 report* gael ei gyhoeddi yn ystod 2021

hyfforddiant amrywiaeth a gwrth-hiliaeth yn ei rhaglen ac, ar sail hyn, ddatblygu cynllun strategol i roi mwy o sylw i'r thema hon.

Argymhelliad 17: Dylid galluogi athrawon dan hyfforddiant i ymgysylltu'n atgyrchol â'r pryderon hyn a rhoi sylw i amrywiaeth ym mhob un o'u meysydd dysgu craidd. Bydd hyn yn golygu creu meini prawf asesu sy'n annog y ffocws hwn a gwerthoedd ac agweddau sy'n sail i safonau athrawon cymhwysedig, sy'n galluogi athrawon dan hyfforddiant i ddangos cymhwysedd mewn amrywiaeth ddiwylliannol ac wrth greu deunyddiau addysgu perthnasol.

Argymhelliad 18: Fel rhan o gynlluniau Addysg ar gyfer Amrywiaeth, dylai SAUau sicrhau eu bod yn darparu hyfforddiant gwrth-hiliaeth gorfodol o ansawdd da i holl grwpiau tiwtor a darparwyr partneriaeth y SAU.

Argymhelliad 19: Dylai prosesau achredu AGA fonitro i ba raddau y gall Partneriaethau ddangos eu hymrwymiad i'r maes blaenoriaeth hwn.

Argymhellion ar addysgu ar ddechrau gyrfa

Argymhelliad 20: Dylid cefnogi athrawon sy'n dechrau eu gyrfa drwy gynlluniau dysgu proffesiynol cenedlaethol a dylai cyrff arbenigol ddatblygu gwybodaeth arbenigol am y pwnc sy'n rhoi sylw i amrywiaeth ac sy'n cyfeirio at lwyfannau dysgu ar-lein ar gyfer addysg arbenigol am y pwnc.

Argymhelliad 21: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag athrawon sy'n dechrau eu gyrfa er mwyn nodi pa gymorth y byddai ei angen arnynt wrth ystyried eu datblygiad ym maes addysg ar gyfer amrywiaeth yn ystod y cyfnod sefydlu fel rhan o Becyn Cymorth Dechrau Gyrfa.

Argymhellion ar athrawon ac arweinwyr sefydledig

Argymhelliad 22: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried elfen o gyllid wedi'i neilltuo o fewn ei dyraniadau dysgu proffesiynol blynyddol i alluogi camau penodol i ddatblygu'r maes blaenoriaeth hwn.

Argymhelliad 23: Dylid rhoi canllawiau ar sail ymchwil i ysgolion ac annog cwestiynau i'w hysgogi i ystyried amrywio'r cwricwlwm. Mae hyn yn rhan allweddol o gymorth dysgu proffesiynol wrth gynllunio'r cwricwlwm ac o ran Dysgu a Chynllunio o Bell Anghydamserol (RALD). Byddai hyn hefyd yn cynnwys canllawiau i sicrhau bod athrawon yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i ymdrin â'r materion hyn yn yr ystafell ddosbarth.

Argymhelliad 24: Yn unol ag arferion cyffredin mewn proffesiynau eraill yng Nghymru, dylid datblygu modiwl dysgu proffesiynol cenedlaethol gorfodol o ansawdd uchel – sy'n ymdrin â gwrth-hiliaeth a chynhwysiant, addysgeg a datblygu'r cwricwlwm ym maes addysg ar gyfer amrywiaeth a gwrth-hiliaeth.

Argymhelliad 25: Dylai'r rhaglen newydd ar gyfer y Cymhwyster Cenedlaethol Meistr mewn Addysg⁵ ystyried cynnwys hyfforddiant gwrth-hiliaeth gorfodol ar gyfer pob cyfranogwr a datblygu modiwl/maes diddordeb arbenigol: Addysgu ar gyfer Amrywiaeth er mwyn hyrwyddo rhagoriaeth addysgu ac ymchwil yn y maes hwn.

Argymhelliad 26: Dylai Llywodraeth Cymru, Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol Cymru a'r Consortia Rhanbarthol gefnogi hyfforddiant parhaus trylwyr er mwyn llunio, gweithredu a denu sylw at amrywiaeth ethnig a chynwysoldeb fel rhan o ddull ysgol gyfan i benaethiaid ac arweinwyr.

Argymhelliad 27: Dylai'r Consortia Rhanbarthol gynnal digwyddiadau dysgu proffesiynol blynyddol er mwyn parhau i ddatblygu a hyrwyddo rhagoriaeth ym maes addysg ar gyfer amrywiaeth.

Argymhelliad 28: Dylai'r Consortia Rhanbarthol gefnogi ysgolion drwy ddarparu cysylltiadau i gymunedau ac astudiaethau achos cadarnhaol, fel enghreifftiau o fentrau llwyddiannus gan ysgolion i hyrwyddo amrywiaeth yn eu cwricwlwm. Yn ogystal, dylid cyfeirio at lwyfannau ar-lein arbenigol sy'n anelu at wella ymdrechion amrywio o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad, datblygu ffora er mwyn hwyluso trefniadau datblygu rhwng cyfoedion a threfniadau ar gyfer rhannu arferion rhwng ysgolion er mwyn hybu addysg ar gyfer amrywiaeth.

Argymhelliad 29: Fel rhan o'r adolygiad o safonau proffesiynol, dylid ystyried cyfeirio'n benodol at arferion gwrth-hiliaeth fel safon ar gyfer ymarfer.

Argymhellion ar gamau gweithredu ar lefel ysgolion

Argymhelliad 30: Dylai ysgolion adolygu eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol (CCSau) er mwyn sicrhau eu bod yn glir, yn berthnasol a'u bod yn ymwneud â chymau gweithredu penodol, diriaethol a chyflawnadwy ar gydraddoldeb rhwng hiliau, datblygu'r cwricwlwm a dysgu. Dylent fod yn gysylltiedig â Chynlluniau Datblygu Ysgol a dylid eu hadolygu bob blwyddyn, eu diweddarau a'u cyhoeddi.

Argymhelliad 31: Dylai ysgolion gynnal adolygiadau hunanwerthuso ac archwiliadau creadigol rheolaidd i gynllunio ar gyfer gwella polisiau'r ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â chydaddoldeb rhwng hiliau ac er mwyn prif ffrydio'r mater, a dylent fonitro eu trefniadau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm yn y maes blaenoriaeth hwn.

Argymhelliad 32: Dylai arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr ysgolion a'r rheini sy'n anelu at ddod yn arweinwyr ysgolion gael cyfleoedd dysgu proffesiynol parhaus, canllawiau a hyfforddiant er mwyn creu diwylliannau cadarnhaol mewn ysgolion a chynnwys cydraddoldeb rhwng hiliau a safbwyntiau a chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fel rhan o ddull ysgol gyfan.

⁵ Llywodraeth Cymru Datganiad Ysgrifenedig: Cymhwyster Cenedlaethol Meistr mewn Addysg <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cymhwyster-cenedlaethol-meistr-mewn-addysg>

Argymhelliad 33: Dylai Cyrff Llywodraethu ysgolion ystyried pennu hyrwyddwr amrywiaeth er mwyn sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei hybu o lefel arweinwyr, ac y caiff ei hadlewyrchu o fewn strategaethau'r ysgol a'i harchwilio'n rheolaidd.

Argymhelliad 34: Dylid defnyddio dull ysgol gyfan mewn perthynas â dysgu proffesiynol gwrth-hiliaeth, lle bydd ysgolion yn galluogi sgysiaau parhaus a dwfn fel mater o flaenoriaeth er mwyn ymdrin ag amrywiaeth fel thema drawsbynciol wrth ddatblygu'r cwricwlwm.

Argymhelliad 35: Dylai ysgolion ddatblygu rhwydweithiau gweithgar a chynaliadwy â sefydliadau, busnesau, cysylltiadau cymunedol ac unigolion ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol wrth ddatblygu'r maes blaenoriaeth hwn.

Argymhelliad 36: Dylai Consortia Rhanbarthol helpu ysgolion i drefnu sesiynau i gyfoedion neu sesiynau i ystafelloedd dosbarth fel rhan o'r trefniadau addysgu, gan helpu i gysylltu ysgolion ag amrywiaeth ethnig dwysedd isel a dwysedd uchel.

Argymhelliad 37: Dylai arweinwyr ysgolion gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ysgol eang a sgysiaau dwfn, gan gynnwys rhai â disgyblion, rhieni/gofalwyr, er mwyn adolygu a gwerthuso'r datblygiad hwn a gwneud cynnydd wrth greu diwylliant ysgol gyfan cynhwysol.

Argymhellion ar gamau gweithredu ar gyfer cynaliadwyedd

Argymhelliad 38: Dylai Consortia Rhanbarthol ddatblygu fel mater o flaenoriaeth faes ffocws a rhwydwaith trawsgwricwlaidd penodol ar *Addysg ar gyfer Amrywiaeth* yn y cwricwlwm newydd er mwyn hybu arferion da a rhannu adnoddau⁶.

Argymhelliad 39: Dylai Consortia Rhanbarthol fabwysiadu cynllun Cenhadon i ddatblygu'r ffocws hwn a chyflawni mewn perthynas â'r ffocws hwn yn ystod y broses o weithredu'r cwricwlwm newydd a thu hwnt i'r broses honno, ac i ysgogi'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm a galluogi gwaith monitro a gwerthuso hanfodol o ran cynnydd mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon. Gallai'r Cenhadon hyn fod yn rhan o Weithgor ar draws y Consortia Rhanbarthol, sy'n gyfrifol am hybu, monitro a gwerthuso'r maes blaenoriaeth hwn.

Argymhelliad 40: Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Rhwydwaith Cenedlaethol newydd i alluogi deialog parhaus a dwfn â Phenaeithiaid a llywodraethwyr ysgolion ar hyrwyddo newidiadau trawsnewidiol yn y maes blaenoriaeth hwn.

Argymhelliad 41: Dylai Awdurdodau Lleol, Consortia Rhanbarthol ac ysgolion ddatblygu partneriaethau effeithiol ag amrywiaeth o sefydliadau, er mwyn cefnogi gwaith ac ystyried ffynonellau cyllid ehangach i gefnogi gwaith yn y maes blaenoriaeth hwn.

Argymhelliad 42: Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu Estyn o fewn tair blynedd i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith i gynnal adolygiad rhagarweiniol wedi'i anelu at ystyried

⁶ Dylid nodi y cyflwynwyd argymhelliad 38 yn yr adroddiad interim

sut mae ysgolion yn dechrau datblygu cwricwla sy'n adlewyrchu thema drawsbynciol amrywiaeth a pha fathau o gymorth pellach y gall fod eu hangen arnynt. Mae'r Gweithgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad thematig llawn o fewn pum mlynedd.

Argymhelliad 43: Estyn i adolygu ac adrodd ar sut mae ysgolion yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n rhoi sylw i amrywiaeth ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad, a hyrwyddo rhannu arferion da drwy astudiaethau achos ac adroddiadau thematig.

Argymhelliad 44: Creu categori newydd ar gyfer ysgolion yng Ngwobrau Addysgu Cymru'r Dyfodol er mwyn hybu cynnwys hanes/cyfraniadau/profiadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar draws pob pwnc mewn ysgolion⁷.

Argymhelliad 45: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y caiff datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig sy'n ymwneud â'r maes blaenoriaeth hwn eu hatgyfnerthu a'u datblygu ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad er mwyn adlewyrchu'r sylw parhaus i'r thema hon, a'u haddasu'n unol â'r cynnydd a wneir mewn ysgolion.

Argymhelliad 46: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Undebau gan anelu at ymdrin â'r materion sy'n wynebu staff addysgu Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gan gynnwys eu profiadau o wahaniaethu, cael eu gorlethu a diffyg arweiniad mewn perthynas â chynnydd.

Argymhelliad 47: Dylai Cymwysterau Cymru ystyried ffyrdd priodol o gefnogi amrywiaeth wrth gynllunio cymwysterau, wrth iddo ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gynnwys pwnc a pharamedrau cynllunio cymwysterau TGAU yn benodol i Gymru.

Argymhelliad 48: Dylai Cymwysterau Cymru weithio'n agos gyda chyrff dyfarnu er mwyn sicrhau, lle y bo'n briodol, bod y manylebau ar gyfer cymwysterau sy'n benodol i Gymru yn adlewyrchu addysg ar gyfer amrywiaeth.

Argymhelliad 49: Dylai Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ymrwmo i gefnogi datblygiad Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol (CCSau) a monitro eu heffeithiau.

Argymhelliad 50: Dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ystyried cyllid fel blaenoriaeth ar gyfer yr anghenion ymchwil sy'n deillio o'r maes blaenoriaeth hwn yn y cwricwlwm newydd.

Argymhelliad 51: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y broses ar gyfer gwerthuso'r cwricwlwm newydd yn ymdrin ag addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'u profiadau ym mhob rhan o gwricwlwm yr ysgol.

⁷ Dylid nodi y cyflwynwyd argymhelliad 44 yn yr adroddiad interim.

Rhan 1: Cyflwyniad

Ein cylch gwaith

Ym mis Gorffennaf 2020, penododd y Gweinidog Addysg Weithgor i gynghori ar y ffordd yr addysgir themâu sy'n ymwneud â chymunedau Du, Asiaidd ac Ething Leiafrifol a'u profiadau ym mhob rhan o gwricwlwm yr ysgol, ac i wella'r broses honno. Prif amcanion y Gweithgor yw cwblhau adolygiad o'r adnoddau dysgu sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn helpu i addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau Du, Asiaidd ac Ething Leiafrifol, eu cyfraniadau a'u profiadau, ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh), a chynghori ar drefniadau i gomisiynu adnoddau dysgu newydd yn y meysydd hyn, yn seiliedig ar gyngor arbenigwyr a grwpiau sy'n bodoli eisoes.

Roedd hefyd yn ofynnol i'r grŵp adolygu cyfleoedd ac adnoddau dysgu proffesiynol cysylltiedig.

Roedd y Gweithgor yn cynnwys aelodau annibynnol, sy'n ymarferwyr profiadol ac sydd wedi cyfrannu at hanes Du, Asiaidd ac Ething Leiafrifol, o dan arweiniad yr Athro Charlotte Williams OBE a gyda chymorth gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Ceir rhestr o'r aelodaeth lawn yn yr atodiad i'r Cylch Gorchwyl⁸.

Cyfrannodd y grŵp at yr adolygiad cyflym ar addysg a gynhaliwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar ran Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn ystod hydref 2020. Roedd adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, sef 'Improving Equality in Education'⁹, yn cynnwys y canllawiau canlynol a oedd, ym marn y grŵp, yn cyfleu neges effeithiol ar y derminoleg a gaiff ei defnyddio:

“Wrth ysgrifennu ein hadolygiad, aethom ati'n fwriadol i osgoi defnyddio'r acronymau/termau Saesneg 'BAME' neu 'BME', ac eithrio lle bo hyn yn disgrifio enw sefydliad neu rwydwaith, gan ein bod yn cydnabod nad yw pawb yn cytuno â'r termau hyn ac y gall y termau hyn arwain at brofiadau o stigmatiddio, dadpersonoli a gwahaniaethu (othering). Fel y cyfryw, rydym yn ceisio cyfeirio at bobl benodol a chymunedau o bobl benodol lle bynnag y bo'n bosibl. Lle nad yw hyn yn bosibl, ac er na fydd unrhyw gategori cyffredin yn berffaith, defnyddiwn y term 'Du, Asiaidd ac Ething Leiafrifol'.”

Mae adroddiad interim y Gweithgor a'r Adroddiad Terfynol hwn yn mabwysiadu'r dull hwn.

Y cwricwlwm

O 2022, bydd Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae pedwar diben wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru, sy'n cynnwys y dylai dysgwyr ddatblygu fel "dinasyddion

⁸ Cylch Gorchwyl <https://llyw.cymru/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-bame-yn-y-cylch-gorchwyl>

⁹ Nid oedd adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru 'Improving Equality in Education' wedi'i gyhoeddi ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd", sy'n wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol, ac yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol.

Un o nodweddion diffiniol y Fframwaith yw ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm¹⁰ a'u trefniadau asesu eu hunain. Nid rhaglen gyflwyno 'parod' mohoni. Mae'r dull newydd hwn yn cydnabod, o fewn y fframwaith cenedlaethol, mai ysgolion ac ymarferwyr sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau am anghenion eu dysgwyr penodol, gan gynnwys dewis y pynciau a'r gweithgareddau a fydd yn eu helpu i ddysgu orau. Fel rhan o'r fframwaith cenedlaethol hwn, mae'r canllawiau ar themâu trawsbynciol¹¹ yn esbonio nad yw Cymru, fel unrhyw gymdeithas arall, yn unffurf, ond ei bod yn hytrach yn gyfuniad o werthoedd, safbwyntiau, diwylliannau a hanes sy'n cynnwys pawb sy'n byw yng Nghymru. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi, wrth gynllunio cwricwlwm, y dylai ymarferwyr gynnwys cyfleoedd i ddysgwyr ddathlu cefndiroedd a gwerthoedd amrywiol a hyrwyddo dealltwriaeth o amrywiaeth ethnig a diwylliannol Cymru. Wrth gyfeirio at y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ar gyfer y Dyniaethau¹²:

"Caiff cymdeithasau eu nodweddu gan amrywiaeth o normau a gwerthoedd diwylliannol, ieithyddol, economaidd, cyfreithiol a gwleidyddol. Maen nhw hefyd yn ddeinamig, gan sbarduno ac ymateb i newidiadau, ar raddfa leol, genedlaethol a byd-eang. Gall dysgwyr archwilio'r cysylltiadau a'r rhyng-ddibyniaethau rhwng y cymdeithasau hyn, yn y gorffennol a'r presennol, yng nghyd-destun globaleiddio byd-eang. Gall ymwneud pellach eu hannog hefyd i archwilio a meithrin dealltwriaeth oddefgar ac empathetig o'r amrywiol greddau, gwerthoedd, traddodiadau ac egwyddorion sydd wrth wraidd ac yn llywio cymdeithas ddynol."

Felly, mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnig cyfleoedd sylweddol i ysgolion ystyried gwahanol agweddau ar brofiadau a chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Dylid defnyddio dulliau cydgynhyrchu a chydweithio rhwng ysgolion, rhieni, y cyhoedd a Sefydliadau Anllywodraethol perthnasol er mwyn cyflawni hyn.

Ar yr un pryd, gan nad oes rhestr lawn o bynciau rhagnodedig yn y Cwricwlwm newydd i Gymru a bod hyblygrwydd i ysgolion gynllunio eu cwricwla eu hunain o fewn fframwaith cenedlaethol, mae perygl y bydd y themâu hyn yn parhau i gael eu hanwybyddu neu eu gwthio i'r cyrion. Er y bydd dysgu am amrywiaeth, hunaniaeth a pherthyn, cyfiawnder a chydaddoldeb, hawliau a gweithredu cymdeithasol yn orfodol o fewn cwricwla ysgolion, nid oes unrhyw ofyniad statudol i addysgu pynciau penodol sy'n meithrin dealltwriaeth greiddiol o hanes hiliaeth ac amrywiaeth, fel hanes Caethwasiaeth, yr Ymerodraeth neu'r Holocaust. Mae hyn yn peri pryder. Mae gan rai o aelodau'r Gweithgor amheuan ynghylch gweithredu'r cwricwlwm yn y fath

¹⁰ Cwricwlwm i Gymru: Cynllunio eich cwricwlwm <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/>

¹¹ Cwricwlwm i Gymru: Themâu trawsgwricwlaidd ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm/>

¹² Cwricwlwm i Gymru: Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig ar gyfer y Dyniaethau <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/>

fodd ac maent yn credu bod angen rhywfaint o gynnwys gorfodol neu ganllawiau mwy penodol er mwyn sicrhau y rhoddir mwy o sylw i hanes amrywiaeth a hiliaeth. Mae'r Gweithgor wedi gosod yr adroddiad hwn o fewn paramedrau'r cwricwlwm newydd, gan gydnabod na chaiff ei lywio gan gynnwys, ond gan ddatblygu'r achos y dylai cwricwla o ansawdd da o reidrwydd adlewyrchu'r themâu hyn i raddau helaeth. Felly, mae'r adroddiad yn ystyried sut y gellir cyflawni hyn heb ragnodi unrhyw gynnwys penodol, gan nad yw'r Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu hynny.

Mae'r mandad statudol, moesegol, demograffig a disgyblaethol yn glir. Bydd darpariaeth addysgol o ansawdd da yn rhoi sylw i'r safbwyntiau, y profiadau a'r cyfraniadau hyn. Bydd angen gwella sgiliau ymarferwyr addysgu er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn a bydd angen rhoi'r cymorth a'r canllawiau angenrheidiol iddynt er mwyn sicrhau y manteis ar y cyfleoedd hyn.

Astudiaeth Achos 1

Darparwr: Ysgol Uwchradd Cathays

Arfer effeithiol: Cefnogi grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed

Cyd-destun: Mae Ysgol Uwchradd Cathays yng Nghaerdydd yn rhoi pwyslais mawr ar dracio cynnydd a chyflawniad grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed, fel y rheini y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Caiff dros 63 o ieithoedd gwahanol eu siarad fel mamiaith yng nghartrefi'r disgyblion ac mae Saesneg yn iaith ychwanegol i 70% o'r disgyblion. Mae disgyblion yn ymuno â'r ysgol o'r tu allan i'r DU drwy gydol y flwyddyn academaidd.

- **Trefniadau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth** drwy system rheoli gwybodaeth yr ysgol er mwyn sicrhau bod pob athro, pennaeth adran, pennaeth blwyddyn ac uwch-reolwr cyswllt yn cael gwybodaeth am gefndir cymdeithasol a chyrhaeddiad blaenorol disgyblion. Mae hyn yn eu helpu i gynllunio'n effeithiol ar gyfer cynnydd ac yn sicrhau gwell cysondeb wrth dargedu a chefnogi unigolion a grwpiau o ddisgyblion.
- Rhoddir blaenoriaeth i bwysigrwydd **cynnwys rhieni** yn nysgu eu plant, a meithrin partneriaethau llawn ymddiriedaeth a gwerthfawrogiad rhwng y cartref a'r ysgol.
- Gall rhieni gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu i'r teulu yn ystod gwyliau hanner tymor.
- Mae'r ysgol hefyd yn cynnig 'Cyfweliadau Teulu' i bob disgybl a'i rieni ym Mlwyddyn 7, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11. Mae'r cyfweliadau hyn yn canolbwyntio ar gynnydd disgyblion unigol ac maent yn ffordd ddefnyddiol o gael adborth gan rieni am waith a bywyd yr ysgol.
- Mae cyfarfodydd â grwpiau o rieni yn golygu y gellir nodi rhwystrau penodol sy'n atal y rhieni, yn eu barn nhw, rhag ymgysylltu'n llawn ag addysg eu plant.

- Cyflogwyd cynorthwywyr addysgu dwyieithog, ac aelodau eraill o staff dwyieithog, i hysbysu'r rhieni am ddiwyddiadau ac i gyfieithu.
- Mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd sydd ar gael o fewn y cymunedau gwahanol, er enghraifft, mae'r ysgol yn cydweithio â grŵp o fewn y gymuned Somali leol i gynnig manau astudio gyda'r nos ac ar benwythnosau.
- Cyflogwyd aelod o'r gymuned Tsiec Roma i feithrin gwell cydberthnasau â disgyblion a rhieni er mwyn gwella presenoldeb.

Y cyd-destun: pam bod y ffocws hwn yn bwysig i'r cwricwlwm newydd?

Mae llai na blwyddyn nawr tan y caiff y cwricwlwm newydd ei weithredu'n llawn. Mae Taith 2022 yn mynd rhagddi'n llwyddiannus ac mae ysgolion yn gweithio'n galed, o dan amodau anodd pandemig y Coronafeirws (COVID-19), i ymgymryd â'r camau cychwynnol angenrheidiol ar gyfer rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith.

Mae nifer o resymau cymhellol dros sicrhau y caiff safbwyntiau, themâu a chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleafrifol eu hintegreiddio yn ystod y cam cynnar hwn o'r broses. Mae dull gweithredu gwrth-hiliaeth mewn perthynas ag addysg yn cynnwys tri phryder rhyng-gysylltiedig: creu diwylliant gwrth-hiliaeth cadarn, sicrhau arferion addysgegol sy'n ysgogol ac yn gynhwysol a datblygu cwricwla sy'n cynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau, gwybodaeth a chyfraniadau. Ein huchelgais yw y dylid cynnwys themâu Ethnig Lleafrifol o fewn diwylliant ysgolion, polisïau ysgolion a phrosesau ac o fewn y cwricwlwm ac na ddylid eu 'hychwanegu' ar ôl meddwl na'u cynnwys fel ymarfer ticio blychau. Byddai gwireddu'r uchelgais hon yn arwain at ddatblygu system addysg sy'n wirioneddol wrth-hiliaeth.

Mae Cymru yn gymdeithas amlddiwylliant sy'n cynnwys nifer o ethnigrwyddau, ieithoedd a chrefyddau. Mae ganddi hanes hir a chyfoethog o amrywiaeth, gan ei bod yn gartref i un o'r cymunedau hynaf o bobl Ddu yn Ewrop, ac mae ei datblygiad, ei hymdrechion i greu cyfoeth, ei hysbryd a'i chysylltiadau rhyngwladol yn adlewyrchu cyfraniadau cryf gan gymunedau lleiafrifol ddoe a heddiw. Mae hanes a datblygiad Cymru yn y byd yn hanes amhaenog sy'n cynnwys enghreifftiau o wrthdaro ac undod a chlymbleidiau, ac o bobloedd yn mudo ac yn cyfrannu mewn ffordd fuddiol. Mae hanes Cymru yn darparu'r cyd-destun ar gyfer meithrin gwybodaeth ac mae'n galluogi dysgwyr i greu cysylltiadau rhwng eu profiadau cyfoes o gysylltiadau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Mae hanes Cymru yn hanes o wahaniaeth ac amrywiaeth. Nid yw amrywiaeth ethnig yn fygythiad i Cymru, ond yn hytrach, yn rhan o'i chymeriad hanesyddol. Mae deall hynny yn hanfodol i hunaniaeth dysgwyr. Dylai cydnabod hyn helpu pawb i deimlo eu bod yn perthyn i Gymru. At hynny, gallai peidio ag ymdrin ag amrywiaeth hiliol ac ethnig danseilio cydlyniant cymdeithasol drwy fetu â dilysu realiti amrywiaeth gymdeithasol a chreu ymdeimlad o ymddieithrio ymhlith disgyblion o gefndiroedd lleiafrifol.

Amcanion y grŵp yw cyfrannu at ddiben allweddol y Cwricwlwm i Gymru, sef *hwrwyddo 'dinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd'* drwy sicrhau

bod adnoddau ystyrion ar gael i helpu i addysgu themâu Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn ysgolion, ac annog athrawon ac ysgolion i ymgysylltu â natur amlethnig Cymru o fewn eu holl arferion addysgeol, gan felly adlewyrchu uchelgais y Cwricwlwm i Gymru i sicrhau bod 'ymarferwyr yn meddwl o'r newydd ynghylch yr hyn maen nhw'n ei addysgu, sut y maen nhw'n addysgu a'r hyn rydym eisiau i bobl ifanc fod yn ogystal â dysgu'.

Mae llawer o waith da yn datblygu mewn ysgolion ledled Cymru ac mae llawer o esiamplau cadarn i'w cydnabod, eu dathlu a'u rhannu. Fodd bynnag, mae'r sail dystiolaeth yn awgrymu bod llawer i'w wneud o hyd a bod angen dull gweithredu mwy systematig mewn perthynas ag addysg ar gyfer amrywiaeth. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hon, bydd angen newid diwylliannol yn ogystal ag ymdrin â'r diffyg gwybodaeth. Bydd angen amser a chyfleoedd i ymdrin nid yn unig â deunydd newydd ond i ymchwilio i'r wybodaeth, yr arferion a'r credoau sy'n bodoli eisoes.

Mae data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn nodi yn 2019 fod 12% o'r holl ddisgyblion 5 oed a throsodd yn dod o gefndiroedd Ethnig Leiafrifol. Ceir cryn dipyn o amrywiad rhanbarthol o ran y ganran o ddisgyblion yng Nghymru sy'n nodi eu bod o gefndiroedd Ethnig Leiafrifol, gan amrywio o 34.4% yn ysgolion Caerdydd i ddim ond 4.1% yn ysgolion Ynys Môn, ond er gwaethaf yr amrywiad rhanbarthol hwn, gellir gweld amrywiaeth ethnig ym mhob rhan o Gymru¹³. Dylai dysgwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ddisgwyl profiad dysgu cadarnhaol a chyfoethog. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn nodi anghysondebau ethnig sylweddol o ran cyflawniad addysgol¹⁴¹⁵¹⁶ ac mae nifer o adroddiadau yn cyfeirio at hiliaeth systemig mewn ysgolion ledled Cymru¹⁷. Roedd argymhelliad ar ôl argymhelliad yn yr adroddiadau tystiolaeth a adolygwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru¹⁸ yn awgrymu bod angen datblygu cwricwlwm sy'n ymgysylltu ag amrywiaeth mewn ffordd fwy priodol: gan fynd i'r afael â hiliaeth, datblygu cwricwlwm mwy cynrychioliadol a gweithlu mwy cynrychioliadol. Nid yw'r portread digalon hwn o addysg yng Nghymru yn newydd. Mae tystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth feintiol ac ansoddol dros gyfnod amser cymharol eang, yn dangos bod angen cyfres eang o gamau gweithredu er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhwng hiliau ym maes addysg yng Nghymru, gan gynnwys cwricwlwm mwy cynhwysol. Mae amrywiaeth eang o ffactorau economaidd-gymdeithasol yn cyfrannu at greu patrymau o anghydraddoldeb rhwng hiliau yng Nghymru.¹⁹

¹³ Disgwylir i adroddiad Cyngor y Gweithlu Addysg *Ethnic Minority Representation within the School Workforce in Wales Phase 2 report* gael ei gyhoeddi yn ystod 2021

¹⁴ Brentnall, J (2020) *Actions needed to address issues affecting Black and Mixed ethnicity school pupils – a focus on Wales*

¹⁵ Brentnall, J (2020) *Identifying issues affecting Black and Mixed ethnicity school pupils – a focus on Wales*.

¹⁶ Adroddiad Adolygiad Tystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (Jason Arday 2020) *Improving Race Equality in Education* tud.19. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ym mis Mawrth 2021

¹⁷ Adroddiad Hiliaeth yng Nghymru - Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

<https://static1.squarespace.com/static/574451fe37013bd0515647ac/t/5ed6683282d130220b5020a9/1591109741222/Hiliaeth+Yng+Nghymru+-+Archwilio+Rhagfarn+Yn+Y+System+Addysg+Yng+Nghymru+%28F%29-%28W%29.pdf>

¹⁸ Disgwylir i adolygiadau tystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ym mis Mawrth

¹⁹ Adroddiad Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol COVID-19 Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol: <https://lyw.cymru/adroddiad-grwp-economaidd-gymdeithasol-covid-19-pobl-dduon-asiadd-lleiafrifoedd-ethnig>

Mae amrywiaeth yn un o themâu cyffredin craidd y cwricwlwm newydd. Mae ehangu'r cwricwlwm i gynnwys amrywiaeth o safbwyntiau o fudd i bawb. Dylai pob dysgwr, ni waeth beth fo'i gefndir, gael y cyfle i ystyried profiadau a chyfraniadau amrywiol pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru, ddoe a heddiw. Dylai fod hawl ganddo i gyfoethogi ei sail wybodaeth er mwyn ei baratoi mewn ffordd fwy priodol ar gyfer y byd y bydd yn byw ynddo ac y bydd yn tyfu ac yn ffynnu o'i fewn. Caiff disgyblaethau eu gwella drwy ehangu eu ffiniau a'u dyfnder deallusol i gynnwys safbwyntiau amrywiol. Mewn byd sy'n globaleiddio, bydd cwricwlwm cul a mewnblyg yn dod yn llai a llai darbwyllo i'r dysgwr. Bydd cwricwla cadarn a blaengar yn adlewyrchu'r themâu hyn, gan gydnabod safbwyntiau lluosog a barnau ymylol ac yn aml, ddehongliadau nad yw pawb yn cytuno â nhw. Yn ogystal, mae cyfleoedd clir i ysgolion ymgymryd â gwaith rhyngddisgyblaeth sy'n ystyried y pryderon hyn wrth greu cwricwlwm llawn gwybodaeth.

Hyd yn hyn, nid oes unrhyw archwiliad systematig ar waith i nodi i ba raddau y mae ysgolion yn mynd ati i amrywio eu cwricwlwm. Mae ein hymgyngoriadau yn awgrymu darlun amrywiol ac ad hoc ar draws ysgolion ac ar draws disgyblaethau ac yn awgrymu bod angen dull gweithredu mwy ymrwymedig a systematig.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn creu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ofyniad cyfreithiol i ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, ond mae cyflawni'r ddyletswydd hefyd yn gwneud synnwyr addysgol da. Yng Nghymru, mae'n ofynnol i ysgolion gyhoeddi ac adolygu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol (CCSau) er mwyn nodi sut y byddant yn gweithredu mewn perthynas â'r ddyletswydd hon. Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion hyrwyddo cydraddoldeb, yn hytrach na dim ond lliniaru hiliaeth ac achosion o wahaniaethu. Fel y cyfryw, mae'r ddyletswydd statudol hon yn sail i'r holl addysgu a dysgu a ddarperir yn yr ysgol, yn ogystal ag ethos a diwylliant yr ysgol. Aeth gwaith ymchwil annibynnol gan y trydydd sector a gyflwynwyd i'r Gweithgor gan Rwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN) ati i ystyried CCSau 56 o ysgolion a gynhelir gan ddod i'r casgliad bod dros hanner yr ysgolion a adolygwyd wedi methu â chyhoeddi eu cynlluniau ac mai prin iawn oedd y cynlluniau o blith y rhai a gyhoeddwyd a oedd o ansawdd da, gan awgrymu mai dim ond mewn 11% o ysgolion yng ngogledd Cymru yr oedd polisïau digonol ar waith²⁰. Mae ein hymgyngoriadau yn nodi bod llawer o ysgolion ledled Cymru wedi gweithredu mewn ffordd arwynebol ac yn aml wedi defnyddio dull 'torri a gludo' wrth ddatblygu eu CCSau. Nodwyd hefyd nad oes cysylltiadau amlwg rhwng eu cynlluniau â chynllun datblygu'r ysgol.

Yn anad dim, mae lleisiau disgyblion yn galw am newid. Mae ein hymgyngoriadau â phlant a phobl ifanc yn ategu gwaith a wnaed gan y Comisiynydd Plant sy'n awgrymu bod angen newid i gwricwlwm mwy cynhwysol²¹. Mae Fframwaith Hawliau i Ysgolion y Comisiynydd Plant yn fframwaith penodol ar gyfer y maes addysg, sy'n

²⁰ Moore, R (2020) Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN) *Review of School Strategic Equality Plans in North Wales*

²¹ Comisiynydd Plant Cymru Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru <https://www.complantcymru.org.uk/adnodau/dull-hawliau-plant/dull-gweithredu-seiliedig-ar-hawliau-plant-i-addysg-yng-nghymru/>

defnyddio'r un egwyddorion a'r un dull gweithredu a nodwyd yn ein fframwaith hawliau plant cyffredin ar gyfer pob corff cyhoeddus.²²

Mae'r Comisiynydd Plant hefyd wedi cyflwyno papur safbwynt manwl ar hawliau plant yn y cwricwlwm a sut y dylid cynnwys CCUHP o fewn deddfwriaeth a chanllawiau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm²³. Mae'r papur hwn, a ddatblygwyd gyntaf yn 2018, yn gadarn o blaid sicrhau sylw dyledus i CCUHP ar wyneb y Bil Cwricwlwm ac Asesu, gan dynnu sylw at bwysigrwydd ystyried Hawliau Dynol ym maes addysg.

Mae'r holl ystyriaethau hyn yn annog ymdrechion i ailfeddwl ac ail-lunio'r cwricwlwm ar y cyd ag amrywiaeth o randdeiliaid. Yn hytrach nag ailadrodd yr hyn sy'n bodoli eisoes, mae'r sail dystiolaeth yn awgrymu ei bod yn bryd arloesi a newid, er mwyn llunio cwricwlwm sy'n cynnig adlewyrchiad mwy priodol o'r byd newidiol rydym yn byw ynddo. Dylai pob maes dysgu a phrofiad fod yn ymdrin â'r ystyriaethau hyn. Bydd angen cefnogi a galluogi athrawon i ymgymryd â hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyfres eang o gamau gweithredu i ymdrin â chydardoddeb rhwng hiliau yn y system addysg. Dylid gosod gwaith y Grŵp o fewn cyd-destun nifer o fentrau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru:

- Cyflwynwyd adroddiad ym mis Tachwedd 2020 gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen a benodwyd gan y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf 2020, ac a gaiff ei gadeirio gan Gaynor Legall, i gynnal archwiliad o henebion cyhoeddus, enwau strydoedd ac adeiladau sy'n gysylltiedig ag agweddau ar hanes pobl Ddu yng Nghymru, yn enwedig y fasnach mewn caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig, ond gan ystyried hefyd gyfraniadau pobl Ddu at fywyd yng Nghymru.²⁴
- Mae'r Gweithgor wedi cyfrannu at adolygiad o dystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, a oedd yn sail i'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a gaiff ei gyflwyno'n ffurfiol ym mis Mawrth eleni.²⁵
- Adolygiad Estyn o hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Bydd yr adolygiad hwn sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, ac y disgwylir adroddiad arno ym mis Hydref 2021, yn asesu sut y caiff amrywiaeth ei haddysgu ar hyn o bryd fel rhan o gwricwlwm hanes Cymru mewn ysgolion yng Nghymru²⁶
- Adolygiad tri cham Cyngor y Gweithlu Addysg o amrywiaeth yn y gweithlu ysgolion²⁷

²² Comisiynydd Plant Cymru Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru (fframwaith) <https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/dull-hawliau-plant/y-ffordd-gywir-2/>

²³ Addysg Hawliau Dynol yn y Cwricwlwm Newydd: Papur Safbwynt Comisiynydd Plant Cymru <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/11/CCFW-Children-Rights-and-Curriculum-Reform-Position-Paper-2018-CYMRAEG-copy.pdf>

²⁴ Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: Archwiliad o Goffáu yng Nghymru <https://llyw.cymru/y-fasnach-mewn-caethweision-ar-ymerodraeth-brydeinig-archwiliad-o-goffau-yng-nghymru>

²⁵ Disgwylir i adolygiadau tystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ym mis Mawrth 2021

²⁶ Estyn (Liz Counsell, Tachwedd 2019) 'Syr, beth oedd glo?' A yw ysgolion yn addysgu'n ddigon da am hanes a diwylliant Cymru? <https://www.estyn.llyw.cymru/blog/syr-beth-oedd-glo-yw-ysgolion-yn-addysgun-ddigon-da-am-hanes-diwylliant-cymru>

²⁷ Disgwylir i adroddiad Cyngor y Gweithlu Addysg *Ethnic Minority Representation within the School Workforce in Wales Phase 2 report* gael ei gyhoeddi yn ystod 2021

Ni all newidiadau yn y system addysg ar eu pen eu hunain ymdrin ag anghydraddoldebau strwythurol ehangach mewn ffordd gynhwysfawr. Disgwylir i Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol²⁸ Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar adolygiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth ar anghydraddoldebau rhwng hiliau yng Nghymru, gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2021 a bydd yn nodi amrywiaeth o fesurau wedi'u hanelu at fynd i'r afael â hiliaeth systemig mewn sefydliadau ac o fewn bywyd cymdeithasol yng Nghymru. Y weledigaeth yw sicrhau Cymru sy'n wrth-hiliaeth erbyn 2030. Mae gan addysg ran sylweddol i'w chwarae wrth greu cymdeithas decach. Mae argymhellion y Gweithgor yn sail i'r camau gweithredu hyn. Fodd bynnag, bydd llawer yn dibynnu ar ymrwymiad rhanddeiliaid allweddol – disgyblion, athrawon, arweinwyr addysgol a gwneuthurwyr a llunwyr polisi sy'n gweithio mewn partneriaeth i wireddu'r nodau hyn.

Sut yr aethom ati i gyflawni'r dasg

Wrth geisio cyflawni dau brif amcan y Cylch Gorchwyl, gweithiodd y grŵp mewn dau gam. Roedd y cam cyntaf yn canolbwyntio ar adolygu adnoddau ac aeth yr ail gam ati i ystyried Dysgu Proffesiynol ac ystyriaethau cysylltiedig. Roedd y fethodoleg yn cynnwys adolygiad o amrywiaeth eang o adnoddau, amrywiaeth eang o ymgynoriadau, cynnal grwpiau ffocws a chyfweliadau wedi'u targedu â swyddogion allweddol yn y llywodraeth sy'n ymwneud â datblygu'r cwricwlwm a threfniadau asesu.

Canolbwyntiodd yr adolygiad cychwynnol o adnoddau ar y canlynol:

- Adolygwyd y deunyddiau dysgu sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn helpu i addysgu themâu pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar Hwb, sef ystorfa adnoddau Llywodraeth Cymru, o ran eu cynnwys ac o ran eu hygyrchedd i athrawon;
- Adolygwyd archwiliad Cymdeithas Ddysgedig Cymru o'r adnoddau dysgu sydd ar gael er mwyn helpu i addysgu dimensiynau Cymreig a rhyngwladol fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru;
- Gofynnodd y Grŵp am esiamplau o'r deunyddiau a gaiff eu defnyddio ac aeth ati i adolygu'r esiamplau hynny, gan adolygu hefyd nifer o adnoddau nad ydynt ar gael ar Hwb ar hyn o bryd, fel dolenni i wefannau, flogiau, erthyglau, ffilmiau, clipiau fideo a phrosiectau ymchwil;
- Ystyriodd y Grŵp adroddiadau pwysig ledled y DU a oedd yn cyfeirio at addysgu themâu pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, fel y rhai a gynhyrchwyd gan Ymddiriedolaeth Runnymede, y Gymdeithas Hanesyddol a Black Curriculum UK;
- Ystyriodd y Grŵp enghreifftiau o waith a wnaed gan gyrff fel y Gymdeithas Frenhinol i wella amrywiaeth o fewn STEM yn y DU;
- Cynhaliodd y Cadeirydd gyfarfodydd defnyddiol ac addysgiadol â nifer o randdeiliaid a phartïon â diddordeb. (Ceir rhestr lawn o'r sefydliadau y mae'r Cadeirydd wedi cyfarfod â nhw yn Atodiad 1)
- Cynhaliodd y Grŵp grwpiau ffocws â phobl ifanc o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol; athrawon o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac athrawon o'r gweithlu addysgu cyffredinol er mwyn ystyried eu profiadau a gofyn pa newidiadau yr hoffent eu gweld;

²⁸ Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cydraddoldeb-hiliol-html>


- Cafodd y grŵp ddogfennau manwl a ddefnyddiwyd fel sail i Adolygiad Tystiolaeth Cyflym ym maes Cydraddoldeb rhwng Hiliau mewn perthynas ag Addysg, a drefnwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, a chyfrannodd at y broses honno.
- Fel rhan o ymarfer casglu tystiolaeth Estyn, bydd arolygwyr yn ymgysylltu â disgyblion o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn amrywiaeth o ysgolion ledled Cymru. Defnyddiwyd safbwyntiau'r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw hyd yn hyn i lywio rhan o sail dystiolaeth yr adroddiad.

Yn yr adolygiad o Ddysgu Proffesiynol a materion cysylltiedig, ystyriwyd y cwestiynau allweddol canlynol:

- Beth mae'r Safonau Proffesiynol yn ei ddatgan o ran y gofynion ar hil/ethnigrwydd ym maes addysg athrawon?
- Pa weithgarwch sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ym maes AGA o ran materion Ethnig Lleiafrifol ac addysg ar gyfer amrywiaeth?
- Beth yw'r ffactorau sy'n rhwystro ac yn galluogi ymdrechion i wella'r broses o addysgu agweddau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y cwricwlwm?
- A oes unrhyw waith ymchwil i'r graddau y mae AGA yn adlewyrchu hil/ethnigrwydd wrth hyfforddi athrawon yng Nghymru?
- A oes unrhyw fodiwlau Dysgu Proffesiynol ar gael ar hyn o bryd er mwyn cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol i athrawon ym maes hyrwyddo cydraddoldeb/cynhwysiant?
- Pa fathau o Ddysgu Proffesiynol (modelau) sydd ar gael ar hyn o bryd i athrawon newydd gymhwyso ac athrawon sefydledig yng Nghymru ar hil/ethnigrwydd?
- Sawl diwrnod HMS sydd ar gael er mwyn datblygu hyfforddiant i athrawon cyfredol?
- A yw athrawon yn gwybod sut i integreiddio'r ystyriaethau hyn yn eu cwricwlwm? Pa ganllawiau sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd yn hyn o beth? Beth sydd ei angen arnynt?
- Pwy sy'n arwain gwaith o'r fath ym maes ymarfer ac yn y chwe Maes Dysgu a Phrofiad?
- Beth mae Ysgolion Braenaru wedi'i wneud yn hyn o beth?
- Beth yw barn athrawon o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol?
- Beth yw rôl Estyn wrth hyrwyddo arferion gorau?
- Pam bod cyfraddau recriwtio unigolion o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i'r proffesiwn yn isel? Beth arall y gellid ei wneud i annog ymgeiswr a'u recriwtio'n llwyddiannus?

Rhan 2: Adnoddau

Cyhoeddwyd yr adroddiad interim llawn a oedd yn canolbwyntio ar adolygu adnoddau ym mis Tachwedd 2020. Gellir gweld yr adroddiad ac ymateb y Gweinidog yn: <https://llyw.cymru/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiadd-lleiafrifoedd-ethnig-yn-y-cwricwlwm-newydd>.



Yma ceir crynodeb o negeseuon allweddol yr adolygiad cychwynnol.

Adolygiad o adnoddau

Er bod y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru yn rhagnodi i raddau, mae gan ysgolion gryn ryddid i ddewis yr union gynnwys y maent yn ei addysgu. Nid yw'r Gweithgor wedi gweld unrhyw dystiolaeth glir ynghylch i ba raddau y mae cwricwla presennol ysgolion yn mynd i'r afael â hil ac amrywiaeth. Yr hyn a glywsom, a hynny'n eglur, o'r ymgynghoriadau â gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid cysylltiedig oedd bod athrawon am gael canllawiau, esiamplau, deunydd sbardun²⁹ a chyfeiriadau clir at yr adnoddau sydd ar gael er mwyn helpu i amrywio'r cwricwlwm o fewn pynciau penodol. Gwnaethant ofyn am ganllawiau ar derminoleg ac ar sut i ymdrin â'r themâu hyn o fewn addysgeg yr ystafell ddosbarth³⁰.

Wrth gynnal yr Adolygiad o adnoddau presennol a nodi beth fydd ei angen er mwyn helpu i roi'r cwricwlwm newydd ar waith, adolygodd y grŵp amrywiaeth o adnoddau (gweler Atodiad 2). Roedd yr adnoddau hyn yn cynnwys porthau pwysig, fel Hwb a noddir gan y Llywodraeth, adolygiadau ymchwil pwysig a gynhaliwyd, fel yr adolygiad gan y Gymdeithas Ddysgedig ac amrywiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau sydd ar gael ledled y DU, er enghraifft y rheini a gynhyrchwyd gan Black Curriculum UK.³¹ Yn ogystal, tynnodd nifer o randdeiliaid allweddol ein sylw at ddeunyddiau a luniwyd ganddynt neu y maent wrthi'n eu llunio³². Gwelodd y Gweithgor rai enghreifftiau arbennig o ddeunyddiau a luniwyd gan sefydliadau cenedlaethol,

²⁹ Addysgu am natur amlethnig Cymru: taflen sbarduno athrawon <https://llyw.cymru/addysgu-am-natur-amlethnig-cymru-taflen-sbarduno-athrawon>

³⁰ Darren Chetty ac Adam Ferner (2020) <https://www.tes.com/magazine/article/tips-tackling-classroom-discussions-about-race>

³¹ Black Curriculum UK <https://theblackcurriculum.com/>

³² Mae tudalen 64 o'r adroddiad hwn yn amlinellu'r rhaglenni Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â nhw.

grwpiau treftadaeth awdurdodau lleol, unigolion a sefydliadau anllywodraethol. Rydym wedi eu rhestru yn Atodiad 2. Yn ddiddorol, a heblaw am ambell eithriad, roedd y deunyddiau a gyflwynwyd yn ymwneud yn benodol ag addysgu hanes.

Yn gyffredinol, canfu'r Adolygiad fod y rhan fwyaf o adnoddau sy'n helpu i addysgu themâu Ethnig Lleiafrifol yn ymwneud â'r Dyniaethau ac Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu. Nododd y Grŵp bryder penodol am y diffyg adnoddau sydd ar gael i gefnogi gwaith o addysgu'r themâu hyn ym meysydd pwnc Lles, Mathemateg a Rhifedd a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae'n bwysig iawn sicrhau bod cyfraniadau Ethnig Lleiafrifol yn cael eu hadlewyrchu ym mhob rhan o'r cwricwlwm, nid dim ond yn y Dyniaethau a'r Celfyddydau, neu mae perygl y caiff y themâu hyn eu gwthio i'r cyrion neu eu haddysgu ar wahân.

O ran yr amrywiaeth o ddeunyddiau, roedd hefyd yn amlwg bod yr adnoddau presennol yn canolbwyntio'n anghymesur ar gaethwasiaeth, trefedigaethedd a'r Ymerodraeth. Mae angen cydbwysu hyn ag adnoddau sy'n canolbwyntio ar hanes ehangach cymunedau Ethnig Lleiafrifol yng Nghymru ac ar gyfraniadau cymunedau Ethnig Lleiafrifol mewn cymdeithas gyfoes. Fel y mae ymchwil yn Lloegr wedi ei ddangos, gall addysgu hanes pobl ddu fel hanes hiliaeth yn unig arwain at weld disgyblion Ethnig Lleiafrifol yn datblygu ymdeimlad negyddol ohonynt eu hunain.³³ Gallai hanes mudo annog pobl i weld pobl Ethnig Lleiafrifol fel estroniaid sydd wedi symud i Gymru o fannau eraill yn hytrach na rhan annatod o gymdeithas Cymru.

Roedd y Gweithgor hefyd yn pryderu am ansawdd gwael llawer o'r cyfieithiadau o adnoddau i'r Gymraeg. Mae tystiolaeth anecdotaidd a sylwadau aelodau o'r Grŵp sy'n athrawon yn awgrymu bod llawer o gyfieithiadau yn wan o bryd i'w gilydd ac wedi'u dehongli'n wael. Barn y mwyafrif oedd bod yn well gan athrawon ddefnyddio'r adnodd gwreiddiol (yn Saesneg), gan ymgymryd â gwaith dosbarth a thrafodaethau dilynol yn Gymraeg.

Ni ddilynwyd unrhyw drefn systematig neu gyson o drefnu'r adnoddau ar Hwb nac o gyfeirio'n glir at yr adnoddau posibl sydd ar gael yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Nid oedd cynnwys yn cael ei fonitro mewn ffordd systematig ychwaith er mwyn sicrhau ei ansawdd a'i berthnasedd. Canfu'r Grŵp fod porth Hwb y llywodraeth yn annealladwy ac yn anodd ei drin, ac nad oedd yr holl adnoddau wedi'u tagio mewn ffordd a fyddai'n caniatáu iddynt gael eu hadnabod yn rhwydd drwy chwilio am hanes pobl Ddu neu dermau tebyg. Fodd bynnag, efallai y gellid datrys hyn yn syml drwy wella dosbarthiad a chategoreiddiad adnoddau ar Hwb.

Gan nad oes dull systematig na chydlynol o ymdrin â'r lluo o adnoddau sydd ar gael ar Hwb ac mewn manau eraill, gall fod yn anodd iawn i athrawon drafod yr adnoddau a nodi'r rhai a fyddai o ddefnydd iddynt. Nid ymchwilwyr yw athrawon ac mae'n hysbys nad oes ganddynt lawer o amser i ddatblygu pynciau. Cydnabu'r Gweithgor yr anawsterau a wynebier gan ymarferwyr addysgu wrth ddod o hyd i adnoddau dwyieithog o ansawdd da i gefnogi addysgu themâu Ethnig Lleiafrifol ar draws y cwricwlwm.

³³ K. Traille, 'You should be proud about your history. They made me feel ashamed': teaching history hurts', *Teaching History*, 127 (2007), 31-37.

Roedd y Gweithgor hefyd yn siomedig â'r diffyg deunyddiau a gynhyrchwyd gan ysgolion ar y cyd â sefydliadau Ethnig Lleiafrifol, ar lefel leol neu genedlaethol, sy'n awgrymu bod trefniadau ymgysylltu yn wan.

Mae'r her o sicrhau bod themâu a phrofiadau Ethnig Lleiafrifol yn cael eu cynnwys ar draws y cwricwlwm yn gofyn am fwy na chreu a gwella cynnwys adnoddau addysgu a dysgu yn unig. Mae hefyd yn gofyn am hwyluso mynediad at adnoddau, newid meddylfryd ac arferion a darparu cymorth drwy enghreifftiau, awgrymiadau ac arweiniad. Bydd hefyd angen sefydlu dulliau o reoli'r ymdrech hon a sicrhau canlyniadau cynaliadwy. Nid yw athrawon bob amser wedi'u harfogi'n ddigonol i fynd i'r afael â chwestiynau gwrth-hiliaeth yn eu haddysgu a'u dyletswyddau yn yr ystafell ddosbarth a'u cyfrifoldebau bugeiliol ehangach. Mae hyn yn gofyn am hyfforddiant a newid diwylliannol. Ni ellir datrys problem nes bod y broblem yn cael ei deall a'i chydabod.

Mae adroddiad Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn nodi y derbynnir nad yw'r pwyslais gofynnol ar Gymru yn y cwricwlwm presennol wedi'i gyflawni er bod adnoddau hanes Cymru ar gael yn eang. Felly mae'r Gymdeithas yn dadlau:

This highlights that there is insufficient flow-through of existing resources to schools themselves, and thus these resources are under-utilised. Teachers require more guidance about exploring the multiple narratives of Wales and its diverse contexts, and existing resources require appropriate curation. It is vital that teachers are provided with access to a directory of available resources, so that they develop their own engagement with the WDIP [Welsh Dimension and International Perspective] aspect of the new curriculum.

Mae hyn yn awgrymu na fydd creu adnoddau newydd yn ddigon ar ei ben ei hun i hyrwyddo themâu a chyfraniadau Ethnig Lleiafrifol. Bydd angen i athrawon wybod eu bod yno a chael arweiniad ynghylch eu perthnasedd a sut i'w defnyddio o fewn eu maes pwnc arbenigol.

Mae darpariaeth addysgol o ansawdd da yn gofyn am gwricwla sy'n adlewyrchu profiadau a chyfraniadau Ethnig Lleiafrifol, ddoe a heddiw. Bydd cwricwlwm cryf yn tynnu sylw at y materion hyn ac yn mabwysiadu ffyrdd arloesol a chreadigol o ymgorffori a chynnal y pryderon hyn o fewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Mae'r adolygiad o adnoddau wedi amlygu'r diffyg dull systematig a chydlynol o ddarparu adnoddau dwyieithog o ansawdd da i helpu i integreiddio themâu a chyfraniadau Ethnig Lleiafrifol ar draws yr holl Feysydd Dysgu a Phrofiad. Mae hefyd wedi nodi bylchau sylweddol yn yr adnoddau hygyrch sydd ar gael i gefnogi rhai meysydd o'r cwricwlwm.

Astudiaeth Achos 2

Darparwr: Ysgol Gynradd Severn

Arfer effeithiol: Dod o hyd i ffyrdd newydd o ehangu profiadau'r disgyblion

Cyd-destun: Mae Ysgol Gynradd Severn yn ardal Treganna yng Nghaerdydd. Mae 407 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr, ac mae 146 o ddisgyblion meithrin ychwanegol yn mynychu'n rhan amser. Mae disgyblion yr ysgol yn dod o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys dros 50 o ieithoedd a thafodieithoedd gwahanol. Wrddw ac Arabeg yw'r mwyaf cyffredin yn eu plith. Mae llawer o ddisgyblion yr ysgol yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Dulliau gweithredu arloesol i ehangu profiadau'r disgyblion ac annog uchelgais:

- Mae prosiect 'Sand Between Our Toes' yr ysgol yn anelu at gynnig rhai o'r **gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon, creadigol ac antur** na fydd ei disgyblion o bosibl wedi cael profiad blaenorol ohonynt. Cyflawnodd yr ysgol hyn drwy gynllunio dros 40 o ymweliadau i'r disgyblion o'r dosbarth derbyn hyd at Flwyddyn 6 a thrwy wahodd amrywiaeth eang o ymwelwyr i ddod i'r ysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm.
- Mae'r ysgol yn defnyddio **lleoliadau diwydiannol** ledled Caerdydd i danio chwilfrydedd y disgyblion ac i ddatgelu talentau nad ydynt wedi'u darganfod eto o bosibl, er enghraifft, Neuadd Dewi Sant, amgueddfeydd, canolfan gelfyddydau leol a manau addoli lleol. Mae ymwelwyr fel Opera Cenedlaethol Cymru, grwpiau theatr ac adroddwyr straeon yn helpu i ysbrydoli'r disgyblion ac i godi eu dyheadau, gan eu galluogi i sylweddoli bod amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gael iddynt yn lleol ac i werthfawrogi'r cyfleoedd hynny.
- Mae **partneriaethau â llawer o sefydliadau chwaraeon** yn galluogi'r disgyblion i gael profiad o amrywiaeth eang o weithgareddau. Yn fwyaf diweddar, cynigiwyd gweithgareddau jwdo a badminton iddynt. Ar ôl i'r staff nodi'r gymhareb isel o ferched Moslemaidd oedd yn cymryd rhan mewn clybiau chwaraeon, trefnwyd clwb aml-chwaraeon i ferched a oedd yn boblogaidd iawn.
- Bu ymdrechion amlhaenog i **ysbrydoli creadigrwydd** ymhlith ei disgyblion, gyda phrosiectau yn amrywio o beirianeg i berfformiadau cerddorol. Mae gan bynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) broffil uchel yn yr ysgol, ac mae peirianwyr lleol yn gweithio gyda'r disgyblion yn ystod yr ysgol ac ar ôl ysgol.
- Wythnos '**Open Your Eyes**' flynyddol i ddisgyblion Blwyddyn 6 a Blwyddyn 5, gyda'r staff yn gwahodd gweithwyr proffesiynol o amrywiaeth eang o alwedigaethau i drafod eu gwaith a'r hyn a wnaeth eu hysbrydoli, gan sicrhau y caiff stereoteipiau eu herio.

Argymhellion ar adnoddau

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr adnoddau addysgu a dysgu Saesneg ynghylch pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sydd ar gael ar hyn o bryd a **sicrhau bod adnoddau addas ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

Argymhelliad 2: Datblygu **canllaw adnoddau cychwynol ar-lein** sy'n rhestru ac yn gwerthuso'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer cyfraniadau a phrofiadau pobl ddu,

Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ddoe a heddiw ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad. Dylai hyn gynnwys deunyddiau ar Hwb a thu hwnt. Bydd yn cyfeirio at adnoddau gan sefydliadau cenedlaethol, grwpiau addysg a ffynonellau eraill yng Nghymru a thu hwnt. Dylai'r canllaw gael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Argymhelliad 3: Cynnwys **Canllawiau i athrawon ar ddatblygu adnoddau priodol a heriol ar themâu amrywiaeth a lleiafrifoedd** ar Hwb, gydag enghreifftiau a phrosesau, ac adnoddau rhyngddisgyblaethol a fydd yn arwain at ymestyn a datblygu deunyddiau cwricwlaidd yn barhaus.

Argymhelliad 4: Datblygu **cyfres newydd o adnoddau dysgu a datblygu proffesiynol dwyieithog** sy'n edrych yn fanwl ar amrywiaeth yng Nghymru ddoe a heddiw. Dylai'r **papurau cefndir** hyn, a fyddai'n cefnogi ac yn ymestyn sail wybodaeth athrawon ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad, gynnwys: canllaw naratif ar hanes amrywiaeth yng Nghymru; canllaw naratif ar rôl Cymru yn hanes trefedigaethedd Prydain; bywgraffiadau unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol o amrywiol gefndiroedd sy'n edrych ar eu cyfraniadau i fywyd Cymru, Prydain a'r byd; ysgrifau llenyddol gan unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol; canllaw naratif ar hanes hiliaeth a gwrth-hiliaeth yng Nghymru.

Argymhelliad 5: **Dosbarthu a chategoreiddio adnoddau yn well** ar Hwb er mwyn sicrhau ei bod yn haws i ymarferwyr addysgu ac eraill chwilio a dod o hyd i adnoddau yn ymwneud â themâu pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Argymhelliad 6: Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i edrych ar greu adnoddau dwyieithog newydd ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh), gan roi sylw dyledus i Feysydd Dysgu a Phrofiad lle y nodwyd bod diffyg adnoddau sylweddol ar hyn o bryd, sef Gwyddoniaeth a Thechnoleg; Iechyd a Lles; a Mathemateg a Rhifedd. Dylai pob un o'r adnoddau newydd gynnwys **deunyddiau addysgu a dysgu hyblyg o ansawdd uchel** y gellid eu defnyddio gan athrawon fel rhan o'u cwricwlwm ar sawl cam drwy'r continwwm dysgu 3-16. Gellid cynhyrchu'r gyfres hon o adnoddau drwy broses o gyd-gynhyrchu gydag ymarferwyr.

Rhan 3: Hyfforddi'r gweithlu a datblygiad proffesiynol

Cyflwyniad

Mae ansawdd system addysg yn dibynnu ar ansawdd ei hathrawon (Cynllun Datblygu Cenedlaethol 2019-21). Mae'r hyblygrwydd yn y cwricwlwm newydd yn gosod gofynion sylweddol ar yr ymarferydd cyffredin a bydd angen cefnogi a galluogi athrawon i gyflawni uchelgeisiau'r adroddiad.

Gofynnwyd i'r Gweithgor wneud y canlynol: Adolygu ac adrodd ar ddysgu proffesiynol mewn perthynas â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, eu cyfraniadau a'u profiadau, ym mhob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad³⁴.

Mae meithrin athrawon sy'n hyddysg o ran hil a all gyflwyno addysgeg gwrth-hiliaeth sy'n ymateb i ofynion diwylliannol yn hanfodol er mwyn amrywio'r cwricwlwm. Ceir tystiolaeth sylweddol i awgrymu arwyddocâd hyfforddiant gwrth-hiliaeth ar bob lefel o'r fframwaith Dysgu Proffesiynol wrth ddatblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu themâu, hanes a chyfraniadau Ethnig Lleiafrifol. Mae adroddiad 2020 Ymddiriedolaeth Runnymede 'Race and Racism in English Schools' yn nodi bod y cwricwlwm gwrth-hiliaeth yn dibynnu ar gyflenwad o athrawon sy'n hyddysg o ran hil³⁵. Mae'r adroddiad 'Hiliaeth yng Nghymru: Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth' 2020 yn nodi bod '*canran yr addysgwyr sy'n dysgu gwrth-hiliaeth wedi cwmpo ers astudiaeth 2016 gyda diffyg amser a diffyg hyder yn cael eu nodi fel y prif heriau, gan awgrymu nad yw gwrth-hiliaeth yn cael ei hymgorffori yng nghwricwlwm yr ysgol mewn nifer o achosion*'.³⁶ Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi:

*'nid yw mwyafrif yr athrawon wedi derbyn unrhyw hyfforddiant gwrth-hiliaeth ac maen nhw'n cyfaddef bod ganddynt ddiffyg hyder wrth adnabod a rhoi gwybod am hiliaeth, yn ogystal ag wrth gefnogi'r unigolion dan sylw'*³⁷.

Mae eu hargymhellion yn cynnwys sicrhau bod pob athro yng Nghymru yn cael hyfforddiant gwrth-hiliaeth ac yn ymwybodol o sut i gael gafael ar adnoddau gwrth-hiliaeth.

Mae Adolygiad o Lenyddiaeth ac Adroddiad Camau Gweithredu dilynol Brentnall yn 2020 hefyd yn ymdrin â'r angen i wneud y canlynol:

'Improve knowledge and understanding amongst professionals so they are better equipped to meet the needs of a diverse population; shape the school curriculum, to be more inclusive of black and mixed identities and to train

³⁴ Cylch Gorchwyl <https://llyw.cymru/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiadd-lleiafrifoedd-ethnig-bame-yn-y-cylch-gorchwyl>

³⁵ Ymddiriedolaeth Runnymede 'Race and Racism in English Secondary Schools' <https://www.runnymedetrust.org/uploads/publications/pdfs/Runnymede%20Secondary%20Schools%20Report%20FINAL.pdf>

³⁶ Adroddiad Hiliaeth yng Nghymru - Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth <https://static1.squarespace.com/static/574451fe37013bd0515647ac/t/5ed6683282d130220b5020a9/1591109741222/Hiliaeth+Yng+Nghymru+-+Archwilio+Rhagfarn+Yn+Y+System+Addysg+Yng+Nghymru+%28F%29-%28W%29.pdf>

³⁷ Ibid tud.21

*workers so that they can develop ...skill and confidence to work effectively with Black and mixed ethnicity adults and young people.*³⁸

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn yn y cwricwlwm newydd, mae angen dull ehangach na dim ond creu adnoddau. Mae angen ymdrin â'r mater o fewn Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) a thrwy fframwaith Dysgu Proffesiynol i athrawon ac arweinwyr addysg. Mae gwaith ymchwil gan Ymddiriedolaeth Runnymede wedi nodi pwysigrwydd AGA wrth hyrwyddo'r broses o addysgu hanes lleiafrifoedd a'r ymerodraeth fel rhan o gwricwlwm hyblyg. Mewn arolwg a gynhaliwyd ar ran yr Ymddiriedolaeth, dywedodd 78% o'r athrawon a ymatebodd eu bod am gael hyfforddiant addysgu am fudo, a dywedodd 71% eu bod am gael hyfforddiant addysgu am yr ymerodraeth.³⁹

Mae'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn uniongyrchol gennym yn nodi bod athrawon yn awyddus i gael canllawiau, esiamplau a chyfleoedd i rannu profiadau, ond bod diffyg hyder. Nododd yr athrawon yn ein grwpiau ffocws yn aml nad oeddent yn cynllunio'n benodol ar gyfer profiadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, hyd yn oed os oedd gweithgareddau yn cynnig 'cipolwg' o faterion a themâu, fel Windrush a Bywydau Du o Bwys. Roedd yr athrawon yn cytuno mai prin yr oeddent yn ymdrin â phrofiadau/bywydau cyffredin pobl o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gan fynegi pryder pan oeddent yn gwneud hynny, y gall pobl Ddu yn aml gael eu portreadu mewn ffordd debyg/ailadroddus, fel dioddefwyr neu fel unigolion sy'n brwydro yn erbyn anghyfiawnder yn hytrach na fel rhan o norm.

Nododd yr athrawon weithiau mai dim ond 'darnau' o wybodaeth a geir o fewn adnoddau – ar feysydd bach. Gwnaethant ddadlau bod angen adnoddau ar athrawon sy'n caniatáu iddynt gyflwyno cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fel elfen 'normal' yn y cwricwlwm, er mwyn sicrhau na chaiff ei hystyried fel elfen ychwanegol neu fel elfen symbolaidd. Awgrymwyd bod angen adnoddau ar athrawon er mwyn iddynt allu ymgymryd â dysgu proffesiynol a meithrin gwybodaeth bwnc ac y dylid rhoi blaenoriaeth i hyn, yn ogystal ag adnoddau addysgu a dysgu ehangach.

Nododd pob athro ei fod bellach yn fwy ymwybodol o'r mater hwn wrth symud ymlaen, ac fel y dywedodd un ymatebydd '*ni'n hunain yw'r unig rwystl*' gan fod y cwricwlwm yn rhoi'r hyblygrwydd i athrawon fod yn ddewr a newid yr arferion sy'n bodoli eisoes.

Astudiaeth Achos 3

Darparwr: Ysgol y Preseli

Arfer effeithiol: Datblygu modiwlau hyfforddiant, grwpiau a pholisïau i hybu amrywiaeth ac i fynd i'r afael â materion

³⁸ Ibid tud.21

³⁹ Kimberley McIntosh, Jason Todd a Nandini Das, *Teaching Migration, Belonging and Empire in Secondary Schools* (Ymddiriedolaeth Runnymede, 2019).

Cyd-destun: Ysgol gyfun ddwyieithog i ddisgyblion rhwng 11 a 18 oed yw Ysgol y Preseli, wedi'i lleoli ym mhentref Crymych, Sir Benfro.

- Mae **modiwlau hyfforddiant** i bob aelod o staff yr ysgol a phob un o lywodraethwyr yr ysgol wedi galluogi'r staff i ddatblygu'r adnoddau sydd eu hangen i wella eu sgiliau a'u hyder wrth **ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â hil** yn yr ysgol.
- Mae'r ysgol wedi datblygu **grŵp 'Amrywiaeth a Chydraddoldeb'** sy'n cynnwys aelodau o'r staff a'r chweched dosbarth sy'n cyfarfod yn lled-reolaidd.
- Datblygwyd **'Polisi Troseddau Casineb'** penodol ac fe'i rhannwyd â'r disgyblion; mae llais disgyblion wedi ein galluogi i sicrhau y caiff y polisi hwn ei gyfleu'n effeithiol i bob disgybl gan ddefnyddio iaith sy'n briodol i'w hoedran.
- **Cysylltiadau ag ysgol arall** yn Dulwich, Llundain a chymerodd aelodau o'r staff ran mewn gweminar i drafod materion fel gofal iechyd, Cod Halo a Misogynoir. Rhannwyd negeseuon allweddol y weminar hon â'r staff. Rydym wedi buddsoddi mewn adnoddau sydd ar gael i'r staff a'r disgyblion eu defnyddio er mwyn iddynt allu addysgu eu hunain am y materion hyn.

Rhwystrau rhag newid

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn anelu at feithrin dealltwriaeth disgyblion o Gymru a'i hamrywiaeth. Mae'n ceisio creu dinasyddion egwyddorol a gwybodus. Fodd bynnag, mae nifer o resymau sy'n awgrymu na fydd o bosibl yn llwyddo i gyflawni'r nodau hyn i'r un graddau ac o fewn yr un terfynau amser ym mhob ysgol. Nid oes unrhyw amheuaeth y bydd llawer o ysgolion yn manteisio ar botensial a chyfeiriad y cwricwlwm newydd. Y pryder yw bod materion strwythurol a diwylliannol yn y sector addysg ac o fewn y gymdeithas ehangach a fydd yn golygu na fydd pob ysgol yn gwneud hyn, gan felly olygu na fydd pob disgybl yn cael addysg gynhwysfawr sy'n ymgysylltu â hanes a chyfraniadau amrywiol a dinasyddiaeth yng Nghymru. Mae amharodrwydd i newid a/neu ddihidrwydd yn rhwystrau hysbys ac yn deillio'n aml o anwybodaeth, ofn ac ansicrwydd.

Mae ysgolion yn gweithredu o dan amodau anodd iawn ar hyn o bryd yn ystod y pandemig, ac yn ceisio ymateb i amrywiaeth o flaenoriaethau, sy'n aml yn cystadlu â'i gilydd, o fewn cwricwlwm nad yw'n rhagnodol. Mae deall natur a graddau'r rhwystrau rhag gweithredu yn allweddol er mwyn parhau i ddatblygu'r fenter hon.

Nododd sylwadau a gyflwynwyd i'r Gweithgor nifer o ffactorau atal posibl y cyfeirir atynt hefyd o fewn tystiolaeth ymchwil ehangach yn y maes⁴⁰.

Nodir bod arferion cyfredol yn y maes hwn yn ad hoc, gyda rhai enghreifftiau ardderchog o arferion da ond i'r gwrthwyneb, esgeulustod eang neu ddull ticio

⁴⁰ Parken, A., Davies N., Minto, R. a Trenow, P. (2019) Equality Mainstreaming: Policy Development Model. Hankivsky, O., de Merich, D. a Christoffersen, A. (2019) Equalities 'devolved': experiences in mainstreaming across the UK devolved powers post-equality act 2010. *British Politics*, 14(2), tud.141-161.

blychau a gwneud cyn lleied â phosibl mewn perthynas â chydaddoldeb. Roedd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw o blaid cynnwys dysgu sy'n ymwneud â grwpiau lleiafrifol amrywiol mewn ffordd systematig, ac yn awyddus i ymdrin â hyn heb ei wthio i mewn neu ei gynnwys fel elfen 'ychwanegol'. At hynny, gwnaethant ddadlau bod angen cynnwys pob MDPH, yn hytrach na'i adael, fel y gwneir yn rhy aml, i'r Dyniaethau a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn maes y Dyniaethau. Ailbwysleisiwyd y datganiad bod angen i gydraddoldeb a chynwysoldeb fynd y tu hwnt i fyfyrwyr, i staff ac ethos yr ysgol yn gyffredinol, yn rheolaidd, felly hefyd yr angen am fwy o amrywiaeth yn y gweithlu addysg. Gwnaethant nodi bod angen dull ysgol gyfan, wedi'i ategu gan arweinyddiaeth gadarn yn hytrach na dibynnu ar ymrwymiad athrawon unigol yn unig.

Gellir crynhoi'r rhwystrau allweddol sy'n wynebu ymarferwyr addysgu fel **Amser, Adnoddau, Cymhwysedd, Gwybodaeth a Hyder**.

Mae ein gwaith ymchwil, gan gynnwys y grwpiau ffocws a gynhaliwyd ag athrawon, yn dangos nad oes lefelau hyder eang na chyson ymhlith athrawon yn y maes hwn. Mae'r proffesiwn yn gadarn o blaid cyfleoedd dysgu proffesiynol ychwanegol. Nododd rhai athrawon fod lefelau profiad, arbenigeddau athrawon a phrofiad blaenorol oll yn effeithio ar hyder athrawon. Nododd llawer o'r rheini yr ymgynghorwyd â nhw nad oedd cyfleoedd i ymarferwyr drafod datblygiad safbwyntiau lleiafrifol a gwrth-hiliaeth ac nad oeddent yn siŵr sut i fynd ati a'u bod yn ofni dweud/gwneud y peth anghywir. Cydnabuwyd bod dryswch ynghylch terminoleg briodol yn bwynt a oedd yn achosi amharoddrwydd i ymgysylltu ac ystyriwyd bod diffyg mynediad i adnoddau cadarn yn rhwystr sylweddol o ran rhoi'r agenda hon ar waith.

Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ehangach na fydd cwricwlwm awtonomaidd nad yw'n rhagnodol yn esgor ar y canlyniadau dymunol.

Mae'r cwricwlwm presennol eisoes yn hyblyg iawn ac yn cynnwys cyfleoedd i addysgu hanes mudo a lleiafrifoedd. Mae hyn yn awgrymu nad y cwricwlwm yn unig yw'r broblem ar hyn o bryd. Mae polisiâu sy'n gwrthod unrhyw newid yn aml yn arwain at ddiffyg newid. Er enghraifft, mae astudiaethau wedi canfod tebygrwyddau cadarn rhwng cwricwla hanes mewn ysgolion yn Lloegr a'r Alban ac mewn mannau eraill, er gwaethaf y rhyddid a gynigir gan y cwricwlwm cenedlaethol yno. Felly, mae posibilrwydd cryf y bydd rhai ysgolion ac athrawon yn addasu'r rhaglenni sydd eisoes ar waith yn llwyddiannus ganddynt i'r cwricwlwm newydd, yn hytrach na cheisio bodloni'r galw am fwy o gynnwys am Gymru a chynnwys mwy amrywiol.

Nododd gwaith ymchwil gan y Gymdeithas Hanesyddol yn 2007 hefyd fod athrawon o bosibl yn amharod i fynd i'r afael â phynciau hanesyddol anodd fel hil. Dadleuodd:

'The tendency of teachers to avoid emotive and controversial history for a variety of reasons. Some of which are well-intentioned, such as feeling that certain issues are inappropriate for particular age groups, or that they lack the maturity to grasp them, or a wish to avoid causing offence or insensitivity, or that they are best taught elsewhere in the curriculum, such as in citizenship or religious education ... In some schools, teachers also respond to the students'

wishes to avoid history being complicated and problematical. This clearly affects the teaching of emotive and controversial history'.⁴¹

Yn yr un modd, canfu gwaith ymchwil arall fod rhai athrawon yn osgoi addysgu pynciau dadleuol, a bod eraill yn eu haddysgu, ond nad ydynt yn ymdrin ag achosion y dadleuon.⁴² Felly, mae'n bosibl y bydd athrawon yng Nghymru yn penderfynu ei bod hi'n haws peidio â mabwysiadu cwricwla sy'n ymdrin â materion heriol ac emosïynol fel hiliaeth neu'r gydberthynas rhwng Cymru a Lloegr. Nid oes gan bob athro yr un lefel o hyder neu arbenigedd. Canfu astudiaeth yn Lloegr y gallai fod gan arweinwyr pwnc mwy profiadol weledigaethau, nodau a blaenoriaethau mwy datblygedig, ond bod y rheini â llai o brofiad yn canolbwyntio ar sefydlu eu cymhwysedd fel ymarferwyr ystafell ddosbarth.⁴³ Felly, gall profiad athrawon ddylanwadu ar ba mor uchelgeisiol a radical fydd eu cwricwla. Mae'n bosibl y bydd ysgolion â staff mwy sefydledig yn datblygu rhaglenni astudio mwy uchelgeisiol. Mae'r gwaith ymchwil yn awgrymu y bydd ysgolion o'r fath mewn amgylcheddau mwy llewyrchus a llai heriol gan fod cyfraddau ymadael uchel ymhlith athrawon a bod gwaith ymchwil wedi nodi cysylltiad rhwng trosiant staff a lefelau anfantais ysgolion. Yn gyffredinol, mae ysgolion sy'n wynebu mwy o anfantais yn fwy tebygol o gyflogi athrawon llai profiadol.⁴⁴ Wrth gwrs, ni ellir bob amser fesur profiad athrawon yn y fath fodd. Cafodd y cwricwlwm newydd yng Nghymru ei gyd-awduro gan benaethiaid neu athrawon mwy profiadol, a hwythau hefyd sy'n arwain y broses o gynllunio'r cwricwlwm. Gellid dadlau bod yr ysgolion sy'n cyflogi athrawon sy'n newydd i'r proffesiwn yn manteisio ar egni newydd, ffyrdd newydd o feddwl ac arbenigeddau newydd mewn meysydd pwnc, gan awgrymu felly bod ysgolion mewn ardaloedd dan anfantais yn arbennig o greadigol wrth ddatblygu eu cwricwlwm er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysol ac yn uchelgeisiol.

Nid dim ond y cwricwlwm sy'n tywys blaenoriaethau a dyheadau athrawon ac ysgolion. Mae angen i athrawon hefyd ystyried bod pwnc yn bwysig. Nododd adroddiad ar ran Llywodraeth Cymru yn 2013 a ystyriodd pam na chaiff hanes Cymru ei addysgu fwy bwysigrwydd sicrhau bod athrawon a disgyblion yn teimlo bod pwnc yn bwysig a'i fod o ddiddordeb iddynt.⁴⁵ Mae ymgysylltu â disgyblion yn bwysig iawn gan fod pynciau yn cystadlu â'i gilydd er mwyn denu disgyblion ar ôl CA3. Mae o fudd i athrawon sicrhau bod eu pynciau yn boblogaidd gan y bydd hynny'n helpu i gefnogi nifer y swyddi yn y pwnc hwnnw a sicrwydd y swyddi hynny.

Mae sylwadau a gyflwynwyd i'r Gweithgor yn awgrymu bod athrawon yn dueddol o ddewis pynciau penodol yn seiliedig ar eu harbenigedd eu hunain, arbenigedd athrawon eraill yn yr adran a'r adnoddau sydd ar gael a bod manylebau arholiadau yn aml yn llywio'r cynnwys ym mlynnyddoedd 10 ac 11 ac i ryw raddau, ym mlwyddyn 9. Cafwyd adroddiadau hefyd yn awgrymu ffocws o'r newydd ar hanes pobl Ddu

⁴¹ Y Gymdeithas Hanesyddol (2007). *A Report from The Historical Association on the Challenges and Opportunities for Teaching Emotive and Controversial History* 3-19.

⁴² Harris, R. (2012) "Purpose" as a way of helping white trainee history teachers engage with diversity issues, *Education Sciences* 2(4): 218-241.

⁴³ Hawkey, K, Prior, J (2011) History, memory cultures and meaning in the classroom. *Journal of Curriculum Studies* 43(2): 231-247, : 236

⁴⁴ Rebecca Allen, Simon Burgess a Jennifer Mayo, The teacher labour market, teacher turnover and disadvantaged schools: new evidence for England (2012). <https://www.bristol.ac.uk/media-library/sites/cmpo/migrated/documents/wp294.pdf>

⁴⁵ Y Cwricwlwm Cymreig, Hanes a Stori Cymru: Adroddiad terfynol (2013)

mewn rhai ysgolion, enghreifftiau o athrawon yn ehangu eu gwaith ymchwil a mentrau newydd mewn eraill i wella cynwysoldeb ac amrywiaeth y cwricwlwm.

Astudiaeth Achos 4

Darparwr: Ysgol Uwchradd Bassaleg

Arfer effeithiol: Defnyddio rhaglenni'r ysgol i gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth

Cyd-destun: Ysgol gymysg i ddisgyblion rhwng 11 ac 19 oed yng ngogledd-ddwyrain Casnewydd yw Ysgol Bassaleg. Ar hyn o bryd, mae 1,749 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae 405 ohonynt yn y chweched dosbarth.

- **Rhaglen diwtora ar sail llesiant**, wedi'i chydgynhyrchu gan y disgyblion a'r staff ac yn seiliedig ar ymchwil weithredu gyfredol. Mae'n ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, addysg cydberthynas a rhywioldeb a meithrin gwydnwch. Caiff cysyniadau diwylliannol mewn perthynas â'r themâu hyn eu hystyried.
- Mae ymdrechion yr ysgol i ailwampio ac ailfrandio'r **Rhaglen 'Crefydd, Moeseg ac Athroniaeth' a wellwyd yn ddiweddar**, y cyfeiriwyd ati fel Astudiaethau Crefyddol yn flaenorol, wedi bod yn ffactor cyfrannol pwysig wrth alluogi'r disgyblion i ystyried gwerthoedd a chredoau ysbrydol, diwylliannol a moesol a'u deall yn well.
- Darpariaeth arfaethedig i **godi ymwybyddiaeth o'r gymuned LGBT**. Mae pob disgybl yn croesawu amrywiaeth LGBT a sefydlwyd grŵp *Queer and Straight Alliance (QSA)* gan ddangos parch y bobl ifanc tuag at hybu hawliau unigol.
- Mae'r rhaglen '**Giving Back to Bassaleg**' ar gyfer y chweched dosbarth yn dangos i'r disgyblion gymaint y mae'r ysgol yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cyfrannu at y gymuned ehangach.
- Caiff **cyfranogiad disgyblion sy'n agored i niwed a disgyblion â nodweddion gwarchoddedig** mewn gweithgareddau cymunedol a grwpiau disgyblion ei olrhain yn ofalus. Mae grwpiau disgyblion yn adlewyrchu poblogaeth gyffredinol yr ysgol; agwedd sy'n dangos hefyd sut mae tegwch yn llywio'r gymuned.

Mae'n amlwg bod disgyblion yn ymateb i hanes pan fyddant yn teimlo ei fod yn berthnasol i'w bywydau. Yn y rhannau o Gymru lle ceir lefelau isel o amrywiaeth ethnig, mae'n bosibl bod athrawon yn ceisio sicrhau bod eu pynciau yn apelio fwy i fyfyrwyr drwy wthio hanes pobl Ddu a safbwyntiau Ethnig Lleiafrifol i'r cyrion. Yn wir, gwnaed gwaith ymchwil yn Lloegr sy'n cefnogi'r farn nad yw athrawon mewn ardaloedd â phoblogaeth Wyn yn bennaf yn ymgysylltu'n eang â hanes pobl Ddu. Canfu gwaith ymchwil ag arweinwyr pwnc yn Swydd Northampton fod 80% yn nodi nad oedd ganddynt lawer o wybodaeth am hanes pobl Ddu, os o gwbl, a bod 74% yn nodi mai anaml yr oeddent yn addysgu hanes pobl Ddu neu nad oeddent byth yn

gwneud hynny. ⁴⁶ Fwy na thebyg fod hyn i ryw raddau am eu bod yn teimlo nad yw hanes pobl Ddu mor berthnasol i ddisgyblion mewn ardaloedd o'r fath, er y gwerthfawrogi hefyd mai profiad cyfyngedig disgyblion o amrywiaeth yw'r union reswm pam bod angen iddynt ddysgu am y pwnc. ⁴⁷ Nid yw'r pryderon hyn yn ymwneud â'r cwricwlwm hanes yn unig ac maent yn awgrymu'r heriau sy'n wynebu pob MDPH.

Nododd ein hadolygiad fod amlygrwydd yn ffactor mewn perthynas â'r pryderon hyn mewn ardaloedd yng Nghymru lle nad oes gan unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol bresenoldeb amlwg ym mhrofiad yr ysgol. Roedd y Gweithgor yn awyddus iawn i glywed am y math hwn o brofiad addysgu.

Gellid ystyried bod yr heriau a wynebir gan bob ysgol lle nad oes llawer o leiafrifoedd ethnig i'w gweld wrth ymdrin â'r materion hyn yn sylweddol, ond bod modd ymateb i'r heriau hynny. Nododd yr ymatebwyr fod yr heriau hyn yn cynnwys diffyg arweinyddwr cymunedol, diffyg mentoriaid o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a diffyg dealltwriaeth o ran sut i ymdrin â'r materion hyn, yn arbennig yr iaith briodol y dylid ei defnyddio. Gwnaethant sôn ei bod hi'n anodd nodi arweinyddwr cymunedol neu fentoriaid o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i gymryd rhan mewn prosiectau gydag ysgolion. Awgrymwyd bod hyn yn cyfleu diffyg modelau rôl cadarnhaol i fyfyrwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Roedd yr heriau ychwanegol sy'n wynebu ysgolion Cymraeg yn arbennig yn cynnwys diffyg adnoddau Cymraeg o ansawdd da, fel y trafodir yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, nodwyd bod cyfleoedd clir a niferus hefyd i'r ysgolion Cymraeg hynny neu ysgolion â niferoedd isel o ddisgyblion ethnig lleiafrifol⁴⁸. Mae cyfraniadau pobl Ethnig Lleiafrifol at hanes a datblygiad Cymru yn rhan annatod o hanes Cymru ac yn berthnasol i bawb, ni waeth beth yw cyfansoddiad y gymuned leol.

Mae'n amlwg bod athrawon ledled Cymru am gael mwy o gymorth ond eu bod hefyd, a hynny'n hollbwysig, am gael mwy o amser i feithrin eu sgiliau a'u gwybodaeth. Canfu gwaith ymchwil yn Lloegr fod y mwyafrif helaeth o athrawon hanes o'r farn bod angen iddynt ddatblygu eu gwybodaeth bwnc, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gorfod gwneud hynny yn ystod eu hamser eu hunain.⁴⁹

Mae profiad gwledydd eraill â chwricwla wedi'u llywio gan brosesau neu ddibenion hefyd yn awgrymu na fydd newidiadau yng Nghymru o bosibl yn cyflawni eu potensial. Ar ôl cyflwyno'r 'Curriculum for Excellence' yn yr Alban yn 2004, canfu astudiaeth o 21 o ysgolion yn 2019 'The result in many cases is an extremely narrow and fragmented syllabus in which pupil preference, teacher interests and the

⁴⁶ Siblon, J. 2005. Black Is also British: An Investigation into the Needs and Opportunities for Developing Black History Within the School Curriculum in Northamptonshire: A Report Commissioned by Northamptonshire Black History Project and University College Northampton. Northampton: Black History Project a Choleg Prifysgol Northampton. [http:// www.northant-black-history.org.uk](http://www.northant-black-history.org.uk)

⁴⁷ Paul Bracey (2016) 'Shaping the Future', Black History and diversity: teacher perceptions and implications for curriculum development, Education 3-13, 44:1, 101-112

⁴⁸ Gaine, C. (2005) *We're all white, thanks: the persisting myth about 'white' schools*. Gwasg yr Athrofa Addysg.

⁴⁹ Katharine Burn (Llundain: Gwasg UCL, 2021) The power of knowledge: The impact on history teachers of sustained subject-rich professional development yn Arthur Chapman (gol), Knowing History in Schools: Powerful Knowledge and the Powers of Knowledge tud. 131

logistics of timetabling guide content selection.⁵⁰ Mae arolygwyr wedi nodi sut y caiff rhai pynciau o bosibl eu hailadrodd ar lefelau uwchradd a chynradd gan nad oes trosolwg o brofiadau cyfan disgyblion o'r ddisgyblaeth. Mae hyn yn debyg i un o nodweddion y cwricwlwm yn Lloegr lle, er gwaethaf y rhyddid a roddir i ysgolion ddewis pynciau, ceir rhyw fath o ganon answyddogol sy'n llywio dewisiadau athrawon, fel y gwelir gan y dystiolaeth ym maes addysgu hanes.⁵¹

Mae gan Seland Newydd hefyd gwricwlwm sy'n rhoi annibyniaeth i ysgolion ddewis cynnwys. Fodd bynnag, canfu astudiaethau yno nad yw hyn wedi arwain at addysgu mwy am hanes cenedlaethol nac at addysgu mwy am rôl trefedigaethedd o fewn yr hanes hwnnw ym mhob ysgol. Fel y dadleuodd Mark Sheehan "Schools are self-managing (and have considerable autonomy over what is taught) and a teacher's curriculum approaches to controversial historical questions will reflect the values, attitudes and collective memories of parents, students and colleagues in their school community". Felly, mae Sheehan yn dadlau bod y cwricwlwm yn Seland Newydd yn cynnig "limited teacher agency under the guise of teacher choice".⁵² Yn sgil hyn, gall rhagfarnau a phryderon sy'n bodoli eisoes arwain at benderfyniadau i beidio ag addysgu pynciau sy'n eu herio, ac o ganlyniad, mae'r cwricwlwm yn dyblygu normau yn hytrach na'u herio. O ganlyniad, yn 2020, cyhoeddodd llywodraeth Seland Newydd benderfyniad i symud tuag at gynnwys mwy rhagnodol.

Gall dull blychau ticio neu mewn enw yn unig o ystyried hanes lleiafrifol fod yr un mor ddinistriol â pheidio ag ymdrin â phwnc o gwbl. Pan fo hanes pobl Ddu yn canolbwyntio ar gaethwasiaeth yn unig, gall hyrwyddo syniadau o bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fel dioddefwyr di-rym. Mae gwaith ymchwil wedi nodi y gall hyn hyd yn oed greu ymdeimlad o gywilydd ymhlith disgyblion Du.⁵³ Mae myfyrwyr o gefndiroedd lleiafrifol am weld hanes sy'n berthnasol iddyn nhw a'u bywydau ac maent am i'w hanes gael ei addysgu fel rhan o hanes Cymru / Prydain yn hytrach nag ar wahân.⁵⁴

Er enghraifft, wrth gyfwrdd â disgyblion o gefndiroedd lleiafrifol mewn ysgol yng Nghaerdydd am eu profiadau o ddysgu am hanes mudo, nodwyd eu bod yn gallu uniaethu â'r hanes hwnnw. Daeth hanes yn fyw iddynt a gallent ei drafod â'u teuluoedd a gwerthfawrogi amrywiaeth eu dinas.⁵⁵

⁵⁰ Joseph Smith (2019) Curriculum coherence and teachers' decision-making in Scottish high school history syllabi, *Curriculum Journal*, 30, 4 441-63

⁵¹ Richard Harris a Rosemary Reynolds (2018) Exploring teachers' curriculum decision making: insights from history education, *Oxford Review of Education*, 44:2, 139-155

⁵² Mark Sheehan (Llundain: Gwasg UCL, 2021) 'Ka Mura, Ka Muri [Look to the past to inform the future]: Disciplinary history, cultural responsiveness and Māori perspectives of the past', yn Arthur Chapman (gol), *Knowing History in Schools: Powerful Knowledge and the Powers of Knowledge*, tud. 211.

⁵³ Traill, K. (2007) 'You should be proud about your history. They made me feel ashamed': Teaching history hurts, *Teaching History*, 127, 31–37.

⁵⁴ Harris, R. a Reynolds, R. (2014) The history curriculum and its personal connection to students from Minority Ethnic backgrounds. *Journal of Curriculum Studies*, 46(4):464–486. Traill, E.K.A. (2006) School history and perspectives on the past: a study of students of African-Caribbean descent and their mothers. Traethawd ymchwil Phd Prifysgol Llundain

⁵⁵ Claire Alexander a Debbie Weekes-Bernard (2017) History lessons: inequality, diversity and the national curriculum, *Race Ethnicity and Education*, 20:4, 478-494, tud. 486

Felly, mae materion diwylliannol ac ymarferol ehangach a allai arwain at benderfyniadau gan ysgolion i beidio â datblygu cwricwla newydd sy'n rhoi mwy o sylw i Gymru a materion amrywiaeth. Nid oes unrhyw un o'r materion hyn yn holdreiddiol ac mae enghreifftiau o ysgolion sydd eisoes yn mynd i'r afael â hanes Cymru, hanes lleiafrifol a phynciau dadleuol mewn ffordd frwdfrydig a hyderus. Ond mewn ysgolion eraill, ymdrinnir â'r pynciau hyn mewn ffordd fwy arwynebol, gan anelu at fodloni gofynion llac y cwricwlwm yn unig. Felly, nid yw newid y cwricwlwm yn unig yn debygol o arwain at newid cyffredinol.

Llais disgyblion

Cynhaliwyd grŵp ffocws â phobl ifanc o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol o amrywiol oedrannau ar 15 Hydref, a drefnwyd gan un o aelodau'r Grŵp ac a gynhaliwyd gan y Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuencid⁵⁶. Rhannodd y bobl ifanc wybodaeth agored a gonest am eu profiadau ac, mewn rhai achosion, yr effaith a gafodd y profiadau hynny yn ddiweddarach yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac ar ôl gadael yr ysgol. Roedd y themâu allweddol yn cynnwys diffyg modelau rôl Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r broses addysgu, teimlad bod elfennau o hanes Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu haddysgu fel ymarfer 'blychau ticio' ac nad oedd eu hathrawon bob amser yn eu deall, ac ymdeimlad cyffredinol nad oedd pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu cynrychioli'n gyffredinol mewn ysgolion ac wrth addysgu. Mewn rhai sefyllfaoedd, roedd hyn wedi arwain at brofiad negyddol yn yr ysgol ac mewn eraill, ni chydabuwyd ei bod yn broblem. Gall dim ond cael eich addysgu am ddigwyddiadau negyddol mewn hanes arwain at greu ymdeimlad negyddol ohonynt eu hunain ymhlith dysgwyr.

Rhannwyd y canfyddiadau o sesiwn pennu gweledigaeth ar gyfer y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a gynhaliwyd â dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol hefyd â'r grŵp, ac unwaith eto, tynnwyd sylw at y ffaith y byddai pobl ifanc yn hoffi gweld cynrychiolaeth ethnig fwy amrywiol ymhlith eu staff addysgu.

Mae canlyniadau'r grŵp ffocws yn cyfeirio at natur ymylol y themâu hyn yn y cwricwlwm presennol ac at effaith y diffyg hwn ar bob dysgwr. Bydd addysgu pob person ifanc am yr hanes a'r diwylliannau amrywiol yn cael effaith gadarnhaol ar bawb, nid dim ond disgyblion Ethnig Lleiafrifol. Bydd yn helpu i ddileu hiliaeth ac anwybodaeth ac yn addysgu pawb am amrywiaeth gyfoethog Cymru gan greu cenhedlaeth wybodus a fydd yn dangos mwy o barch yn y dyfodol.

Mae lleisiau'r plant a'r bobl ifanc a ymatebodd i'n hymgyngoriad yn gydnaws â gwaith ymchwil ehangach a wnaed gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a nifer o brosiectau penodol a gynhaliwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant.⁵⁷ Canfu adroddiad diweddar a oedd yn berthnasol i'r DU gyfan *Diversity and children and young people's reading in 2020*⁵⁸ a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth

⁵⁶ Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuencid Cymru <http://eyst.org.uk/>

⁵⁷ Comisiynydd Plant Cymru – Adnodd Taclo Islamoffobia
<https://www.complantcymru.org.uk/cyhoeddiadau/adnodd-taclo-islamoffobia/>

⁵⁸ Yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol (2020) *Diversity and children and young people's reading in 2020* <https://literacytrust.org.uk/research-services/research-reports/diversity-and-children-and-young-peoples-reading-in-2020/>

Llythrennedd Genedlaethol fod 'More children and young people from ethnic minority backgrounds than White backgrounds say that they don't see themselves in what they read (40% vs. 30.5%). This is particularly true for children and young people from Black ethnic backgrounds. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r angen i gynnal ymchwiliad eang i'r deunyddiau a ddefnyddir mewn ysgolion a thu hwnt.

Astudiaeth Achos 5

Darparwr: Ysgol Gynradd Clytha

Arfer effeithiol: Dathlu amrywiaeth er mwyn cefnogi disgyblion hyddysg, cyfrifol a goddefgar (llais disgyblion a datblygu rhwydweithiau)

Cyd-destun: Mae 240 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed yn yr ysgol. Mae wedi datblygu thema 'amrywiaeth' o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6. Caiff un o'r naw nodwedd warchoddedig ei neilltuo i bob dosbarth a gofynnir i'r disgyblion ddatblygu cyfleoedd dysgu cefnogol.

Mae Ysgol Gynradd Clytha yn cynnig **mynediad cyfartal i'r cwricwlwm i bob disgybl**. Anogir y disgyblion i wneud penderfyniadau, i fod yn ymholgar ac i feddwl yn annibynnol, ac i ddatblygu fel dinasyddion egwyddorol a gwybodus.

- Mae'r ysgol wedi **datblygu cysylltiadau** â Stonewall Cymru, Paralympiaid, sefydliadau anabledd a Cymru dros Heddwch.
- Mae'r ysgol yn defnyddio **ymwelwyr o'r gymuned a thu hwnt** i ymgysylltu â disgyblion wrth iddynt fyfyrio ar eu gwerthoedd.
- Mae'r ysgol yn mynd ati'n gyson i **herio stereoteipiau yn agweddau, dewisiadau, disgwyliadau a chyflawniadau'r disgyblion**. Aeth pob grŵp blwyddyn ati i lunio cynllun gyda'r disgyblion er mwyn dysgu am wahanol fath o amrywiaeth, er enghraifft 'ffydd' ym Mlwyddyn 5, gwahanol deuluoedd a rhieni o'r un rhyw ym Mlwyddyn 3, stereoteipio ar sail rhywedd ym Mlwyddyn 4, anableddau corfforol yn y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 a rhywioldeb a ffydd mewn perthynas â heddwch byd-eang ym Mlwyddyn 6.

Amrywiaeth yn y gweithlu addysg

Mae ein hadolygiad o'r dystiolaeth a'n hymgyngoriadau â rhanddeiliaid wedi nodi pwysigrwydd proffil ethnigrwydd amrywiol yn y gweithlu addysg yng Nghymru. Ailbwysleisiwyd buddiannau gweithlu addysg amrywiol mewn nifer o astudiaethau ymchwil a gynhaliwyd yng Nghymru⁵⁹⁶⁰. Nododd sylwadau a gyflwynwyd i'r Gweithgor fod hyn yn bwysig o ran ymdeimlad o berthyn, dyheadau a chyflawniad

⁵⁹ Ibid tud.32

⁶⁰ Adroddiad Adolygiad Tystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (Jason Arday 2020) Improving Race Equality in Education. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ym mis Mawrth 2021

disgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ond ei fod hefyd yn bwysig ac o fudd i ddysgwyr drwy'r boblogaeth ysgol gyfan.

Dylid sôn yn benodol hefyd am safbwyntiau athrawon o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Yn y grwpiau ffocws a gynhaliwyd â'r athrawon hyn, clywyd amrywiaeth helaeth o adborth a syniadau gonest ac agored. Mae athrawon o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol â phrofiad bywyd yn nodi'n gwbl glir bod y ffyrdd presennol o weithio yn parhau i atgyfnerthu achosion o wahaniaethu ac nad ydynt yn gydnaws ag egwyddorion cynhwysiant, cydraddoldeb na safonau proffesiynol.

Dadleuodd yr ymatebwyr fod angen sicrhau y caiff hawliau diwylliannol ac anghenion creadigol pob unigolyn a chymuned (plant ac oedolion) ledled Cymru eu cydnabod yn benodol. Fel athrawon a dysgwyr, byddent yn hoffi gweld cynrychiolaeth ethnig fwy amrywiol ymhlith eu staff addysgu. Dadleuwyd bod angen i ddulliau gweithredu newidiol yn y cwricwlwm ddigwydd ar y cyd â newid graddol strategol wrth drawsnewid amrywiaeth ein gweithlu i gynnwys mwy o athrawon ac arweinwyr yn y sector addysg o gefndiroedd amrywiol.

Roedd y gweithwyr addysgu proffesiynol hyn yn awgrymu nad dyma'r adeg i gynnal 'sgyrsiau' ond mai dyma'r adeg i weithredu, ac roeddent am fod yn rhanddeiliaid allweddol wrth arwain y broses o ddiwygio dysgu proffesiynol a'r cwricwlwm, gan rannu eu gwybodaeth, eu diwylliant a'u profiad bywyd, ond y tu hwnt i hyn, roeddent am i bob athro gymryd cyfrifoldeb am sylweddoli bod angen newid trefniadau dysgu ac addysgu.

Nododd trafodaethau'r grwpiau ffocws nifer o faterion hollbwysig yr oedd yn bwysig eu hystyried, yn eu barn nhw, wrth roi'r ymrwymiad ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen am hyfforddiant gwrth-hiliaeth fel rhan o ddysgu proffesiynol, mwy o adnoddau hygyrch i hwyluso ymdrechion i gydgyhyrchu'r cwricwlwm mewn modd cydweithredol a diwygiadau i'r Safonau Proffesiynol er mwyn ymdrin yn benodol â gwrth-hiliaeth. O ran y cymorth a oedd ar gael iddyn nhw eu hunain, awgrymodd athrawon Ethnig Leiafrifol y byddai cynlluniau mentora a chymorth drwy rwydwaith cenedlaethol o fudd.

Ochr yn ochr â gwaith y Gweithgor Gweinidogol, roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Cyngor y Gweithlu Addysg i gynnal adolygiad cyflym o dystiolaeth sy'n ymwneud ag amrywiaeth ethnig y gweithlu ysgolion yng Nghymru a'r graddau y mae athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu a gyflogir yma yn cynrychioli'r rheini y maent yn eu haddysgu.

Mae'r prosiect a gomisiynwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg yn cynnwys tri cham. Darparodd cam un drosolwg meintiol o'r data ethnigrydd a oedd ar gael a defnyddiodd y Gweithgor y data hynny i greu Crynodeb o'r Ffeithiau Allweddol⁶¹. Yn ystod 'cam dau' o ffrwd waith ehangach a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, cyhoeddwyd adroddiad gan yr Athro David Egan o Brifysgol Metropolitan Caerdydd, a ddarparodd adolygiad o dystiolaeth ymchwil ynghylch recriwtio ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i faes AGA, cyfraddau cadw a chynnydd athrawon Ethnig

⁶¹ Ffeithlun Ffeithiau Allweddol: Amrywiaeth Ethnig mewn Ysgolion
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-12/amrywiaeth-ethnig-mewn-ysgolion.pdf>

Lleiafrifol yn y proffesiwn ac effaith bosibl cael gweithlu mwy amrywiol ar gyrhaeddiad disgyblion Ethnig Lleiafrifol.⁶²

Mae'r adroddiad cam 2 yn cynnig dadansoddiad pellach o'r darlun presennol yng Nghymru, gan ystyried a oes unrhyw wybodaeth neu waith ymchwil arall eisoes yn bodoli ar gynrychiolaeth Lleiafrifoedd Ethnig mewn ysgolion yng Nghymru ac a oes unrhyw fentrau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd yn y maes hwn (naill ai ar lefel awdurdodau lleol, ar lefel consortia neu ar lefel genedlaethol). Caiff tystiolaeth a mentrau o rannau eriall o'r DU a'r gwersi perthnasol yn deillio ohonynt hefyd eu hystyried. Caiff enghreifftiau hefyd eu cyflwyno o broffesiynau a sefydliadau eraill, sydd wedi ceisio amrywio eu gweithluoedd, gan nodi arferion gorau y gellid o bosibl eu rhoi ar waith yng Nghymru er mwyn helpu i ddatblygu gweithlu ysgolion sy'n fwy cynrychioliadol ac yn fwy amrywiol o ran ethnigrwydd. Ar ddiwedd y cam hwn, cyflwynwyd 42 o argymhellion ar gyfer gwella amrywiaeth yn y gweithlu addysg yng Nghymru, gan ymdrin ag amrywiaeth o fesurau a chamau gweithredu. Yn ystod y trydydd cam, bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn darparu data ansoddol i wella'r proffil cyfredol.

Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg yn ategu'r diffyg cynrychiolaeth o Leiafrifoedd Ethnig ar bob lefel o'r gweithlu addysgu a thros amser. Mae'r Gweithgor wedi adolygu'r argymhellion a wnaed gan Gyngor y Gweithlu Addysg ac yn eu cymeradwyo'n llawn, gan bwysleisio pwysigrwydd bwrw ati o'r newydd i ragweld ac adnewyddu'r llwybrau traddodiadol i mewn i addysgu er mwyn sicrhau trywydd a strategaethau blaengar a fydd yn ein galluogi i gadw a datblygu athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y gweithlu yng Nghymru. Roedd y Gweithgor yn awyddus iawn i weld Bwrsariau yn cael eu cyflwyno i athrawon o gefndiroedd lleiafrifol, yn debyg i'r rhai a gynigir i'r rheini sy'n hyfforddi ar gyfer pynciau â blaenoriaeth. Mae bwrsariau o'r fath yn fwy tebygol o gael effaith uniongyrchol ac o ddechrau'r broses o drawsnewid y gweithlu yng Nghymru.

Astudiaeth Achos 6

Darparwr: Cyngor Dinas Casnewydd

Arfer effeithiol: Cefnogi anghenion disgyblion SIY o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Cyd-destun: Gwasanaeth rhanbarthol a ddarperir gan Gyngor Dinas Casnewydd yw Gwasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GEMS) ac mae'n rhoi cymorth i ddisgyblion ethnig lleiafrifol, gan gynnwys disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, sy'n siarad Saesneg fel iaith Ychwanegol (SIY).


- **Mae staff GEMS yn cydweithio'n uniongyrchol â'r ysgol ac yn gweithio gyda disgyblion yn yr ystafell ddosbarth ochr yn ochr â'r athrawon.** Rhoddir cymorth iaith wedi'i deilwra er mwyn helpu disgyblion i ddarllen ac ysgrifennu, ac maent hefyd yn cydgysylltu â theuluoedd. Wedyn, caiff pecynnau

⁶² Disgwylir i adroddiad Cyngor y Gweithlu Addysg *Ethnic Minority Representation within the School Workforce in Wales Phase 2 report* gael ei gyhoeddi yn ystod 2021

cymorth penodol eu creu i'r ysgolion ac i ddysgwyr unigol, fel y bo'n briodol. Mae staff GEMS yn gweithio gyda'r disgyblion yn y dosbarth ac mewn sesiynau neilltuedig â ffocws penodol.

- Rhoddir **cymorth iaith gartref** i ddisgyblion sydd am ennill cymhwyster yn eu mamiaith. I ddisgyblion sy'n ymuno â Chyfnod Allweddol 4 yn hwyr, mae'n bosibl mai dyma'r unig gymhwyster y byddant yn ei ennill cyn gadael yr ysgol a gall fod yn hanfodol o ran y pwyntiau sydd eu hangen arnynt i ymgymryd ag addysg bellach.
- **Mae GEMS yn recriwtio staff o amrywiaeth eang o gefndiroedd** gan gynnwys aelodau o'r gymuned Roma. Mae hyn wedi **atgyfnerthu trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a chydberthnasau â rhieni a gofalwyr**. Gall ysgolion ddefnyddio'r gwasanaeth i helpu rhieni yn ystod nosweithiau rhieni, cyfarfodydd presenoldeb ac wrth drafod materion sy'n ymwneud ag ymddygiad. Mae cydgysylltydd ceiswyr lloches GEMS yn gweithio'n benodol i roi cymorth i deuluoedd sydd newydd gyrraedd y wlad wrth wneud ceisiadau i ysgolion a phrynu gwisg ysgol. Mae cysylltiadau â phartneriaid eraill fel y sector iechyd a thai yn sicrhau y gellir diwallu anghenion disgyblion a'u teuluoedd, a all weithiau fod yn gymhleth.
- Mae GEMS hefyd yn **cefnogi llesiant disgyblion drwy waith aml-asiantaeth** i fonitro newidiadau mewn cymunedau, fel cynnydd yn nifer y digwyddiadau sy'n gysylltiedig â hil neu achosion eraill o wahaniaethu. Mae GEMS wedi gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth â Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth ers sawl blwyddyn er mwyn hybu cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael â materion.

Y fframwaith dysgu proffesiynol – seilwaith y system a'r cwricwlwm newydd



Lansiwyd y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol⁶³ yn swyddogol yn 2018. Roedd y dull “gwnaed yng Nghymru” hwn ar gyfer dysgu proffesiynol yn bwynt allweddol ar ein taith tuag at ddiwygio'r cwricwlwm. Mae'n gydnaws â'r safonau proffesiynol newydd, y dull Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a'r model dysgu proffesiynol, er mwyn creu gweledigaeth sy'n addas ar gyfer y system addysg ddatblygol yng Nghymru, a hynny i bob ymarferydd addysg, nid athrawon yn unig.

Dylai pob ymarferydd ddisgwyl cael y cymorth sydd ei angen arno i roi'r cwricwlwm gweddnewidiol newydd ar waith.

Mae'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn seiliedig ar waith ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol pwysig, ac fe'i cynlluniwyd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Y gall ysgolion, arweinwyr ac athrawon fanteisio ar arferion gorau wrth ddiffinio a rhannu cyfleoedd Dysgu Proffesiynol ar lefel ysgolion, yn enwedig drwy ddefnyddio dulliau ymholi beirniadol a dysgu cydweithredol.
- Bod darparwyr dysgu proffesiynol – y Consortia Rhanbarthol, ein Prifysgolion ac eraill – yn cynllunio profiadau Dysgu Proffesiynol o ansawdd uchel, sy'n hygyrch ac yn addas at y diben, er enghraifft drwy gynlluniau sy'n cynnwys dulliau ymholi cydweithredol ac e-ddysgu.
- Bod Llywodraeth Cymru yn cyllido'r mathau priodol o ddysgu proffesiynol y mae tystiolaeth yn dangos y bydd yn cael effaith ar ymarfer mewn ystafelloedd dosbarth.

Yn ystod pob cam o'r continwmm Dysgu Proffesiynol, y ceir cyfleoedd i gefnogi a gwella galluoedd y gweithlu addysgu wrth ymateb i'r fenter hon. Bydd ymyriadau yn ystod y cerrig milltir gyrfaoel allweddol hyn, a gaiff eu cynnwys yn ystod camau hyfforddiant arweinyddiaeth (gweler isod), yn hanfodol er mwyn gwneud cynnydd yn y maes blaenoriaeth hwn.

Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA)

Diwygiwyd Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) yng Nghymru yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'n rhaid achredu unrhyw raglenni a gaiff eu cyflwyno yn erbyn y Meini Prawf ar gyfer Achredu rhaglenni AGA. Nid yw'r meini prawf hyn yn pennu cwricwlwm rhagnodol ar gyfer rhaglenni AGA ond maent yn disgrifio fframwaith y dylid eu cyflwyno o'i fewn sy'n sicrhau ffocws ar yr agweddau addysgegol ar addysgu. Mae hyn yn cynnwys gofynion i fyfyrwyr feithrin *dealltwriaeth o amrywiaeth ddiwylliannol eu poblogaeth ddysgwyr yn ogystal â materion sy'n ymwneud â chydaddoldeb a chynhwysiant* ac i ddangos tystiolaeth o hynny.

Er na chaiff cynnwys y cwricwlwm AGA ei ddynodi, disgwylir i raglenni gael eu cynllunio er mwyn ymdrin â'r meysydd hyn. Mewn ardaloedd lle y gall fod angen cymorth ychwanegol neu lle bo myfyrwyr am gael cymorth ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda SAUau i ddatblygu modelau cyfoethogi sydd ar gael drwy bob partneriaeth AGA. Felly, gellid hyrwyddo modiwlau sy'n ymwneud â safbwyntiau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a gwrth-hiliaeth drwy'r dull hwn, ond

⁶³ Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol <https://lyw.cymru/y-dull-cenedlaethol-ar-gyfer-dysgu-proffesiynol>

byddai'n bwysig gweithredu mewn ffordd safonol, orfodol a chynhwysfawr er mwyn sicrhau ei fod yn rhan o'r portffolio dysgu ar lefel israddedigion ac ôl-raddedigion.

Mae'r amser sydd ar gael o fewn rhaglenni TAR yn gyfyngedig ac mae'r cwrs TAR blwyddyn o hyd yn ddwys iawn, sy'n cyflwyno her. Mae saith SAU yng Nghymru yn darparu'r rhaglenni hyn mewn partneriaeth ag ysgolion lleol. Felly, bydd unrhyw ddull a ddefnyddir i gynnwys amrywiaeth yn gofyn am waith ar lefel Partneriaeth. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw archwiliad ffurfiol yn cael ei gynnal o ran pa elfennau o addysg ar gyfer amrywiaeth a gaiff eu rheoli a sut y cânt eu rheoli ac nid oes unrhyw waith yn mynd rhagddo i asesu ei heffeithiolrwydd.

Nododd ein hymgyngoriadau fod sawl rhaglen yn cynnwys rhywfaint o hyfforddiant ar wrth-hiliaeth (Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth) a sesiynau ar addysgeg gynhwysol, ond dim ond mewn bwn cyfyngedig iawn a geir, sy'n canolbwyntio ar wrth-hiliaeth a materion fel bwlio. Nid ydynt wedi'u cynllunio i ymdrin â'r broses o ddatblygu cwricwla amrywiol. Nid yw'n glir ychwaith pa fodolau a dulliau gweithredu a gaiff eu mabwysiadu. Nododd yr ymatebwyr bwyslais ar 'gymhwysedd diwylliannol' – meithrin ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill, a modelau 'rhagfarn ddiarwybod' sy'n canolbwyntio ar ragfarnau anfwriadol, yn hytrach na modelau sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb rhwng hiliau, braint pobl Wyn a gwrth-hiliaeth. Mae'n amlwg bod angen cynnal gwaith ymchwil er mwyn deall natur hyfforddiant mewn SAUau yng Nghymru.

Roedd adborth i'r grŵp yn awgrymu y byddai angen canllawiau a hyfforddiant ar diwtoriaid SAU a'r rheini sy'n rhan o bartneriaethau hyfforddiant er mwyn rhoi'r agenda hon ar waith. Dylid galluogi pob Partneriaeth i ddatblygu cynllun er mwyn dangos sut mae'n ymdrin â'r thema hon.

Er mwyn paratoi athrawon dan hyfforddiant yn briodol ar gyfer realiti cynllunio a chyflwyno cwricwla sy'n ymateb i themâu, cyfraniadau a hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, yna bydd angen cymryd rhai camau er mwyn ymdrin â'r pryderon hyn ym mhob un o'r meysydd dysgu craidd. Byddai'n fuddiol rhoi'r cyfle i athrawon dan hyfforddiant gynnal sgrysiâu manwl fel rhan o'u datblygiad ym maes addysg ar gyfer amrywiaeth, gan fanteisio ar adolygiadau gan gyfoedion a threfniadau cydweithio rhwng ysgolion fel rhan o'u cyfnod sefydlu. Dylid ystyried yr ystyriaethau hyn fel rhan o Becyn Cymorth Dechrau Gyrfa Llywodraeth Cymru⁶⁴, sy'n helpu athrawon sy'n dechrau ar eu gyrfa ac yn cwmpasu cyfnod sefydlu statudol, eu blynyddoedd cyntaf yn addysgu ac yn diweddu mewn gradd Meistr.

Roedd y Grŵp hefyd o'r farn y gellid ystyried y newidiadau hyn i gymorth sefydlu ochr yn ochr ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Mick Waters, *Dysgu bod yn Athro yng Nghymru: Sefydlu Athrawon yn y Proffesiwn*⁶⁵.

Yn unol ag adolygiad a chanfyddiadau Cyngor y Gweithlu Addysg, mae angen gwneud mwy i ddenu ymgeiswyr o gefndiroedd lleiafrifol ac mae angen i


⁶⁴ Buddsoddi mewn Rhagoriaeth: Ein Cynllun Cenedlaethol i Ddatblygu'r Gweithlu <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/buddsoddi-mewn-rhagoriaeth-ein-cynllun-cenedlaethol-i-ddatblygu-r-gweithlu-2019-21.pdf>

⁶⁵ Dysgu Bod yn Athro yng Nghymru: Sefydlu Athrawon yn y Proffesiwn <https://llyw.cymru/dysgu-bod-yn-athro-yng-nghymru-sefydlu-athrawon-yn-y-proffesiwn>

Awdurdodau Lleol a Phartneriaethau SAU nodi'n glir eu Strategaeth ar gyfer cynyddu nifer y ceisiadau i'w rhaglenni.

Dysgu proffesiynol yn y gweithlu sefydledig

Dysgu Proffesiynol i Ysgolion – Pwy sy'n Gwneud Beth...



Mae sicrhau bod digon o adnoddau yn cael eu darparu ar gyfer dysgu proffesiynol i ymarferwyr yn rhan annatod o'r Dull Cenedlaethol, gan gynnwys adnoddau ariannol ac amser i athrawon ac arweinwyr ymgysylltu â chyfleoedd datblygu o ansawdd uchel. Rhoddwyd diwrnod ychwanegol o HMS i ysgolion bob blwyddyn am y tair blynedd nesaf yn ystod tymor yr haf, yn benodol er mwyn rhoi mwy o amser i athrawon ymgymryd â'u dysgu proffesiynol. Mae hyn yn rhan o becyn ehangach y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, wedi'i ategu gan fuddsoddiad ychwanegol o £31 miliwn dros gyfnod o 30 mis hyd at 2021, a ddyfarnwyd yn uniongyrchol i ysgolion. Bwriedir gwneud buddsoddiad parhaus sylweddol hefyd. Gellir defnyddio'r cyllid hwn mewn ffordd hyblyg er mwyn galluogi ysgolion i gydweithio mewn ffyrdd sy'n gweddu i'w hamgylchiadau eu hunain. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi'n sylweddol mewn adnoddau dysgu digidol er mwyn helpu athrawon ar eu taith dysgu proffesiynol.

Datgelodd ein hymgyngoriadau bryderon sylweddol am ddigonolrwydd y ddarpariaeth hon unwaith y bydd wedi dod yn rhan o gyllideb ysgolion unigol a'u blaenoriaethau. Ymdrinnir ymhellach â'r pwynt hwn yn Rhan 5 o'r adroddiad hwn. Bydd adnoddau digonol a chynaliadwy yn hollbwysig wrth gyflawni'r trawsnewidiadau sydd eu hangen er mwyn gallu amrywio'r cwricwlwm.

Roedd cwmpas ein hymgyngoriadau ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys trafodaethau manwl am natur dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau y caiff y thema hon ei rhoi ar waith fel rhan o'r cwricwlwm newydd. Rydym yn cael yr argraff fod y gweithlu addysg yn barod i dderbyn y datblygiad hwn, ond ar y cyfan, nad oes digon o ganllawiau na hyfforddiant ar gael i sicrhau lefelau ymgysylltu cadarn. Mae

cyfarfodydd ag aelodau o Undebau, ymarferwyr, adolygiad thematig Estyn, trafodaethau â phartneriaid o fewn y Consortia Rhanbarthol, Cyngor y Gweithlu Addysg a mwy a'n hadolygiad o'r dystiolaeth ymchwil yn awgrymu bod angen hyfforddiant parhaus, sefydledig a gorfodol. Awgrymwyd mai ar lefel ysgolion neu mor agos â phosibl at brofiad ac anghenion yr ysgolion eu hunain y dylid cyflwyno hyfforddiant o'r fath. Rydym o'r farn bod angen **cyfuniad o ddulliau gweithredu** sy'n gofyn am gamau systematig a chydgyssylltiedig ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol ac sy'n cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid.

Rydym yn cynnig y dylid darparu Dysgu Proffesiynol gorfodol ar bob lefel o'r gweithlu addysg. Yn unol ag arferion cyffredin mewn proffesiynau eraill yng Nghymru, dylid datblygu modiwl dysgu proffesiynol cenedlaethol gorfodol – sy'n ymdrin â gwrth-hiliaeth a chynhwysiant, addysgeg a datblygu'r cwricwlwm ym maes addysg ar gyfer amrywiaeth. Dylid datblygu'r hyfforddiant hwn mewn dwy ran: 1) elfennau craidd a gaiff eu datblygu'n genedlaethol a 2) cynnwys ar gyfer cyd-destunau penodol a gaiff ei ddatblygu fel rhan o'r cynllun clwstwr. Dylai'r grant clwstwr gyllido'r trefniadau gweithredu ar gyfer yr hyfforddiant hwn. Dylid cyflwyno'r hyfforddiant bob dwy flynedd i bob aelod o staff yr ysgol.

Byddai'r elfennau craidd yn cynnwys y canlynol:

- hanes cryno a damcaniaeth strwythurol am wrth-hiliaeth
- gwahaniaethau allweddol: anhiliol/gwrth-hiliol. Hil/diwylliant/ethnigrwydd, diwylliant/crefydd, teithwyr o'r DU/teithwyr Roma
- egluro camdybiaethau cyffredin a therminoleg

Byddai'r elfennau ar gyfer clystyrau penodol yn cynnwys y canlynol:

- data a phrofiadau bywyd y gymuned
- manylion am bolisi a chynllun gweithredu Gwrth-hiliaeth, Cydraddoldeb a Thegwch yr ysgol, a hynny'n gysylltiedig â chynllun datblygu'r ysgol
- cynllunio, dylunio a mapio'r cwricwlwm
- nodi camau gweithredu e.e. grwpiau llywio disgyblion / gweithdai i rieni / ychwanegu camau gweithredu sy'n cyfrannu at y Polisi Gwrth-hiliaeth, Cydraddoldeb a Thegwch at agenda cyfarfodydd blynyddol y llywodraethwyr

Mae'n bosibl y bydd angen canllawiau cyffredinol wedi'u llywio gan waith ymchwil hefyd er mwyn ysgogi ystyriaethau o'r fath wrth gynllunio a datblygu cwricwla⁶⁶ ac mae'n amlwg bod angen cyfeirio unigolion at lwyfannau ar-lein arbenigol ar y pwnc a all ddarparu adnoddau a chyfoethogi eu dewis o ddeunyddiau.

Mae gan y rhwydwaith cenedlaethol newydd ran sylweddol i'w chwarae yn y datblygiadau hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Cenedlaethol i ystyried y ffordd orau o ymdrin â'r materion pwysig hyn yn y broses ddysgu yng nghyd-destun rhoi'r cwricwlwm ar waith.

⁶⁶ Darren Chetty ac Adam Ferner (2020) <https://www.tes.com/magazine/article/tips-tackling-classroom-discussions-about-race>

Argymhellion ar hyfforddi'r gweithlu a datblygiad proffesiynol

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ar y 42 o argymhellion a nodir yn yr adroddiad *Ethnic Minority Representation within the School Workforce in Wales Phase 2 report*⁶⁷.

Argymhelliad 8: Fel rhan o gam gweithredu'r adroddiad hwn, dylid gwahodd aelodau'r Gweithgor i gymryd rhan yn ymgynghoriad trydydd cam Cyngor y Gweithlu Addysg.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ysgoloriaethau penodol er mwyn cefnogi myfyrwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn nodi rhesymeg a strategaeth ar gyfer recriwtio a chadw staff addysgu Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a chynnig dilyniant gyrfa iddynt, a'u bod yn cyhoeddi eu data bob blwyddyn.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno system orfodol o gyhoeddi data cydraddoldeb ysgolion ym maes recriwtio i weithluoedd ysgolion, bylchau cyflog, cyfraddau cadw a dilyniant.

Argymhelliad 12: Dylid cynnig cymorth mentora a chymorth cymdeithasol i bob athro o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fel norm. Gallai'r Undebau a'r Rhwydwaith Cenedlaethol chwarae rhan bwysig wrth alluogi'r datblygiad hwn.

Argymhelliad 13: Dylid rhoi cymorth ariannol i'r Rhwydwaith Cenedlaethol newydd i'w alluogi i ddarparu mentoriaeth ac anogaeth gadarn ym maes addysg ar gyfer amrywiaeth a gwrth-hiliaeth i athrawon unigol.

Argymhellion ar ddysgu proffesiynol

Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA)

Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ar y 42 o argymhellion a nodir yn yr adroddiad *Ethnic Minority Representation within the School Workforce in Wales Phase 2 report*⁶⁸ fel y maent yn berthnasol i rôl Prifysgolion mewn AGA, hyfforddiant a Safonau Proffesiynol.

Argymhelliad 15: Dylai Partneriaethau AGA lunio a chyhoeddi eu strategaeth ar gyfer ymdrin â threfniadau recriwtio Lleiafrifoedd Ethnig.

Argymhelliad 16: Dylai pob Partneriaeth AGA yng Nghymru gynnal gwerthusiad ac archwiliad creadigol o'r hyfforddiant presennol ac effeithiolrwydd addysg ar gyfer

⁶⁷ Disgwylir i adroddiad Cyngor y Gweithlu Addysg *Ethnic Minority Representation within the School Workforce in Wales Phase 2 report* gael ei gyhoeddi yn ystod 2021

⁶⁸ Disgwylir i adroddiad Cyngor y Gweithlu Addysg *Ethnic Minority Representation within the School Workforce in Wales Phase 2 report* gael ei gyhoeddi yn ystod 2021

hyfforddiant amrywiaeth a gwrth-hiliaeth yn ei rhaglen ac, ar sail hyn, ddatblygu cynllun strategol i roi mwy o sylw i'r thema hon.

Argymhelliad 17: Dylid galluogi athrawon dan hyfforddiant i ymgysylltu'n atgyrchol â'r pryderon hyn a rhoi sylw i amrywiaeth ym mhob un o'u meysydd dysgu craidd. Bydd hyn yn golygu creu meini prawf asesu sy'n annog y ffocws hwn a gwerthoedd ac agweddau sy'n sail i safonau athrawon cymhwysedig, sy'n galluogi athrawon dan hyfforddiant i ddangos cymhwysedd mewn amrywiaeth ddiwylliannol ac wrth greu deunyddiau addysgu perthnasol.

Argymhelliad 18: Fel rhan o gynlluniau Addysg ar gyfer Amrywiaeth, dylai SAUau sicrhau eu bod yn darparu hyfforddiant gwrth-hiliaeth gorfodol o ansawdd da i holl grwpiau tiwtor a darparwyr partneriaeth y SAU.

Argymhelliad 19: Dylai prosesau achredu AGA fonitro i ba raddau y gall Partneriaethau ddangos eu hymrwymiad i'r maes blaenoriaeth hwn.

Argymhellion ar addysgu ar ddechrau gyrfa

Argymhelliad 20: Dylid cefnogi athrawon sy'n dechrau eu gyrfa drwy gynlluniau dysgu proffesiynol cenedlaethol a dylai cyrff arbenigol ddatblygu gwybodaeth arbenigol am y pwnc sy'n rhoi sylw i amrywiaeth ac sy'n cyfeirio at lwyfannau dysgu ar-lein ar gyfer addysg arbenigol am y pwnc.

Argymhelliad 21: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag athrawon sy'n dechrau eu gyrfa er mwyn nodi pa gymorth y byddai ei angen arnynt wrth ystyried eu datblygiad ym maes addysg ar gyfer amrywiaeth yn ystod y cyfnod sefydlu fel rhan o Becyn Cymorth Dechrau Gyrfa.

Argymhellion ar athrawon ac arweinwyr sefydledig

Argymhelliad 22: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried elfen o gyllid wedi'i neilltuo o fewn ei dyraniadau dysgu proffesiynol blynyddol i alluogi camau penodol i ddatblygu'r maes blaenoriaeth hwn.

Argymhelliad 23: Dylid rhoi canllawiau ar sail ymchwil i ysgolion ac annog cwestiynau i'w hysgogi i ystyried amrywio'r cwricwlwm. Mae hyn yn rhan allweddol o gymorth dysgu proffesiynol wrth gynllunio'r cwricwlwm ac o ran Dysgu a Chynllunio o Bell Anghydamserol (RALD). Byddai hyn hefyd yn cynnwys canllawiau i sicrhau bod athrawon yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i ymdrin â'r materion hyn yn yr ystafell ddosbarth.

Argymhelliad 24: Yn unol ag arferion cyffredin mewn proffesiynau eraill yng Nghymru, dylid datblygu modiwl dysgu proffesiynol cenedlaethol gorfodol o ansawdd uchel – sy'n ymdrin â gwrth-hiliaeth a chynhwysiant, addysgeg a datblygu'r cwricwlwm ym maes addysg ar gyfer amrywiaeth a gwrth-hiliaeth.

Argymhelliad 25: Dylai'r rhaglen newydd ar gyfer y Cymhwyster Cenedlaethol Meistr mewn Addysg⁶⁹ ystyried cynnwys hyfforddiant gwrth-hiliaeth gorfodol ar gyfer pob cyfranogwr a datblygu modiwl/maes diddordeb arbenigol: Addysgu ar gyfer Amrywiaeth er mwyn hyrwyddo rhagoriaeth addysgu ac ymchwil yn y maes hwn.

Argymhelliad 26: Dylai Llywodraeth Cymru, Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol Cymru a'r Consortia Rhanbarthol gefnogi hyfforddiant parhaus trylwyr er mwyn llunio, gweithredu a denu sylw at amrywiaeth ethnig a chynwysoldeb fel rhan o ddull ysgol gyfan i benaethiaid ac arweinwyr.

Argymhelliad 27: Dylai'r Consortia Rhanbarthol gynnal digwyddiadau dysgu proffesiynol blynyddol er mwyn parhau i ddatblygu a hyrwyddo rhagoriaeth ym maes addysg ar gyfer amrywiaeth.

Argymhelliad 28: Dylai'r Consortia Rhanbarthol gefnogi ysgolion drwy ddarparu cysylltiadau i gymunedau ac astudiaethau achos cadarnhaol, fel enghreifftiau o fentrau llwyddiannus gan ysgolion i hyrwyddo amrywiaeth yn eu cwricwlwm. Yn ogystal, dylid cyfeirio at lwyfannau ar-lein arbenigol sy'n anelu at wella ymdrechion amrywio o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad, datblygu ffora er mwyn hwyluso trefniadau datblygu rhwng cyfoedion a threfniadau ar gyfer rhannu arferion rhwng ysgolion er mwyn hybu addysg ar gyfer amrywiaeth.

Argymhelliad 29: Fel rhan o'r adolygiad o safonau proffesiynol, dylid ystyried cyfeirio'n benodol at arferion gwrth-hiliaeth fel safon ar gyfer ymarfer.

⁶⁹ Llywodraeth Cymru Datganiad Ysgrifenedig: Cymhwyster Cenedlaethol Meistr mewn Addysg <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cymhwyster-cenedlaethol-meistr-mewn-addysg>

Rhan 4: Camau gweithredu ar lefel ysgolion

Wrth ddatblygu'r cwricwlwm, mae angen ystyried gweledigaeth, ethos ac amgylchedd dysgu'r ysgol gyfan. Wrth ddatblygu gweledigaeth ar gyfer cwricwlwm yr ysgol, dylai hyrwyddo cwricwlwm amrywiol a chynhwysol fod yn ystyriaeth gynllunio allweddol. Mae dull ysgol gyfan yn cynnwys ystyried y dewis o gynnwys/cyd-destunau yn y cwricwlwm, profiadau addysgu a dysgu, adnoddau a deunyddiau, strategaethau gwrth-hiliaeth ac addysgeg sydd oll yn cydnabod, yn dathlu ac yn hyrwyddo amrywiaeth a chynwysoldeb. Fel y cyfryw, byddai dysgu proffesiynol i ymarferwyr yn cael ei integreiddio yn system gyfan yr ysgol, ei pholisïau a'i harferion, fel rhan o'r model Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu.

Dim ond os bydd yn seiliedig ar **arweinyddiaeth gadarn** y gellir rhoi dull ysgol gyfan o ymdrin â'r maes blaenoriaeth hwn ar waith. Ni fydd brwdfrydedd a gweithredoedd athrawon unigol ar eu pen eu hunain yn sicrhau newid. Mae arweinyddiaeth ysgolion sy'n hyrwyddo gweithredoedd ac ymddygiad sy'n meithrin diwylliant sy'n rhoi sylw helaeth i amrywiaeth, gwrth-hiliaeth ac addysgeg gynhwysol yn hanfodol mewn perthynas â'r datblygiad hwn. Gall arweinwyr greu diwylliannau cadarnhaol, monitro a sicrhau cyflawniad yn erbyn targedau amlwg a chliir a hyrwyddo arloesedd, trefniadau cydweithio a gwaith cynllunio trawsgwricwlaidd er mwyn rhoi'r trawsnewidiadau angenrheidiol ar waith. Clywodd y Gweithgor gan ysgolion a oedd wedi cynnwys y flaenoriaeth hon yn amlwg o fewn cynlluniau datblygu'r ysgol, gan nodi manylion y math o gamau gweithredu a'r ystod o gamau gweithredu yr oedd eu hangen er mwyn hyrwyddo newid. Roedd arweinyddiaeth o'r fath yn dangos ymrwymiad i ddatblygu arferion amrywiaeth mewn ffordd systematig drwy ddulliau aml-haen ac ysgol gyfan a'r ymrwymiad i fonitro datblygiad ac adolygu data.

Astudiaeth Achos 7

Darparwr: Ysgol yr Hendy

Arfer effeithiol: Harneisio llais disgyblion er mwyn creu strategaethau gwrth-fwlio effeithiol – dull y gellid hefyd ei ddefnyddio'n briodol i harneisio strategaethau gwrth-hiliaeth

Cyd-destun: Mae Ysgol yr Hendy ym mhentref Hendy ger Llanelli, Sir Gaerfyrddin, ac mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos. Mae 164 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys pum disgybl meithrin.

- Mae **dull ysgol gyfan** i'w weld yn amlwg ym mhob rhan o'r ysgol ac mae amrywiaeth eang o systemau ar waith sy'n hybu ymddygiad cadarnhaol, ymdrechion i ddatblygu llesiant y disgyblion ac ymagwedd dim goddefgarwch tuag at fwlio.
- Tynnodd **cyfarfod ffocws cychwynnol â rhieni a disgyblion** sylw at yr angen i fynd i'r afael ag achosion o fwlio nad oeddent yn cael eu datrys.
- Mae'r ysgol wedi llunio ac wedi cynnal amrywiaeth eang o drefniadau arloesol, sy'n hybu camau gwrth-fwlio ym mhob rhan o'r ysgol.

- **ganlyniad i'r cyfarfodydd ffocws, ailwampwyd y polisi, y systemau a'r strategaethau gwrth-fwlio yn llwyr ym mhob rhan o'r ysgol ar bob lefel.** Cynhwyswyd pob rhanddeiliad fel rhan o'r broses, gan gynnwys hwyluso cyfleoedd clir i'r disgyblion leisio barn, er enghraifft, er mwyn creu ac adolygu'r fersiwn o'r polisi gwrth-fwlio i ddisgyblion bob blwyddyn.
- Sefydlwyd **tasglu gwrth-fwlio** cychwynnol yn yr ysgol. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys y pennaeth, athro a disgyblion. Dewiswyd y grŵp yn ofalus ac roedd yn cynnwys un disgybl a oedd wedi cael ei fwlio ac un disgybl yr oedd ei ymddygiad yn peri pryder ac yr oedd perygl y câi ei wahardd dros dro.
- Penderfynodd y disgyblion ar y tasglu greu **polisi fideo a oedd yn addas i blant**, gan eu bod o'r farn y byddai hyn yn gynhwysol ac y byddai pob plentyn yn yr ysgol yn ei ddeall. Cyflwynodd y grŵp y polisi i'r ysgol gyfan ac i'r llywodraethwyr a'r rhieni mewn noson agored.
- Mae'r polisi yn cynnwys **canllawiau clir** o ran beth yw bwlio a beth y gall disgyblion ei wneud a beth y dylent ei wneud os byddant yn cael eu bwlio. Arweiniodd hyn at greu arwyddair i'r ysgol, sef 'gyda'n gilydd cymaint mwy'.

Mae **cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** yn ofyniad statudol lle y mae'n ofynnol i ysgolion ddatblygu eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol (CCSau) a'u cyhoeddi. Mae'r angen i ysgolion sicrhau bod ganddynt Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol (CCS) sy'n gydamserol â'u **cynlluniau datblygu ysgol** a'u blaenoriaethau ac yn eu hadlewyrchu, ac sy'n destun prosesau adolygu a gwerthuso rheolaidd, yn hanfodol er mwyn sicrhau polisiâu ac arferion sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhwng hiliau. Mae'r dogfennau hyn yn chwarae rhan sylweddol wrth nodi bwriadau'r ysgol a'i diwylliant ac wrth benderfynu sut y bydd yn gweithredu. Fodd bynnag, nododd tystiolaeth grwpiau ffocws a gyflwynwyd i'r Gweithgor yn aml bod dogfennau CCS yn methu â nodi'r goblygiadau addysgu a dysgu gan greu'r cysylltiadau angenrheidiol â'r trefniadau ar gyfer datblygu cwricwlwm gwrth-hiliaeth. Dylai'r rhain fod yn ddogfennau atgyrchol a dynamig sy'n sicrhau y caiff cydraddoldeb rhwng hiliau ei gynnwys, ei integreiddio a'i normaleiddio o fewn gweithdrefnau'r ysgol⁷⁰.

Mae'r Comisiynydd Plant wedi nodi y dylid dilyn **dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant** wrth ddarparu addysg⁷¹ gan sicrhau bod CCUHP wrth wraidd profiad plentyn o addysg ac wrth wraidd gwaith cynllunio, addysgu, gwneud penderfyniadau, polisiâu ac arferion ysgolion. Datblygwyd y model ar gyfer lleoliadau addysg yng Nghymru ac mae'n berthnasol i bob rhan o'r sector addysg, gan gynnwys darpariaeth statudol ac anstatudol. Un o egwyddorion clir y model yw'r hawl i gydraddoldeb a dim gwahaniaethu. Mae diwylliant diogel a chynhyrchiol yn yr ysgol

⁷⁰ Adroddiad Adolygiad Tystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (Jason Arday 2020) Improving Race Equality in Education. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ym mis Mawrth 2021

⁷¹ Comisiynydd Plant Cymru – Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru <https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/dull-hawliau-plant/dull-gweithredu-seiliedig-ar-hawliau-plant-i-addysg-yng-nghymru/>

yn bwysig i bob plentyn a pherson ifanc ac yn fwy penodol, mae camau gweithredu mewn perthynas â hiliaeth a bwlio hiliol mewn ysgolion yn ddimensiwn pwysig o'r dull ysgol gyfan mewn perthynas â chydaddoldeb rhwng hiliau⁷². Mae'r Gweithgor yn cynnig mai dim ond os bydd arferion ysgolion yn seiliedig ar ddiwylliant gwrth-hiliaeth cadarn y gellir gwireddu uchelgeisiau cwricwlwm blaengar wrth fynd i'r afael â'r bwloch cyflawniad. Bydd angen tystiolaeth o gyfleoedd cadarn i ddisgyblion leisio barn, bod disgyblion yn deall amrywiaeth a bod disgyblion wedi'u cynnwys wrth lywio'r arferion hyn.

Mae adolygiad tystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn cynnig y dylid ystyried cydraddoldeb rhwng hiliau fel llinyn aur sy'n rhedeg drwy bolisiau ysgolion ac yn dadlau y dylid datblygu'r dogfennau hyn mewn **partneriaeth â disgyblion, rhieni a rhanddeiliaid allweddol eraill** er mwyn osgoi symboleiddiaeth⁷³. Mae'r llinell atebolrwydd hon yn bwysig. Mae disgyblion a rhieni a sefydliadau ac unigolion lleiafrifol yn y gymuned leol yn adnodd hanfodol a dylid eu cynnwys wrth ddatblygu cynlluniau ysgolion. Mae'r Gweithgor wedi gweld enghreifftiau da o gynlluniau ysgolion sy'n rhoi sylw i ddatblygu trefniadau i integreiddio safbwyntiau lleiafrifol a mesurau cydraddoldeb rhwng hiliau fel blaenoriaeth.

Mae ysgolion yn gyfrifol am bennu eu hamcanion ac am gynnal **hunanwerthusiadau**. Mae'r Adnodd Cenedlaethol ar gyfer Gwerthuso a Gwella a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag Estyn ac y bwriedir ei gwblhau yn 2021 yn nodi'r canlynol:

'Mae datblygu ysgolion sy'n hunanwella yn hanfodol i gyflawni ein dyheadau ar gyfer dysgwyr, ac rydym wedi ymrwmo i gefnogi pob ysgol i gyrraedd y nod hwnnw. Mae'r adnodd hwn yn hyrwyddo diwylliant cydweithredol o fyfyrrio, dysgu a gwelliant proffesiynol. Drwy roi cyfarwyddyd ymarferol, mae'n cefnogi ysgolion i gyflawni ein cenhadaeth genedlaethol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru, ac mae'n cefnogi ysgolion i fod yn sefydliadau sy'n dysgu.'

Mae'r Adnodd Cenedlaethol yn nodi'n glir na ddylid trin hunanwerthuso fel digwyddiad (adolygiad blynyddol). Dylai ysgolion ddatblygu **diwylliant dysgu** sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus, lle mae gwaith hunanwerthuso yn gydnaws â gwaith gwella'r ysgol fel proses integreiddig. Gallai ysgolion gynnal adolygiadau buddiol gan gymheiriaid o'r maes blaenoriaeth hwn, gan ddysgu gan ei gilydd a rhannu arbenigedd wrth ddatblygu amrywiaeth fel thema drawsbynciol.

Nid yw ysgolion yn gweithio'n annibynnol ar eu cymunedau lleol. Mae trefniadau datblygu ar y cyd yn y Cwricwlwm i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ymgysylltu ag ysgolion eraill, lleoliadau a sefydliadau SAU yn ogystal â dysgwyr, rhieni, gofawyr a'r gymuned leol. Mae'r cydweithrediad hwn yn annog ysgolion i ddatblygu rhwydweithiau gweithredol a chynaliadwy â sefydliadau, busnesau, cysylltiadau cymunedol ac unigolion lleol. Gall y cysylltiadau hyn hefyd fod ar ffurf cysylltiadau rhithwir â sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol a all gefnogi'r ymdrech

⁷² Comisiynydd Plant Cymru – Adnoddau Gwrth-fwlio <https://www.complancymru.org.uk/adnoddau-gwrth-fwlio/>

⁷³ Adroddiad Adolygiad Tystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (Jason Arday 2020) Improving Race Equality in Education tud.19. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ym mis Mawrth 2021

hon. Ceir cyfleoedd hefyd i ysgolion ffurfio cydberthnasau sy'n meithrin addysg ar gyfer amrywiaeth. Gellir partneru ysgolion â chynrychiolaeth dwysedd uchel o ddisgyblion ethnig lleiafrifol â'r rheini â phoblogaethau dwysedd isel o ddisgyblion ethnig lleiafrifol er mwyn rhannu syniadau, cynnal adolygiadau gan gymheiriaid o gynlluniau'r ysgolion a datblygu strategaethau arloesol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm.

Mae **cynefin** yn un o'r egwyddorion craidd sy'n sail i'r cwricwlwm newydd. Mae'r Gweithgor wedi ystyried yn fanwl botensial y cysyniad hwn o ran hyrwyddo llesiant, ymdeimlad o berthyn, hawliau a gwybodaeth ddinasyddiaeth pob dysgwr yng Nghymru. Mae'n gysyniad sy'n helpu disgyblion 'i archwilio, creu cysylltiadau a meithrin dealltwriaeth o fewn cymdeithas fodern, amrywiol a chynhwysol. Nid yw'r cynefin hwn yn un lleol yn unig; mae'n gosod sail ar gyfer dinasyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol'.⁷⁴

Mae'r Gweithgor yn cydnabod potensial cynefin i ysgogi unigolion i ymgysylltu â'r amrywiaeth o ddiwylliannau, hanes, gwerthoedd a safbwyntiau a geir yng Nghymru. Fel rhan o gwricwlwm blaengar, mae'r profiadau hynny sy'n amlwg i ddysgwyr yn cynnig conglaen ar gyfer ystyried cysylltiadau ehangach i hanes Cymru, sef Stori Cymru, a thu hwnt, boed yn ddigwyddiadau, cyfraniadau neu syniadau hanesyddol neu gyfoes neu'n agweddau sy'n bwysig o ran creu cyfoeth, datblygiad cymdeithasol, diwylliannol a diwydiannol Cymru, fel caethwasiaeth, gweithgarwch cenhadol, llwybrau masnach, mudiadau penodol a mwy. Dylai hyn ddatgelu llawer mwy na dim ond straeon lleol unigol am wahaniaethau ac amrywiaeth. Dylai nodi bod patrymau lleol yn seiliedig ar frithwaith hanes Cymru. Nid mater syml o gynnwys mwy o wynebau Du a Brown mewn cynlluniau gwersi neu adrodd straeon unigol am ymdrechion gan bobl Ethnig Lleiafrifol yw cwricwlwm blaengar.

Felly, mae'n bwysig ystyried rhai o'r tybiaethau sy'n gysylltiedig â'r cysyniad o gynefin ac i ystyried sut y gellir ei ddefnyddio mewn byd hynod symudol a rhyng-gysylltiedig, lle mae lle, hanes a pherthyn yn aml yn croesi ffiniau cenedlaethol a lle mae ardaloedd i rai yn cyfleu allgáu yn hytrach na chynhwysiant. Mewn sawl rhan o Gymru, gallai'r canfyddiad bod lefelau isel o Leiafrifoedd Ethnig a bodolaeth naratifau pwerus ac unigryw a honiadau o berthyn i ddimensiynau hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol lle gyfyngu ar y gallu i ymgysylltu â themâu, profiadau a chyfraniadau Ethnig Lleiafrifol. At hynny, mae'n peri pryder hefyd y gallai'r cysyniad hwn annog dehongliad o berthyn sy'n gysylltiedig â *gwreiddiau* yn hytrach na *llwybrau* at ddinasyddiaeth Gymreig, gan esgor ar syniadau o ni a nhw, lleol ac estron, lle yr ystyrir bod honiadau rhai yn fwy dilys nag eraill.

⁷⁴ Ceir canllawiau pellach ar ddatblygu'r cyd-destun Cymreig wrth ddysgu yn yr adran ar gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol

Astudiaeth Achos 8

Cyd-destun: Mae'r adroddiad Amrywiaeth a Dinasyddiaeth yn awgrymu y gallai wythnos wedi'i neilltuo i ystyried pwy ydym ni, ar ffurf debyg i gyfres deledu'r BBC 'Who do you think you are?' ysgogi ac annog ysgolion i gymryd rhan.⁷⁵

- Fel prif weithgaredd yr wythnos, byddai ysgolion yn dathlu ac yn ymchwilio i hanes disgyblion a gwreiddiau eu cymunedau, a'r cysylltiadau byd-eang y gallant eu creu. Bydd yn cynnig cyfleoedd i gynnal prosiectau lleol, i atgyfnerthu cysylltiadau'r ysgol ac i ymgymryd â gwaith trawsgwricwlaidd sy'n dangos sut y gellir cynnwys pob pwnc. Gellid gorffen yr wythnos drwy gynnal arddangosiadau, dathliadau a dadleuon gan ofyn i'r disgyblion, y rhieni a'r gymuned edrych ar 'bwy ydynt'. Mae'n bwysig dechrau cynnwys y gwaith fel rhan o gwricwlwm yr ysgol ac o fewn Cynlluniau Gwaith mewn amrywiaeth o bynciau.
- Er mwyn iddo weithio'n effeithiol, byddai angen i ysgolion gael cymorth gan eu hawdurdod lleol ac mae'n bwysig cynnwys amgueddfeydd a llyfrgelloedd er mwyn i ddisgyblion allu gwneud gwaith ymchwil a chasglu deunydd newydd. Pe gellid sicrhau ffocws cenedlaethol a chynnwys y cyfryngau, gorau oll.
- Rydym ar ddeall y byddai angen amser ar athrawon i baratoi ymlaen llaw, ac y byddai angen ymgymryd â gwaith mapio clir o ran amcanion, addysgeg a deilliannau. Hefyd, byddai angen sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael o ran deunyddiau a chymorth, ond os ydym am i addysg ar gyfer amrywiaeth weithio er mwyn creu gwell cydlyniant cymdeithasol, mae'n rhaid tynnu sylw at y pwnc a rhoi blaenoriaeth iddo.

Mae Lleiafrifoedd Ethnig yn grwpiau eang ac amrywiol. Mae angen ystyried y materion sy'n effeithio ar grwpiau lleiafrifol penodol yn ofalus wrth greu diwylliannau galluogol mewn ysgolion. Clywodd y Gweithgor gan gynrychiolwyr o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn hyn o beth. Teimlwyd bod cydraddoldeb canlyniadau yn rhy aml yn cael ei ystyried ar sail unfurfedd neu uniondebygedd i bawb. Yn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, gall yr union broses o annog plant i gydymffurfio ag addysg ffurfiol wrthdaro â'u diwylliant. Byddai'n fuddiol sicrhau cyflenwad o leoedd sy'n cydfodoli mewn ysgolion sy'n seiliedig ar anghenion y disgyblion ac sy'n sicrhau na chaiff pobl ifanc eu gadael ar ôl am nad oedd canlyniad safonol yn addas iddynt. Gallai hyn fod ar ffurf clybiau galw heibio ar ôl ysgol, hyfforddiant i'r staff er mwyn iddynt allu deall yr heriau a wynebir yn well, neu fân newidiadau i'r ddarpariaeth a threfniadau cyfathrebu⁷⁶.

⁷⁵ Adroddiad Amrywiaeth a Dinasyddiaeth yr Adolygiad o'r Cwricwlwm, tud. 98

https://dera.ioe.ac.uk/6374/7/DfES_Diversity_%26_Citizenship_Redacted.pdf

⁷⁶ Llywodraeth Cymru Cynllun Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr <https://llyw.cymru/cynllun-galluogi-sipsiwn-roma-theithwyr>; Adroddiad Thematis – Darpariaeth ar gyfer disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr oed uwchradd – tystiolaeth ychwanegol <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Provision%2520for%2520secondary%2520aged%2520Gypsy%2520Roma%2520and%2520Travel%2520pupils%2520cy.pdf>

Astudiaeth Achos 9

Darparwr: Ysgol Gynradd Priordy Monkton

Arfer effeithiol: Creu amgylchedd dysgu ymgysylltiol

Cyd-destun: Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Priordy Monkton yn gwasanaethu un o ystadau cyngor mawr iawn yr awdurdod lleol a safle parhaol i Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 38% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru (25%). Mae tua 30% o'r disgyblion o gefndir Sipsiwn Roma.

- Mae'r ysgol wedi creu **uned gysylltiedig i ddisgyblion sy'n deithwyr** rhwng 11 ac 16 oed.
- Nid oes gan y rhan fwyaf o'r disgyblion brofiadau helaeth y tu hwnt i'w cymuned. Mae'r ysgol yn anelu at ddarparu "cipolwg ar y byd" ar gyfer **profiadau dysgu wedi'u cyfoethogi**, gan gynnig profiadau go iawn sy'n ategu'r pynciau a astudiwyd gan ddisgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r ysgol wedi defnyddio elfen o'r grant amddifadedd disgyblion i ariannu'r holl ymweliadau addysgol amhreswyl. Mae'n prydlesu dau fws mini sy'n galluogi dosbarthiadau i ddarganfod yr ardal leol a mannau eraill o ddi-ddordeb. Mae'r gweithgareddau hyn yn gwella dealltwriaeth y disgyblion o'u gwaith.
- Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cael **y cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o wahanol weithgareddau chwaraeon** na fyddai ar gael yn hawdd iddynt, er enghraifft marchogaeth, golff a jwdo. Mae'r fenter hon wedi codi dyheadau disgyblion ac wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb.
- **Mae ethos o barch yn amlwg ymhlith yr uwch-arweinwyr.** Mae pawb yn cydnabod bod pob person yn wahanol ond bod gan bob un ran bwysig i'w chwarae ym mywyd yr ysgol.
- Mae'r ysgol yn cydgysylltu **addysg i oedolion yn y gymuned** yn ardal Monkton yn llwyddiannus, ac mae amrywiaeth o gyrsiau ar gael, o sgiliau hanfodol i radd ran-amser.

Dylai Arweinwyr Ysgolion allu prif-ffrydio'r gofynion hyn o fewn **diwylliant galluogol yn yr ysgol**. Mae Arweinwyr Ysgolion yn gyfrifol am ddatblygu ethos ysgol lle mae gan ymarferwyr alluogedd i gynllunio cwricwlwm cynhwysol a'i roi ar waith, rhoi addysgeg ar waith sy'n cefnogi cynwysoldeb, a chymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn cefnogi eu datblygiad yn y maes hwn. Dim ond os bydd athrawon unigol yn gweithredu ar eu pen eu hunain i ddatblygu cwricwlwm mwy cynhwysol ac amrywiol heb gymorth Uwch-arweinwyr, a heb ethos a diwylliant yn yr ysgol sy'n rhoi galluogedd iddynt, y caiff cynnydd ei gyfyngu. Mae'r syniad o alluogedd athro⁷⁷ yn cefnogi egwyddorion y cwricwlwm a'r trefniadau ar gyfer ei roi

⁷⁷ Biesta, G., Robinson, S., Preistley, M. (2016) *Teacher Agency: An Ecological Approach*. Llundain: Bloomsbury

ar waith. Mae galluedd athrawon yn rhywbeth y gellir ei gyflawni, os bydd yr amodau a'r amgylchiadau diwylliannol, personol, proffesiynol ac ymarferol yn briodol.

Dylai Dysgu Proffesiynol er mwyn datblygu'r flaenoriaeth hon ac o fewn **hyfforddiant gwrth-hiliaeth** fod yn rhan o hyfforddiant parhaus i arweinwyr (CPCP) ond dylai hefyd fod yn rhan o'r Rhaglen Genedlaethol newydd i Ddatblygu Darpar Benaethiaid. Mae'r rhaglen ddatblygu hon sy'n flwyddyn o hyd yn cynnig cyfle dysgu proffesiynol i arweinwyr ysgolion profiadol ledled Cymru sy'n awyddus i ddod yn benaethiaid yn y dyfodol agos. Mae disgwyl i bob ymgeisydd ar gyfer y CPCP yn y dyfodol gwblhau'r rhaglen hon. Ymhlith y rhaglenni arweinyddiaeth eraill y gellid eu hystyried mae: y rhaglen i ddatblygu Arweinwyr Canol; y rhaglen i Uwch-arweinwyr; Darpar Bennaeth – paratoi ar gyfer y CPCP (caiff trefniadau asesu'r CPCP eu gweithredu gan Gonsortia Rhanbarthol ar ran Llywodraeth Cymru); y rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd eu Penodi a Phenathiaid Dros Dro; a'r rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol.

Dylai **llywodraethwyr ac uwch-arweinwyr ysgolion** ddangos eu hymrwymiad i roi'r fenter hon ar waith ac i **fonitro** ei datblygiad mewn ysgolion. Byddai trefniadau i'r Corff Llywodraethu ymgysylltu ac ymgynghori â dysgwyr yn adnodd pwerus wrth helpu i arwain Cyrff i fonitro datblygiad ysgol. Yn ein trafodaeth â llywodraethwyr ysgolion⁷⁸, gwnaethom nodi'r angen am ganllawiau, hyfforddiant ac adnoddau i rymuso llywodraethwyr ysgolion i ofyn cwestiynau hanfodol ac atgyrchol wrth iddynt fonitro arferion a blaenoriaethau'r ysgol, a'u helpu i lunio cynlluniau datblygu ysgol sy'n adlewyrchu CCS yr ysgol. Dylid cynnwys yr hyfforddiant a'r canllawiau hyn fel rhan o brosesau sefydlu a hunanwerthuso ar gyfer llywodraethwyr. Mae pob Corff Llywodraethu bellach yn defnyddio pecyn cymorth ar-lein i gynnal hunanwerthusiad o'i lywodraethwyr, sy'n canolbwyntio ar eu rôl a'u heffeithiolrwydd fel llywodraethwyr.

Dylai prosesau **hunanwerthuso rheolaidd ysgolion** gynnwys archwiliad ac ymarfer mapio o'r hyn a addysgir mewn perthynas â'r agwedd hon, a ble yn y cwricwlwm yr addysgir hyn. Bydd gwaith cynllunio clir mewn perthynas â'r cwricwlwm sy'n mabwysiadu'r syniad o linydd aur yn golygu y bydd pob MDPH yn ymgysylltu â'r flaenoriaeth hon, bod cydbwysedd wrth ddewis deunydd ac o ran pwyslais y deunydd hwnnw ac na chaiff cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch trawsgwricwlaidd sy'n adlewyrchu'r thema hon eu colli.

Argymhellion ar gamau gweithredu ar lefel ysgolion

Argymhelliad 30: Dylai ysgolion adolygu eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol (CCSau) er mwyn sicrhau eu bod yn glir, yn berthnasol a'u bod yn ymwneud â chamau gweithredu penodol, diriaethol a chyflawnadwy ar gydraddoldeb rhwng hiliau, datblygu'r cwricwlwm a dysgu. Dylent fod yn gysylltiedig â Chynlluniau Datblygu Ysgol a dylid eu hadolygu bob blwyddyn, eu diweddarau a'u cyhoeddi.

Argymhelliad 31: Dylai ysgolion gynnal adolygiadau hunanwerthuso ac archwiliadau creadigol rheolaidd i gynllunio ar gyfer gwella polisïau'r ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â chydaddoldeb rhwng hiliau ac er mwyn prif ffyrddio'r mater, a

⁷⁸ Ar 9 Hydref, aeth yr Athro Charlotte Williams OBE i un o gyfarfodydd Swyddogion Cymorth Llywodraethwyr Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru (ADEW).

dylent fonitro eu trefniadau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm yn y maes blaenoriaeth hwn.

Argymhelliad 32: Dylai arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr ysgolion a'r rheini sy'n anelu at ddod yn arweinwyr ysgolion gael cyfleoedd dysgu proffesiynol parhaus, canllawiau a hyfforddiant er mwyn creu diwylliannau cadarnhaol mewn ysgolion a chynnwys cydraddoldeb rhwng hiliau a safbwyntiau a chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fel rhan o ddull ysgol gyfan.

Argymhelliad 33: Dylai Cyrff Llywodraethu ysgolion ystyried pennu hyrwyddwr amrywiaeth er mwyn sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei hybu o lefel arweinwyr, ac y caiff ei hadlewyrchu o fewn strategaethau'r ysgol a'i harchwilio'n rheolaidd.

Argymhelliad 34: Dylid defnyddio dull ysgol gyfan mewn perthynas â dysgu proffesiynol gwrth-hiliaeth, lle bydd ysgolion yn galluogi sgysiau parhaus a dwfn fel mater o flaenoriaeth er mwyn ymdrin ag amrywiaeth fel thema drawsbynciol wrth ddatblygu'r cwricwlwm.

Argymhelliad 35: Dylai ysgolion ddatblygu rhwydweithiau gweithgar a chynaliadwy â sefydliadau, busnesau, cysylltiadau cymunedol ac unigolion ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol wrth ddatblygu'r maes blaenoriaeth hwn.

Argymhelliad 36: Dylai Consortia Rhanbarthol helpu ysgolion i drefnu sesiynau i gyfoedion neu sesiynau i ystafelloedd dosbarth fel rhan o'r trefniadau addysgu, gan helpu i gysylltu ysgolion ag amrywiaeth ethnig dwysedd isel a dwysedd uchel.

Argymhelliad 37: Dylai arweinwyr ysgolion gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ysgol eang a sgysiau dwfn, gan gynnwys rhai â disgyblion, rhieni/gofalwyr, er mwyn adolygu a gwerthuso'r datblygiad hwn a gwneud cynnydd wrth greu diwylliant ysgol gyfan cynhwysol.

Rhan 5: Camau gweithredu ar gyfer cynaliadwyedd: arweinwyr, ysgogwyr, dysgwyr

Rydym yn cychwyn ar lwybr pwysig ym maes addysg yng Nghymru. Mae cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn drobwynt pwysig yn hanes addysg yng Nghymru. Dylid croesawu ei uchelgeisiau gweddnewidiol, y cyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi a'r cyfle i fod yn fwy ymatebol i newidiadau cymdeithasol, demograffig ac economaidd mewn cymdeithas gyfoes a'u hadlewyrchu'n well.

Mae hanes ymatebolrwydd polisiau ac arferion addysgiadol i gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn llawn enghreifftiau o gamgychwyn, ymyriadau aneffeithiol ac ymrwymiad gwan⁷⁹ ac o ganlyniad, mae'r trafodaethau ar hil/ethnigrwydd ac addysg yn parhau i esgor ar bryderon, dadleuon ac i raddau helaeth, rwystredigaeth. Yn ddiau, mae'r sail dystiolaeth yng Nghymru yn nodi ffeithiau anghydraddoldeb rhwng hiliau mewn ffordd feintiol ac maent hefyd i'w clywed ym mhrofiad bywyd llawer o blant a phobl ifanc Ethnig Lleiafrifol yng Nghymru⁸⁰⁸¹⁸². Hyd yn hyn, ac ers cyfnod sylweddol o amser, ni fu modd newid y sefyllfa hon. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr her o ymdrin â'r materion hyn drwy amrywiaeth eang o gamau gweithredu, gan gynnwys, yn bwysig, y genhadaeth i roi cwricwla ar waith ledled Cymru sy'n rhoi sylw i gyfraniadau a phrofiadau grwpiau lleiafrifol, ddoe a heddiw, wrth feithrin gwybodaeth.

Mae'r Gweithgor yn ymwybodol o'r angen i awgrymu camau gweithredu cynaliadwy a fydd yn sicrhau y gellir rhoi'r genhadaeth hon ar waith wrth i ni symud ymlaen i weithredu'r cwricwlwm newydd. Mae'r gwersi a ddysgwyd o waith ymchwil ar brif-frydio cydraddoldeb⁸³ wedi nodi pwysigrwydd arweinyddiaeth gadarn (arweinwyr cadarn), eglurder a thryloywder dros fonitro ac atebolrwydd (ysgogiadau) ac, yn arwyddocaol, y broses o greu diwylliannau galluogol sy'n caniatáu i randdeiliaid dreialu, arbrosi a dysgu o fewn y ddynmeg barhaus o roi newidiadau ar waith yn gynyddol (dysgwyr). Yma, ystyriwn amrywiaeth o gamau gweithredu y bydd angen eu cymryd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol er mwyn cefnogi brwdfrydedd ac ymrwymiad athrawon ac ysgolion unigol.

Ni chaiff y newidiadau arfaethedig i'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm eu rhoi ar waith heb ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid.

⁷⁹ Tomlinson, S., 2008. *Race and education: Policy and politics in Britain*. McGraw-Hill Education (UK). Walters, S., 2012. *Ethnicity, race and education: An introduction*. Continuum.

⁸⁰ Jonathan Brentnall (2020) *Actions needed to address issues affecting Black and Mixed ethnicity school pupils – a focus on Wales*.

⁸¹ Adroddiad Adolygiad Tystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (Jason Arday 2020) Improving Race Equality in Education. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ym mis Mawrth 2021

⁸² Disgwylir i adolygiadau tystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ym mis Mawrth 2021

⁸³ Parken, A., Davies N., Minto, R. a Trenow, P., 2019. Equality Mainstreaming: Policy Development Model. Hankivsky, O., de Merich, D. a Christoffersen, A., 2019. Equalities 'devolved': experiences in mainstreaming across the UK devolved powers post-equality act 2010. *British Politics*, 14(2), tud.141-161.

Arweinyddiaeth

Trafodwyd arweinyddiaeth ar lefel ysgolion yn Rhan 4 o'r adroddiad hwn. Bydd rôl llywodraethwyr ysgolion yn hanfodol wrth oruchwylio newid ac ar lefel na fydd gan bob athro yr amser i'w ystyried, yn enwedig yn sgil y pandemig. Byddai ymgysylltu â dysgwyr drwy ymgynghori a/neu holiaduron hefyd yn darparu tystiolaeth ddiriaethol er mwyn gwella asesiadau llywodraethwyr a'u canllawiau i ysgolion. Yn ogystal, mae gan y Consortia Rhanbarthol ran sylweddol i'w chwarae o ran arweinyddiaeth.

Mae'r **pedwar Consortia Rhanbarthol** yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol yn lleol ac yn genedlaethol, ac mae ganddynt ran bwysig i'w chwarae wrth ysgogi ymrwymiad, helpu ymarferwyr i ddatblygu adnoddau effeithiol a'u rhannu a rhannu arbenigedd ac arferion da ledled Cymru. Mae ganddynt hefyd ran sylweddol i'w chwarae wrth gyfeirio ymarferwyr at wybodaeth arbennig gan ddarparwyr cenedlaethol neu leol, mae pob Consortia Rhanbarthol yn helpu ymarferwyr i ddefnyddio Hwb ac amrywiaeth o adnoddau ychwanegol i gefnogi dysgu.

Dylai'r Consortia Rhanbarthol ddatblygu fel mater o flaenoriaeth faes ffocws a rhwydwaith trawsgwricwlaidd penodol ar *Wrth-hiliaeth mewn Addysg ar gyfer Amrywiaeth* yn y cwricwlwm newydd er mwyn hybu arferion da a rhannu adnoddau. Mae nodi **Llysgenhadon** i lywio'r gwaith hwn a gweithredu fel cyfrwng cyfathrebu rhwng rhanbarthau yn system a dreialwyd yn llwyddiannus gan y Comisiynydd Plant⁸⁴. Gellid llunio cynllun o'r fath i ddatblygu'r ffocws hwn a chyflawni mewn perthynas â'r ffocws hwn yn ystod y broses o weithredu'r cwricwlwm newydd a thu hwnt i'r broses honno, ac i alluogi gwaith monitro a gwerthuso hanfodol o ran cynnydd mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon. Mae'r Gweithgor o blaid sefydlu **Gweithgor ar draws y Consortia Rhanbarthol**, sy'n gyfrifol am hybu, monitro a gwerthuso'r maes blaenoriaeth hwn.

Bydd gwaith ymgysylltu parhaus tîm Cwricwlwm ac Asesu Llywodraeth Cymru â Phenaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr drwy'r Consortia Rhanbarthol yn bwysig wrth ddatblygu'r thema hon a sicrhau ei chynaliadwyedd drwy gydol y cyfnod gweithredu a thu hwnt. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y bydd yn datblygu system gadarn er mwyn galluogi deialog parhaus a manwl ar newidiadau trawsnewidiol yn y maes blaenoriaeth hwn, gan ragweld nodweddion llwyddiant yn y maes hwn a'u rhannu.

Mae **proffil Arweinyddiaeth Ysgolion** hefyd yn peri pryder i'r Gweithgor. Ar hyn o bryd, mae data Cyngor y Gweithlu Addysg yn nodi⁸⁵ mai dim ond 15 o'r holl bennaethiaid ac arweinwyr gweithredol yn y system addysg yng Nghymru sy'n dod o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac o'u plith, dim ond saith pennaeth neu bennaeth gweithredol mewn swydd y gwyddys eu bod yn dod o gefndiroedd ethnig nad ydynt yn wyn, ac nid oedd yr un o'r rhain yn Ddu nac yn Ddu Prydeinig. Mae'r Gweithgor yn cymeradwyo'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg wrth gynnig newidiadau sydd â'r nod o gynyddu amrywiaeth penaethiaid a datblygu llwybr i swyddi uwch-arweinwyr i unigolion o gefndiroedd lleiafrifol.

⁸⁴ Comisiynydd Plant Cymru Cynlluniau Llysgenhadon i ysgolion a grwpiau cymunedol
<https://www.complantcymru.org.uk/ein-cynlluniau/>

⁸⁵ Ffeithlun Ffeithiau Allweddol: Amrywiaeth Ethnig mewn Ysgolion
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-12/amrywiaeth-ethnig-mewn-ysgolion.pdf>

Ysgogwyr

Cyllid

Gall diffyg cyllid ac adnoddau i hyrwyddo'r flaenoriaeth hon danseilio unrhyw ymrwymiad i wneud hynny. Mae'r lefel cyllid cyffredinol bresennol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn gofyn am ddyraniad penodol wedi'i neilltuo er mwyn ymgymryd â'r gwaith hwn fel un o flaenoriaethau'r cwricwlwm newydd. Mae ymgynghoriad y Gweithgor ag ysgolion yn nodi bod y swm a neilltuwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Dysgu Proffesiynol, sef £31 miliwn, pan gaiff ei ddyrannu i ysgolion unigol, yn fach ac ni fydd yn sicrhau y gellir rhyddhau athrawon cyffredin am gyfnodau penodedig i ymgymryd â hyfforddiant neu roi'r amser iddynt ddatblygu'r cwricwlwm mewn ffordd greadigol. Dylid annog ymdrechion i gydgyhyrchu deunyddiau a bydd angen i athrawon ymgysylltu â datblygwyr addysgol, academyddion a'r rheini â phrofiad bywyd wrth ddatblygu eu cwricwlwm. Dylai'r llywodraeth ystyried neilltuo cronfeydd penodedig er mwyn helpu i ddatblygu'r maes blaenoriaeth hwn.

Mae sawl sefydliad yn chwarae rhan weithredol wrth ymgysylltu ag addysgu themâu hanes a chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol y gellid eu cynnwys er mwyn datblygu cyfleoedd dysgu i'w rhannu ag ysgolion a'r Consortia Rhanbarthol. Mae llawer o grantiau bellach yn dibynnu ar weithio mewn partneriaethau, ac felly mae angen i sefydliadau o bob math estyn allan i bartneriaid newydd. Teimlwyd y gallai ysgolion wneud hyn mewn perthynas ag amrywiaeth o brosiectau a mentrau. Awgrymwyd hefyd y gallai'r Consortia Rhanbarthol ystyried ffynonellau cyllid posibl eraill yn eu rhanbarth a allai gefnogi gwaith arloesol yn y maes hwn, gan gyflawni hynny drwy ddatblygu partneriaethau.

Rôl Estyn

Estyn yw'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant i Gymru. Mae'n darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaethau o ran ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru, yn llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru ac yn meithrin gallu er mwyn gwella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Yn ogystal ag arolygu, mae Estyn yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ac yn ei harwain mewn perthynas ag ansawdd a safonau. Caiff ei hadroddiadau thematig eu comisiynu gan y Gweinidog Addysg.

Mae deddfwriaeth yn nodi pwerau Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys beth y gall neu y mae'n rhaid i Estyn ei arolygu a chyflwyno adroddiadau arno. Wrth arolygu profiadau addysgu a dysgu darparwr, mae arolygwyr yn ystyried *'y ffyrdd y mae'r ysgol yn datblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu natur cyd-destun yr ysgol yn llwyr, gan gynnwys cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru ac ardal leol yr ysgol.'*⁸⁶

⁸⁶ Llawlyfr arweiniad Estyn ar gyfer arolygu ysgolion pob oed

https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Guidance%2520handbook%2520for%2520the%2520inspection%2520of%2520all-age%2520schools%2520-%25202019%2520cy_0.pdf

Fel yr Arolygiaeth, mae Estyn yn darparu amrywiaeth o ddogfennau arweiniad i Arolygwyr i'w helpu i gynnal eu hadolygiadau⁸⁷, gan gynnwys ystyried **Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol** a sut mae pob ysgol yn cyflawni ei hamcanion cydraddoldeb. Caiff hyfforddiant perthnasol i arolygwyr ysgolion a gwell fframweithiau ar gyfer ystyried sut mae ysgolion yn cyflawni eu dyletswyddau statudol eu hadlewyrchu yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Estyn ar gyfer 2020-24 a fydd, os caiff ei roi ar waith yn llwyddiannus, yn sicrhau prosesau gwerthuso gwell mewn ysgolion.

Caiff ysgolion eu hannog gan Estyn i gynnal hunanwerthusiadau, gan fabwysiadu diwylliant parhaus o adolygu mewnol a hunanwella yn hytrach na chyflwyno adroddiadau blynyddol unigol, fel y trafodir yn Rhan 4 o'r adroddiad hwn. Gall fod angen mwy o arweiniad a chymorth ar ysgolion i ddatblygu eu CCSau a'u cynlluniau ysgol ac i gyflwyno amrywiaeth fel maes blaenoriaeth. Mae'r Gweithgor yn cynnig dull gweithredu dau gam ar gyfer monitro'r thema hon wrth i ni symud ymlaen i'r cam gweithredu.

Yn ystod y cam cyntaf – fel menter ar lefel genedlaethol, hoffai'r Gweithgor weld prosiect peilot '*gwaith sy'n mynd rhagddi*' yn cael ei gynllunio a'i ddatblygu, wedi'i ysgogi gan Lywodraeth Cymru a'i gynnal gan Estyn, ac wedi'i anelu at adolygu cynnydd ysgolion wrth integreiddio trefniadau amrywio'r cwricwlwm sy'n adlewyrchu'r thema hon ac adolygu pa fathau o gymorth a chyngor pellach y gall fod eu hangen er mwyn parhau â'r gwaith yn y maes hwn. Byddai'r adolygiad galluogol hwn yn darparu cefndir ar gyfer adolygiad thematig llawn y cynigiwn y dylai Llywodraeth Cymru ddechrau arno o fewn pum mlynedd i weithredu'r cwricwlwm newydd fan bellaf, hynny yw 2026-27.

Trefniadau adolygu parhaus ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn nodi y "Bydd yn ofynnol i ysgolion barhau i adolygu eu cwricwlwm er mwyn iddyn nhw allu ymateb i allbynnau ymholiad proffesiynol, anghenion newidiol dysgwyr a chyd-destunau ac anghenion cymdeithasol." Wrth adolygu eu darpariaeth gwricwlaidd, dylai ysgolion sicrhau y caiff egwyddorion amrywiaeth, a themâu, profiadau a chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol eu cynnwys yn gynyddol. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru wrth iddi adolygu fframwaith y Cwricwlwm Cenedlaethol i Gymru wrth symud ymlaen. Dylai unrhyw newidiadau arfaethedig i gynnwys Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar unrhyw adeg yn y dyfodol anelu at gynyddu'n sylweddol y gofyniad i ysgolion gynnwys cyfraniadau a phrofiadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y cwricwlwm a weithredir ganddynt.

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

Ymrwymodd y Dirprwy Weinidog i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru ym mis Mawrth 2020, yn dilyn ceisiadau gan y sector hil ac adborth a roddwyd drwy ymgynghoriad blaenorol ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru, a gynhaliwyd ar ddiwedd 2019. Mae'r weledigaeth, y diben a'r gwerthoedd fel a ganlyn:

⁸⁷ Arweiniad Arolygu Estyn <https://www.estyn.llyw.cymru/y-broses-arolygu/arweiniad-arolygu>

Gweledigaeth: “Cymru sy'n wrth-hiliaeth erbyn 2030”

Diben: “Gwneud newidiadau ystyrlon a mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol drwy fynd i'r afael â hiliaeth”

Gwerthoedd: “Mae bod yn agored ac yn dryloyw, gweithredu'n seiliedig ar hawliau a phrofiad bywyd yn greiddiol i unrhyw bolisiau a wneir”

Fel rhan o'r Cynllun, bydd yn rhaid i arweinwyr polisi o bob rhan o Lywodraeth Cymru ddatblygu nodau a champau gweithredu lefel uchel a chyflawni yn eu herbyn. Mae'r gwaith a wneir gan y grŵp hwn yn hanfodol i nodau a champau gweithredu addysg y cynllun sy'n cynnwys tair thema eang, sef dysgu proffesiynol, y cwricwlwm a phrofiad dysgwyr. Bydd dysgu proffesiynol yn cefnogi staff ysgolion drwy hyfforddiant gorfodol er mwyn ategu camau gweithredu tuag at bolisi gwrth-hiliaeth, cydraddoldeb a thegwch ysgolion. Bydd y polisi yn datblygu ac yn ategu dealltwriaeth o wrth-hiliaeth, cydraddoldeb, tegwch ac amrywiaeth fel elfen graidd ym mhob maes dysgu, drwy'r holl gamau cynnydd, er mwyn cael effaith gynyddol ar wybodaeth, sgiliau a phrofiad dysgwyr.

Dysgwyr: Y diwylliant galluogol

Mae datblygiadau arloesol a thrawsnewidiadau yn digwydd o fewn diwylliannau lle ceir arferion gwaith sy'n caniatáu i unigolion arbrofi a dysgu. Mae gwaith blaenllaw yng Nghymru i hybu arferion cydraddoldeb yn seiliedig ar waith ymchwil Alison Parken sy'n dadlau o blaid modelau dysgu atgyrchol sy'n dod ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ynghyd ac yn gwerthfawrogi'r rhanddeiliaid hynny fel rhan o'r broses newid. Caiff rhieni/gofalwyr, disgyblion, athrawon, arweinwyr ysgolion, grwpiau cymunedol, gwneuthurwyr polisi ac academyddion eu cynnwys wrth greu'r diwylliant galluogol hwn. Mae gwaith Parken yn dadlau'r canlynol – *‘reflexive learning models require sufficient capacity and resource to foster movement from monitoring and compliance-focussed behaviours which... can hide challenges and realities, towards a learning culture’* (2018 tud. 4). Bydd angen amser a chyfleoedd ar ymarferwyr addysgu i ymgysylltu â dysgu atgyrchol o'r fath, i weithio gydag eraill ar weledigaeth o newid ac i ystyried nodweddion llwyddiant yn eu maes pwnc.

Gall digwyddiadau, dyfarniadau a gwobrau cenedlaethol gefnogi'r momentwm a chynig enghreifftiau, symbolau a nodau llwyddiant i hybu arferion da. Mae papurau gwyntyllu, digwyddiadau a chydweithrediadau â newyddiadurwyr oll yn awgrymu bod potensial i hybu negeseuon cadarnhaol a rhannu arferion da ledled Cymru.

Mae'n amserol ystyried pa gyfleoedd sydd ar gael o ran cyllid ac o ran creu deunyddiau newydd mewn partneriaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid. Clywodd y Gweithgor awgrymiadau y gellid cyfuno/ailysgrifennu testunau sy'n bodoli eisoes i oedolion i'w gwneud yn hygyrch i blant a phobl ifanc. Clywsom gan ymarferydd addysgu a oedd yn paratoi llyfr o safbwynt plentyn ar effaith hiliaeth a'r anawsterau a gafodd wrth ymdrin yn effeithiol â'r materion mewn ysgolion. Gallai Gwasg Prifysgol Cymru neu wasg arall yng Nghymru gefnogi mentrau o'r fath.

Gwerthuso

Mae'r Cwricwlwm i Gymru: Cynllun Gweithredu⁸⁸ yn rhoi syniad o'r effeithiau a'r prosesau a fydd yn rhan o'r gwaith gwerthuso. Yn ogystal â sut mae ysgolion unigol yn bwrw ati â'r maes blaenoriaeth hwn, mae'r camau gweithredu hyn hefyd yn ymwneud â chodi cwestiynau eang am effaith y cwricwlwm newydd ar y gymdeithas gyfan. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n dechrau datblygu ei phroses werthuso ar gyfer y cwricwlwm newydd ac yn cynnal astudiaeth gwmpasu i gyfleu'r ddamcaniaeth, y tybiaethau, y dystiolaeth a'r parodrwydd sy'n sail i'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm a threfniadau asesu a bydd yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu argymhellion ar gyfer rhaglen monitro a gwerthuso gadarn. Byddai'r grŵp yn awyddus i'r broses o addysgu themâu sy'n gysylltiedig â chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gael ei chynnwys yn y broses werthuso hon.

Fel Gweithgor, byddem yn hoffi gweld Llywodraeth Cymru yn ystyried sgwrs genedlaethol ar gynnydd yn erbyn y maes blaenoriaeth hwn. Byddai'n ddefnyddiol adolygu profiad ysgolion wrth ddatblygu eu cwricwlwm a'r broses o ddatblygu egwyddorion y gellid ystyried y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig yn eu herbyn.

Astudiaeth Achos 10

Darparwr: Ysgol Gynradd Hafod

Arfer effeithiol: Mae ethos a diwylliant cynhwysol yn hybu cyfranogiad effeithiol gan ddisgyblion

Cyd-destun: Mae Ysgol Gynradd Hafod yn gwasanaethu hen ardal ddiwydiannol yn agos at ganol dinas Abertawe. Mae'r ysgol mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf, ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae ychydig dros dwy ran o bump o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r disgyblion yn siarad 15 o wahanol ieithoedd, a'r iaith fwyaf cyffredin yw Sylheti.

- Mae Ysgol Gynradd Hafod, Abertawe, wedi datblygu **fframwaith o werthoedd i hybu dinasyddiaeth, goddefgarwch ac amrywiaeth**. Caiff y disgyblion eu haddysgu i barchu hawliau pob unigolyn.
- Mae gan yr ysgol **amrywiaeth arloesol o grwpiau llais disgyblion** fel y 'criw gofalgar', y sgwad iechyd a diogelwch, y **grŵp parchu hawliau** a'r grŵp cyfranogiad disgyblion.
- Mae **disgyblion hŷn yn cyfrannu at benderfyniadau a wneir** ac yn helpu i bennu cyfeiriad strategol yr ysgol.

⁸⁸ Cwricwlwm i Gymru: Cynllun Gweithredu <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-i-gymru-cynllun-gweithredu>

- Mae gan y disgyblion ran i'w chwarae wrth werthuso cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r **disgyblion yn cyfrannu at ddatblygu polisiau**, ac yn llunio prosiectws i ddarpar ddisgyblion newydd.

Mentrau ehangach

Bydd **ymgysylltu ag amrywiaeth eang o fentrau** sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd yn helpu i gyflwyno'r maes blaenoriaeth hwn, er enghraifft:

Bu is-grŵp Addysg **Menywod mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (WiSTEM)** yn gefnogol iawn o waith y Gweithgor mewn perthynas â'r cwricwlwm. Mae rhaglenni a phrosiectau cyllido WiSTEM o dan adain Llywodraeth Cymru (sydd oll yn cynnwys cydraddoldeb rhwng y rhywiau) wedi croesawu'r cyfle i ystyried sut y gellid cynnwys cynrychiolaeth o blith pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae'r rhaglenni a'r prosiectau hyn yn cynnwys Techniquet, X-Plore!, Technocamps, y Rhwydwaith Ysgogi Ffiseg, y Rhaglen Cymorth Mathemateg Bellach, y Rhaglen Mentora Ffiseg a'r Rhaglen Gwella Cydbwysedd Rhyw. Yn ogystal, bu aelod o'r Gweithgor yn helpu WiSTEM i ddatblygu holiadur STEM i ddisgyblion o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Bydd gwaith ymgysylltu parhaus â gwaith yr is-bwyllgor addysg yn ehangu effaith canfyddiadau'r Gweithgor hwn.

Mae **Cyngor Celfyddydau Cymru** wedi gweithio'n agos gyda'r grŵp ers mis Hydref 2020 i gynllunio cynnig, a fyddai'n defnyddio dull dysgu creadigol i ystyried profiadau a chyfraniadau amrywiol pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru, ddoe a heddiw. Gweithiodd dau aelod o'r grŵp gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i greu cynllun y prosiect, afydd yn gwahodd artistiaid ac ymarferwyr creadigol sydd â'r profiad bywyd a fydd yn sicrhau 'cyfleoedd dysgu dilys sy'n cysylltu agweddau ar y cwricwlwm ac yn gwneud cysylltiadau â bywyd bob dydd' i ymweld ag ysgolion penodol. Bydd y prosiect hefyd yn creu rhwydwaith o ysgolion, o ranbarthau'r pedwar Consortia, a gaiff eu cefnogi i ddatblygu dulliau arloesol o lunio a chyflwyno prosiectau cydweithredol creadigol sy'n canolbwyntio ar ystyried *cynefin* yng nghydestun hanes a datblygiad Cymru fel cymdeithas amlddiwylliannol. Bydd yr ysgolion yn hyn yn dod yn gatalydd ar gyfer newid, gan rannu arferion gorau ym mhob rhan o'r sector.

Prosiect **Cyngor y Gweithlu Addysg** ar Amrywiaeth yn y Gweithlu Addysg. Mae aelodau'r Gweithgor hwn yn ymrwymedig i ymgysylltu â phroses barhaus y gwaith hwn ac i annog ymdrechion i fabwysiadu'r 42 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad⁸⁹.

Bydd yr **Adolygiad o Hanes Cymru** sy'n cael ei gynnal gan Estyn ac y disgwylir adroddiad yn ei gylch eleni yn cynnwys canfyddiadau pwysig mewn perthynas ag addysgu hanes pobl Ddu⁹⁰. Mae Estyn wrthi ar hyn o bryd yn llunio adroddiad

⁸⁹ Disgwylir i adroddiad Cyngor y Gweithlu Addysg *Ethnic Minority Representation within the School Workforce in Wales Phase 2 report* gael ei gyhoeddi yn ystod 2021

⁹⁰ Estyn (Liz Counsell, Tachwedd 2019) 'Syr, beth oedd glo?' *A yw ysgolion yn addysgu'n ddigon da am hanes a diwylliant Cymru?* <https://www.estyn.llyw.cymru/blog/syr-beth-oedd-glo-yw-ysgolion-yn-addysgun-ddigon-da-am-hanes-diwylliant-cymru>

thematig ar hanes Cymru a hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn ysgolion. Bydd yr adolygiad yn asesu sut y caiff amrywiaeth ei haddysgu mewn ysgolion ac yn ystyried a yw'r hanes a gaiff ei addysgu mewn ysgolion yn cynrychioli holl gymunedau Cymru a'u cysylltiadau rhyngwladol. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried hanes, hunaniaeth a diwylliant Cymru a hanes, hunaniaeth a diwylliant ehangach pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Fel rhan o'u hymarfer casglu tystiolaeth, bydd arolygwyr yn ymgysylltu â disgyblion o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn amrywiaeth o ysgolion ledled Cymru. Bydd safbwyntiau'r disgyblion hyn yn rhan o sail dystiolaeth yr adroddiad.

Mae **ymgyngoriad Cymwysterau Cymru**, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd⁹¹, yn gofyn am sylwadau ar y pynciau TGAU y dylid eu cynnig yn y dyfodol. Yn amlwg, mae hyn yn cynnig cyfleoedd i gyflwyno cyd-destun newydd i ddysgu, i ailwampio pob maes pwnc ac i gyflwyno themâu newydd mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad. Gallai'r broses o ddiwygio'r portffolio TGAU geisio bwrw ati'n uniongyrchol i gynnwys yn benodol faterion sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb, dinasyddiaeth a dysgu dinesig mewn perthynas â gwrth-hiliaeth, hanes, profiadau a safbwyntiau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyfredol, bydd ymgynghoriad pellach yn ddiweddarach yn 2021 yn gofyn cwestiynau am ba gynnwys y dylai cymwysterau TGAU ei gwmpasu a sut y dylid eu hasesu.

Mae'r Gweithgor yn awyddus i themâu, cyfraniadau a phrofiadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gael eu hintegreiddio'n benodol wrth ailddylunio meini prawf asesu, ac i Amrywiaeth gael sylw penodol fel thema drawsbynciol ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad. Mae'r Gweithgor o'r farn bod parhau i gymryd rhan yn y broses ymgynghori hon yn hollbwysig er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ei waith.

Mae llawer o gyfleoedd eraill i ymestyn paramedrau prosiectau sy'n bodoli eisoes er mwyn rhoi sylw i bryderon pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae gwaith gan Gyngor Chwaraeon Cymru, Undebau, y Comisiynydd Plant a mwy⁹² yn awgrymu bod cyfleoedd i gydweithio ac i gynnwys gwaith traws-sector. Bydd prif-ffrydio'r thema hon a phryderon i fentrau eraill sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r cwricwlwm yn sicrhau cynaliadwyedd y ffocws hwn.

Anghenion ymchwil

Er bod y sail ymchwil ar anghydraddoldeb addysgol yn gadarn yng Nghymru, mae'n amlwg o adolygiad tystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru o addysg bod bylchau sylweddol yn y sail wybodaeth. Edrychodd y Gweithgor hwn am dystiolaeth galed o'r hyn a oedd yn cael ei addysgu ar hyn o bryd o ran pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ym mhob rhan o'r cwricwlwm ac ar draws grwpiau blwyddyn. Er enghraifft, sut roedd ysgolion braenaru ac ysgolion arloesi yn ymdrin â'r pryderon hyn? Roedd yn anodd cadarnhau hyn. Nid oedd unrhyw dystiolaeth galed, boed yn feintiol neu'n ansoddol, o'r hyn yr oedd darparwyr AGA yn ei ddarparu yn hyn o beth. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o ba fodolau Dysgu Proffesiynol a ddefnyddir ym maes

⁹¹ Ymgynghoriad Cymwysterau Cymru 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol', 2021

<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwys-ar-gyfer-y-dyfodol---dweud-eich-dweud/>

⁹² Adolygiad o'r Cwricwlwm Amrywiaeth a Dinasyddiaeth

https://dera.ioe.ac.uk/6374/7/DfES_Diversity_%26_Citizenship_Redacted.pdf

Addysg ar gyfer Amrywiaeth yng Nghymru a thu hwnt i dystiolaeth anecdotaidd, ac nid oedd unrhyw ddarlun clir o'r rhwystrau gweithredu presennol neu rwystrau gweithredu posibl. Nododd ein hymgyngoriadau broblemau sylweddol i staff addysgu Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac mae angen ymchwilio'n fwy trylwyr iddynt. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru ar CCSau ysgolion yn awgrymu bod angen ymchwilio ymhellach i'r sefyllfa ledled Cymru, ei monitro a'i hadolygu. Yn ogystal, wrth i ni symud ymlaen i'r cam gweithredu, bydd angen casglu tystiolaeth o ba mor dda y mae ysgolion yn ymateb i'r flaenoriaeth hon.

Argymhellion ar gamau gweithredu ar gyfer cynaliadwyedd

Argymhelliad 38: Dylai Consortia Rhanbarthol ddatblygu fel mater o flaenoriaeth faes ffocws a rhwydwaith trawsgwricwlaidd penodol ar *Addysg ar gyfer Amrywiaeth* yn y cwricwlwm newydd er mwyn hybu arferion da a rhannu adnoddau⁹³.

Argymhelliad 39: Dylai Consortia Rhanbarthol fabwysiadu cynllun Cenhadon i ddatblygu'r ffocws hwn a chyflawni mewn perthynas â'r ffocws hwn yn ystod y broses o weithredu'r cwricwlwm newydd a thu hwnt i'r broses honno, ac i ysgogi'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm a galluogi gwaith monitro a gwerthuso hanfodol o ran cynnydd mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon. Gallai'r Cenhadon hyn fod yn rhan o Weithgor ar draws y Consortia Rhanbarthol, sy'n gyfrifol am hybu, monitro a gwerthuso'r maes blaenoriaeth hwn.

Argymhelliad 40: Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Rhwydwaith Cenedlaethol newydd i alluogi deialog parhaus a dwfn â Phenaeithiaid a llywodraethwyr ysgolion ar hyrwyddo newidiadau trawsnewidiol yn y maes blaenoriaeth hwn.

Argymhelliad 41: Dylai Awdurdodau Lleol, Consortia Rhanbarthol ac ysgolion ddatblygu partneriaethau effeithiol ag amrywiaeth o sefydliadau, er mwyn cefnogi gwaith ac ystyried ffynonellau cyllid ehangach i gefnogi gwaith yn y maes blaenoriaeth hwn.

Argymhelliad 42: Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu Estyn o fewn tair blynedd i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith i gynnal adolygiad rhagarweiniol wedi'i anelu at ystyried sut mae ysgolion yn dechrau datblygu cwricwla sy'n adlewyrchu thema drawsbynciol amrywiaeth a pha fathau o gymorth pellach y gall fod eu hangen arnynt. Mae'r Gweithgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad thematig llawn o fewn pum mlynedd.

Argymhelliad 43: Estyn i adolygu ac adrodd ar sut mae ysgolion yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n rhoi sylw i amrywiaeth ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad, a hyrwyddo rhannu arferion da drwy astudiaethau achos ac adroddiadau thematig.

⁹³ Dylid nodi y cyflwynwyd argymhelliad 38 yn yr adroddiad interim

Argymhelliad 44: Creu categori newydd ar gyfer ysgolion yng Ngwobrau Addysgu Cymru'r Dyfodol er mwyn hybu cynnwys hanes/cyfraniadau/profiadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar draws pob pwnc mewn ysgolion⁹⁴.

Argymhelliad 45: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y caiff datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig sy'n ymwneud â'r maes blaenoriaeth hwn eu hatgyfnerthu a'u datblygu ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad er mwyn adlewyrchu'r sylw parhaus i'r thema hon, a'u haddasu'n unol â'r cynnydd a wneir mewn ysgolion.

Argymhelliad 46: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Undebau gan anelu at ymdrin â'r materion sy'n wynebu staff addysgu Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gan gynnwys eu profiadau o wahaniaethu, cael eu gorlethu a diffyg arweiniad mewn perthynas â chynnydd.

Argymhelliad 47: Dylai Cymwysterau Cymru ystyried ffyrdd priodol o gefnogi amrywiaeth wrth gynllunio cymwysterau, wrth iddo ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gynnwys pwnc a pharmedrau cynllunio cymwysterau TGAU yn benodol i Gymru.

Argymhelliad 48: Dylai Cymwysterau Cymru weithio'n agos gyda chyrff dyfarnu er mwyn sicrhau, lle y bo'n briodol, bod y manylebau ar gyfer cymwysterau sy'n benodol i Gymru yn adlewyrchu addysg ar gyfer amrywiaeth.

Argymhelliad 49: Dylai Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ymrwymo i gefnogi datblygiad Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol (CCSau) a monitro eu heffeithiau.

Argymhelliad 50: Dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ystyried cyllid fel blaenoriaeth ar gyfer yr anghenion ymchwil sy'n deillio o'r maes blaenoriaeth hwn yn y cwricwlwm newydd.

Argymhelliad 51: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y broses ar gyfer gwerthuso'r cwricwlwm newydd yn ymdrin ag addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'u profiadau ym mhob rhan o gwricwlwm yr ysgol.

⁹⁴ Dylid nodi y cyflwynwyd argymhelliad 44 yn yr adroddiad interim.

Rhan 6: Sylwadau i gloi

Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y camau gweithredu sydd eu hangen i wella'r broses o addysgu themâu a phrofiadau sy'n gysylltiedig â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac i sicrhau eu bod yn rhan annatod o bob maes dysgu a phrofiad yn y cwricwlwm newydd. Mae'r adolygiad wedi nodi bod angen dull gweithredu mwy systematig mewn perthynas â dewis a choladu adnoddau ac mewn perthynas â sicrhau mynediad i'r adnoddau hyn i ymarferwyr addysgu drwy ddulliau atgyfeirio a gwell systemau cyfeirio a bod angen cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol cadarn ar bob lefel o'r gweithlu addysg er mwyn cefnogi a galluogi'r ymdrech hon.

Fel rhan o'r datblygiad hwn, mae'n amlwg y bydd angen ymgymryd â gwaith i newid ffyrdd o feddwl ac arferion sefydledig ac i ddatblygu diwylliannau newid cadarnhaol, yn hytrach na dim ond ymateb i ddiffyg gwybodaeth. Mae hyn yn awgrymu bod angen cwestiynu'r agweddau a'r gwerthoedd sy'n sail i gymhwysedd, a'r ymrwymiad a'r parodrwydd i newid. Mae cysgod agweddau hiliol a senoffobig, boed yn ymwybodol neu'n ddiarwybod, yn rhwystr sylweddol i newid. Felly, mae'n rhaid i graidd y gwaith hwn fod yn seiliedig ar arferion a champau gweithredu gwrth-hiliaeth cadarn a rhaid iddo gael ei osod o fewn strategaeth gyffredinol y llywodraeth i sicrhau *'Cymru sy'n wrth-hilaeth erbyn 2030'*.

Ni all addysg ar ei phen ei hun ddod â'r anghydraddoldeb systemig rhwng hiliau a welir ac a brofir ym mhob maes polisi cymdeithasol ledled Cymru i ben, ond mae'n faes newid sylweddol ac mae'n hanfodol er mwyn datblygu dinasyddion egwyddorol a gwybodus y dyfodol.

Mae'r adolygiad hwn wedi cydnabod yr heriau presennol o ran newid, gan gynnwys effaith pandemig COVID-19. Ar yr union adeg y mae ysgolion a'u rhanddeiliaid partner yn bwrw ati i weithredu'r cwricwlwm newydd fel rhan o'r daith tuag at 2022, maent hefyd yn gorfod ymdopi â'r heriau digynsail sy'n gysylltiedig â'r feirws. Bydd angen amser a chyfleoedd ar arweinwyr ysgolion a staff addysgu i'w galluogi i ymgysylltu'n briodol â'r arloesedd y mae'r ffocws hwn yn ei awgrymu. O dan bwysau o'r fath, mae'n bwysig cofio nad bloc o gynnwys arall i'w 'ychwanegu' neu wybodaeth drosglwyddol ydyw, ond ei fod yn seiliedig ar ddull gweddnewidiol sy'n adlewyrchu uchelgais y Cwricwlwm i Gymru i *'ymarferwyr feddwl o'r newydd ynghylch yr hyn maen nhw'n ei addysgu, sut y maen nhw'n addysgu a'r hyn rydym eisiau i bobl ifanc fod yn ogystal â dysgu'*.

Nid ydym yn cyflwyno achos arbennig ychwaith o blaid y rheini o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, ond yn hytrach o blaid yr egwyddor sylfaenol sy'n cydnabod hawl *pob plentyn* yng Nghymru i gael cyfleoedd i gyfoethogi ei sail wybodach ac i adlewyrchu'r amrywiaeth eang o hanes a chyfraniadau sydd wedi llywio Cymru. Ni waeth beth fo'u hardal leol, ni waeth beth fo proffil demograffig y gymdogaeth, mae plant a phobl ifanc ledled Cymru yn haeddu addysg sy'n sicrhau eu hurddas, eu cyfiawnder a'u hawliau ac addysg lle y cânt hwy eu hunain a'r amrywiaeth o fewn Cymru eu hadlewyrchu mewn ffordd gadarnhaol; addysg lle y gall pawb ragweld eu dyfodol.

Mae'r broses weithredu yn hollbwysig. Mae pob un ohonom yn y gymuned addysg a'n rhanddeiliaid allweddol yn gyfrifol am roi'r newidiadau a gynigir yn yr adolygiad

hwn ar waith. Mewn cwricwlwm sy'n awtonomaidd i raddau helaeth, yn yr un ffordd ag y ceir digon o gyfleoedd ar gyfer dihidrwydd, tuedd ac osgoi, ceir hefyd ddigon o gyfleoedd i arloesi, i ymgysylltu mewn ffordd llawn dychymyg ac i fod yn greadigol. Mae'n amlwg bod cyfle pwysig yma i ddatblygu llwybr newydd, un a fydd yn bwysig i bob plentyn yng Nghymru, gan gynnwys y rheini o gefndiroedd lleiafrifol, nawr ac yn y dyfodol, ac un a fydd, yn y pen draw, o fudd i'r gymdeithas gyfan.

Atodiad A: Enghreifftiau o adnoddau

Wrth i'r grŵp fwrw ati â'i waith, cafodd llawer o argymhellion o ran adnoddau. Isod nodir detholiad o rai o'r adnoddau hynny.

Ni all y grŵp gymeradwyo unrhyw rai o'r adnoddau hyn yn unigol, gan nad oedd digon o amser ar gael iddo eu hadolygu.

Cafodd yr adnoddau i gefnogi'r broses o addysgu themâu Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a gynhelir ar Hwb eu cynnwys fel atodiad i'r adroddiad interim⁹⁵.

- Y Gyfnewidfa Treftadaeth a Diwylliant, Tiger Bay a'r Byd <https://www.tigerbay.org.uk/>
- Archif y Gyfnewidfa Treftadaeth a Diwylliant https://www.hcearchive.org.uk/items/browse?sort_field=Dublin+Core%2CTitle
- Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig yng Nghymru, Casgliad y Werin Cymru <https://www.casgliadywerin.cymru/learn/black-asian-and-minority-ethnic-bame-history-wales>
- Adnoddau Black History Cymru <https://bhmwales.org.uk/links-resources/>
- Y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd, Abertawe, Prosiect Pontio'r Cenedlaethau <https://africancommunitycentre.org.uk/projects/windrush-intergenerational-project/>
- Colonial Countryside <https://www.nationaltrust.org.uk/features/colonial-countryside-project>
- Black History Stories Cymru <http://www.spanglefish.com/welshblackhistorystories/index.asp>
- Cronfa ddata o'r unigolion a gafodd iawndal ar ôl datgaethiwo caethweision yn yr 1830au <https://www.ucl.ac.uk/lbs/>
- The Remarkable Reverend William Hughes and the African Institute of Colwyn Bay <https://www.youtube.com/watch?v=kN9WdVfj4bE>
- Adnoddau a gynlluniwyd gan y Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid⁹⁶ yn seiliedig ar ymwybyddiaeth o amrywiaeth <http://ymw.eyst.org.uk/resources.php>
- Gwefan Fforwm Athrawon Hanes Du Cymru <http://www.spanglefish.com/wbhtf/>
- Learning Links <http://learninglinksinternational.com/>
- Yasus Afari, Bardd Perfformio, Awdur, Entrepreneur a Llysgennad ar ran Hanes Rastafari a Hanes a Rennir <http://www.yasusafarionline.com/>
- Prosiectau Mis Hanes Pobl Dduon yng Ngogledd Cymru www.bhmnw.com
- Cymdeithas Jamaica Gogledd Cymru www.nwjonline.com

⁹⁵ Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd: adroddiad interim <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-11/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaind-lleiafrifoedd-ethnig-cwricwlwm-newydd-adroddiad-interim.pdf>

⁹⁶ Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru <http://eyst.org.uk/>

- Gwefan goffa Enrico Stennett www.enricostennett.com
- Dolen Jamaica Cymru www.jamaicawalesalliance.com
- Prosiect Barddoniaeth Jamaica Cymru www.spanglefish.com/jamry
- Prosiect Pennants www.spanglefish.com/pennantsproject
- 'Cut me loose', rhaglen ddogfen ar Gymru a chaethwasiaeth vimeo.com/search?q=Cut+me+loose+-+Wales+and+Slavery
- Erthygl ar William Hall, hanes bywyd cyhoeddedig caethwas a ddihangodd ac un o drigolion Caerdydd o 1862 <https://scolarcardiff.wordpress.com/2020/08/06/a-unique-piece-of-wales-black-history-from-cardiff-university-goes-online-william-halls-slavery-narrative/>
- Prosiect O Wlan i Siwgr <https://www.peoplescollection.wales/story/1376641#:~:text=%22O%20Wlan%20%20Siwgr%20%2F%20From%20Sheep%20to,woven%20woollen%20cloth%20%28brethyn%29%20between%201650%20and%201850.>
- Fideos yr Academi Frenhinol Peirianeg - Gweithwyr Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) <https://www.thisisengineering.org.uk/>
- Pecynnau #TheGlovesAreOn #SeeSpeakSave <https://www.theglovesareon.co.uk/>
- Promote Equality <https://www.promoteequality.org/>
- Darlith *Miranda Kaufman - Black Tudors: Three Untold Stories*: <https://youtu.be/JfTaXRFV7EA>
- Adnoddau *Miranda Kaufman - Teaching Black Tudors*: <http://www.mirandakaufmann.com/blog/teaching-black-tudors>
- Miranda Kaufman – cynnwys cyffredinol (fideos, podlediadau, cyfweiliadau, blogiau) ar hanes pobl Dduon Brydeinig: www.mirandakaufmann.com
- Cynghrair Dysgu Byd-eang Cymru <https://www.wcia.org.uk/cy/dysgu-byd-eang/ymchwil-a-pholisi/cynghrair-dysgu-byd-eang-cymru/>
- The Black Curriculum UK Teaching Black British History: A Teacher Training Guide <https://www.futurelearn.com/courses/teaching-black-british-history-a-guide-for-teachers>
- Rhwydwaith Campbell <https://www.walesonline.co.uk/news/women-behind-campbell-network-new-18743009>
- Teaching Tolerance and Ethnocultural Empathy for Mutual Acceptance (T-TEEMA) <https://t-teema.com/>

Atodiad B: Y rhanddeiliaid yr ymynghorwyd â nhw

Mae'r grŵp wedi ymgysylltu â'r sefydliadau a'r rhanddeiliaid canlynol:

- Philip Blaker, Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru, ac Emyr George, arweinydd Cymwysterau Cymru ar gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd
- Dr Susan Davis, Cadeirydd Rhwydwaith BAME Ed Cymru ac arweinydd y dyniaethau cynradd yn Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Rhwydwaith BAME Ed Cymru
- Arweinwyr Partneriaethau AGA
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Diane Hebb, Cyfarwyddwr (Ymgysylltu â'r Celfyddydau) Cyngor Celfyddydau Cymru
- Dr April-Louise Pennant, Addysg, Ph.D. (Doethur mewn Athroniaeth), gan arbenigo ym maes anghydraddoldebau addysgol, mewn perthynas â hil, rhywedd, dosbarth cymdeithasol, ethnigrwydd, croestoriadedd a hiliaeth.
- Sian Gwenllian, Y Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg yr Wrthblaid, Plaid Cymru
- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
- Rheolwr Gyfarwyddwyr y Consortia
- Grŵp Partneriaeth Undeb Cymru
- Claire Parmenter, Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys
- Dirprwy Gyfarwyddwr Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru
- Soraya Kelly, The Gloves Are On
- Is-grŵp Addysg Menywod mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (WiSTEM)
- Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, a Jane Houston, Cyngorydd Polisi ac Arweinydd Polisi gwaith y Coronafeirws a Fi
- Tom Tom Hendry a Sue Morgan, Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru
- Huw Griffiths, Arweinydd Datblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh) ar gyfer Consortia ERW
- Rachel Clarke, Dirprwy Bennaeth yn Lloegr, â diddordeb arbennig mewn newidiadau cadarnhaol mewn ysgolion a sicrhau tegwch rhwng hiliau drwy'r system gyfan, ac wyres i'r Pennaeth Ysgol Du cyntaf yng Nghymru
- Angela Keller, Cyngorydd Ysgolion Catholig yng Nghymru
- Elizabeth Thomas, Cyfarwyddwr Polisi Addysg yr Eglwys yng Nghymru
- Darren Chetty, newyddiadurwr, awdur ac academydd
- Brenda Thompson, Athrawes yn Ysgol Gynradd Grangetown
- Daniel Wilson, Athro yng Nghymuned Ddysgu Ebwy Fawr
- Kojo Hazel, Athro yn Ysgol Gyfun Treorchy
- Stella Millward, Athrawes yn Ysgol Gyfun Glynrhedynog